



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>


Celt 5273.12.30



Harvard College Library

—

Gratis



TRAETHAWD

Y GWYLLUOR GOREU Y FFERMI GYDAFFRYS

YDDEU

CYFALAF A LLAFUR

YDDEU A GYDAFFRYS

YDDEU A GYDAFFRYS

YDDEU A GYDAFFRYS

YDDEU A GYDAFFRYS

YDDEU A GYDAFFRYS

YDDEU

YDDEU A GYDAFFRYS



TRAETHAWD:

Y CYNLLUN GOREU I SICRHAU CYDWEITHREDIAD

CYDRHWNG

CYFALAF A LLAFUR

(CAPITAL AND LABOR).

TESTYN EISTEDDFOD

"CYMREIGYDDION" UTICA, N. Y.,

Calan, 1887.

— GAN —

EDWARD C. ROBERTS,


COAL CREEK, COLORADO.

UTICA, N. Y.

T. J. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, 131 GENESEE ST.

1887.

Zeit 5873.12.10



gratis

CYNWYSIAD.

RHAGBRAETH:—Nodiadau Cyffredinol—Grisiau Dadblygiad, o'r Creadur Greddfodol hyd y Dyn—Y Barbariad a'r Dyn Gwaraidd—Cymdeithas yn ei Gwahanol Agweddion—Addysgiaeth, Dyfeisiau, a'r Celfyddydau, a'u dylanwadau daionus er dwyn oddiamgylch gymdeithas yn gyffredinol i'r agwedd y gwelir hi heddyw—Diwygiadau Cymdeithasol y Ganrif, &c. 5—8

PENOD I.

Llafur a Chyfalaf yn y Mynedol—Eglurhad ar Dermau y Testyn—Egin Anghydfod—Llafur ac Awdurdod—Cyfryngau y Chwyldroadau—Effeithiau y Chwyldroadau, &c., &c. 9—21

PENOD II.

Cyfalaf a Llafur yn y Presenol—Gwibdaith trwy rai o'r Tiriogaethau lle yr Ymleddir Brwydrau Cyfalaf a Llafur—Y Cyfryngau—Communistiaeth—Nihilistiaeth—Ffedereliaeth—Anarchyddiaeth—Sosialyddiaeth, &c.—Yr Effeithiau 21—42

PENOD III.

Cyfalaf a Llafur yn y Dyfodol—"Cynllun er Sicrhau Cydweithrediad rhwng Cyfalaf a Llafur"—Penderfynu pob Camddealltwriaeth trwy Gyflafareddiad—Mabwysiadu y Trefniant Cydweithiol a Rhan-Elwol—Fod i'r Trefniant Cyflogawl Presenol gael ei Sylfaenu ar fath o Raddeg—Ffurio *Statistical Bureau* yn mhob Talaeth trwy yr Undeb 42—69

PENOD IV.

Awgrymiadau Pellach—Ffurio Undebau ar Gynllun y Trade Unions yn mysg pob Dosbarth o Lafurwyr—Cwtogiad Oriau Llafur—Diwygiad yn y Cyfreithiau Tirol—Sefydlu Penydfa Gosbawl mewn rhyw Drefedigaeth Dramor—Dileu y Cyfreithiau hynny ag sydd yn Gwarchod Buddianau Cribdeilwyr yn y Cledrffyrdd, Llinellau Pellebrol, Ariandau, Cyfryngau Tros-glwyddiadol, &c.—Deddfu er Lleihau Rhwysg Anghymedroldeb, &c.—Diwedd 70—102



RHAGDRAETH.

“Almost all the advantages which man possesses above the inferior animals, arise from his power of acting in combination with his fellows, and of accomplishing, by the united efforts of numbers, what could not be accomplished by the detached efforts of individuals.”—*J. S. Mill.*

Geiriadur cyflawn o ffeithiau ydyw dyn; ac y mae pob person yn ddolen yn nghadwyn y meddwl cyffredinol. Bu pob chwyl-droad unwaith yn syniad yn meddwl un dyn, a phan y dygwydd yr un drychfeddwl yn enaid person arall, dyna fydd allwedd y cyfnod. Bu pob diwygiad unwaith yn amcan-dyb cyfrinachol, a phan y dygwydda ddyfod yn dybiaeth gyfrinachol, drachefn, egr y deongla gwestiwn y dydd, a phwnc yr oes.

Y mae i gymdeithas ei chymeriad yn ogystal a pherson unigol. Y mae yn eithaf gwir fod i gymdeithas pob oes ryw beth ag sydd yn perthyn i gymdeithas oes arall, ac hefyd y mae i bob cymdeithas ryw neillduolion mewn drwg a da, beiau a rhinweddau, nad ydynt yn perthyn ond i'r cylch hwnw yn unig. Mae y cysylltiad sydd rhwng gwahanol oesau a'u gilydd, yn nghyda'r dylanwad y mae y naill yn weithredu ar y llall yn gwneuthur llawer o debygolrwydd rhyngddynt; ond y mae y pethau neillduol ydynt yn perthyn i un oes—nas gellir eu priodoli i oesau eraill, yn peri fod elfenau ei chynydd yn wahanol. Fel megys mai nid un weithred o eiddo y dyn sydd yn ffurfio ei gymeriad, ond y mae pob gweithred o'i eiddo yn ffurfio rhan o hono; felly hefyd am gymdeithas, ac oes; nid cymeriad un dosbarth a chylch o bobl sydd yn ffurfio eu cymeriadau hwythau, ond pob dosbarth a chylch.

Ton ydyw cymdeithas. Symuda y don yn mlaen, ond y mae y dwfr a'i cyfansodda yn sefydlog. Mewn rhyw wedd, nid ydyw cymdeithas yn myned rhagddi. Cyll gymaint mewn un cyfeiriad ag a enilla mewn cyfeiriad arall. Y mae yn myned dan gyfnewidiad parhaus.

Y mae deall cymeriad cymdeithas yn ddyledswydd orphwysedig ar bob dyn. Canmolid meibion Issachar am "wybod beth a ddylai Israel ei wneuthur." Yr oedd y Phariseaid yn wrthddrychau cerydd ein Harglwydd am nad oeddynt yn "deall arwyddion yr amserau." Deallent "wyneb yr wybren," ond deall nodweddion a hynodion yr oes, ni fedrent, er fod llawer o honynt wedi eu cerfio gan law Duw ei hun. Nid yn unig y mae yn bechod i ddyn esgeuluso ei ddyledswyddau, ond y mae mantais iddo o'u cyflawni. Pwy mor llwyddianus yn ei anturiaethau a'r hwn sydd yn astudio cyfeiriadau tonau arwyddocaol cymdeithasol?

Y mae gwelliantau cymdeithasol bob amser yn arafaid. Mor eithafol fusrrell y mae camrau gwareiddiad wedi bod! Mor raddol y mae ei ddylanwadau marsiandioli wedi effeithio yn nyrchafiad corff y boblogaeth! Tyner-weinir arno ar liniau cenedlaethau cyn y bydd ei effeithiau yn ganfyddadwy, o herwydd gwir yw nad ydyw un genedlaeth ond megys diwrnod yn hanes gwareiddiad. Bu rhai o'r hen genedlaethau boreuol mewn rhyfeloedd blinion am oesau yn olynol, cyn y gallasant enill hawliau bodolaeth fel cenedl. Cymerodd bedair canrif o erledigaeth greulawn ar "ardderchog lu y merthyri" cyn sefydlu Cristionogaeth. Trwy ddyfal-barhad, penderfyniad diysgog, a miloedd o ofidiau am oesoedd yn olynol y llwyddwyd i gael y caeth yn rhydd. O'r amser pryd nad oedd y dosbarth gweithiol yn ddim amgen na dyhirod a chaethweision, yn cael eu prynu a'u gwerthu gyda y tir a lafurient, hyd yr amseroedd yr ydym ni yn byw ynddynt, mor fawr y gwahaniaeth; mor dra boddhaol y cyferbyniad!!

Syndod ydyw fod mor dra anhawdd difodi yr ystrywiau Satanaid ag ydynt fel rhwd difaol wrth wraidd pob llwyddiant gwladol a chymdeithasol. Y mae crefydd, addysg, y celfyddydau, ac ysbryd cymdeithas yn edrych yn mlaen; ond arafaid hynod y mae dyn yn diwygio. Mae cyfatebiaeth agos cydrhwng ymddadbygiad cymdeithasol a dadblygiad rhywogaeth Ychydig wahaniaeth sydd rhwng dosbarthiadau israddol o'r anifail ag y mae eu galluoedd yn ychydig a syml; ac o'r braidd y gellir gwahaniaethu un dosbarth oddiwrth y llysieun.

Fel yr ymddyrchafa bywyd i fwy o amlygrwydd, rhydd syml-

rwydd le i gymysgedd; ymddadblyga y rhanau syml i organau, gyda swyddau gwahanol a pherthynasau gwahanredol. Gyda diffygion a galluoedd newyddion, gofynir mwy o ddealltwriaeth i sicrhau bywioliaeth, ac i osgoi perygl. Yn ddiweddar yr ysgol dyrchafiad bywyd, daw dyn; y mwyaf aruchel, y tlysaf a'r tyn-eraf ei organau o'r anifeiliaid. Mewn dyn, y mae y ddealltwriaeth ag sydd yn cynyddu ar hyd graddeg natur, yn neidio ar un llam i gyrhaedd dealltwriaeth mor ragorol, fel ag y mae y gwahaniaeth yn ymđangos yn fwy o ran rhyw a gradd. Ynddo ef, mae y ddealltwriaeth gul ac anwybyddol a alwn yn reddf, yn dod yn rheswm ymwybyddol; ac y mae y gallu godidog o rod-di at, a chynllunio, yn gwneyd dyn eiddil yn frenin natur.

Gyda dyn y mae y llinell esgynol yn terfynu, dyna berffeithrwydd yr anifail, a dechreuad ymddadblygiad mewn cyfeiriad arall. Lle y terfyna dadblygiad rhywogaeth y dechreu ymddadblygiad cymdeithasol, a elwir gwareiddiad. Gyda y cynydd yna ymgyr y galluoedd deallol. Cawn fod y gagendor rhwng y barbariad gwyllt a'r dyn gwareiddiedig yn ogymaint ag ydyw y gagendor cydrhwng yr anifail organawl uchaf a'r llymarch (*oyster*) ag sydd wedi glydio wrth greigydd ansyfladwy glanau y Werydd. Deil yr un ddeddf yn y cynydd a ddechreu gyda y dyn, yr hon a arweinia i fyny eto gyda ffurfiad cymdeithasau, ac o'r cydymffurfiad yna o wybodaeth unigolion y ffurfir barn y cyffredin, ewyllys y cyffredin, a chydwybod y cyffredin. Fel y dadblyga cymdeithas, gofynir graddau uwch o ddealltwriaeth, o herwydd yn y dechreuad anghelfydd yr ydoedd pob teulu yn cynyrchu eu bwydydd a'u dillad, ac adeiladu eu tai eu hunain. Yn ddiweddar, mewn cydmariaeth, y tynodd dyn fywioliaeth allan o hadau, gan gadw cyfran o honynt at gynyrch y flwyddyn olynol. Yn ddiweddarach eto y cafwyd y dderwen gadarngraf yn gwch i nofio yr eigion. Daeth y cwch yn llong, yn agerlong, ac agorwyd y byd i drafnidiaeth a gwareiddiad. Buasai y dyn yn parhau yn ei gyflwr gwyllt cynhenid oni b'ai am ganlyniadau bendithiol cyntaf-anedigion cymdeithas—llafur a gwyddoniaeth. Coron ogoneddus dadblygiad cymdeithasol ydyw holl ddyfeisiau a darganfyddiadau gwerthfawr ein byd ni.

Cawn fod yr holl greadigaeth, elfenau natur, mwneu y ddaear,

a choedydd y maes, yn ymostwng ac yn talu gwarogaeth i ddyn. O'r hen dderwen gadarngrêf llunia ystol i eistedd arni, bwrdd o'i flaen, pren dan ei wely, a llong i'w gludo tros donau trychion-og yr eigion. Saif tystion talgryf gwareiddiad ar dde ac aswy, addurnant wyneb y byd ar dir a mor. Y dinasoedd teg, y palasau prydfferth, a'r adeiladau mawrion, y trydan yn goleuo ein heolydd heb babwyr na gwer, y gleddrffordd yn ymdorchi trwy ein gwastadeddau di-ben-draw, y fellten wedi ei dal a'i gwareiddio, a hono ag un ysgydwad i'w haden danllyd, yn taffu meddyliau o begwn i begwn byd, gan wneyd, "Pellder ac amser yn gam ac yn eiliad."

Fel y gwelwn, y mae cynydd cymdeithas wedi pentyru gwybodaeth, tyueru moesau, coethi chwaeth, ac eangu cydymdeimlad; eto y mae dyn yn fwy agored i wneyd camgymeriadau mwy echrydus na phan y dilledid et a chroen i ymladd gwylltflod gyda ffon-dafi a cheryg. Y mae tueddiadau yr oes, yn enwedigol y blynyddoedd diweddaf hyn, yn dra bygythiol i bob sefydliad rhinweddol—nwydau annosbarthus ynfydion bron cyneu yn fflam yn mhrif drefi ein gwlad; cymdeithasau dirgelaidd yn difa ein nerth ac yn bwyta ein cryfder fel Gweriniaeth. Yn sicr y mae yr arwyddion chwyldroadol presenol yn hawlio sylw ein gwladweinwyr mwyaf manylgraff a hyawdl. Credoau yn marw, syniadau yn cyfnewid, trafndiaeth mewn cyfwng chwyldroadol, cymdeithas yn llygru, rhyddid a chydraddoldeb yn cael ei fathru ar ben pob heol.

CYFALAF A LLAFUR.

“**OMNIA VINCIT LABOR.**”

PENOD I.

CYFALAF A LLAFUR YN Y MYNEDOL—EGLURHAD AR DERM-
AU Y TESTYN—EGIN ANGHYDFOD—LLAFUR AC AWDUR-
DOD—CYFRYNGAU Y CHWYLDROADAU—EFFEITHIAU Y
CHWYLDROADAU, &c.

CYFALAF (*Capital*).—Dysgir ni gan awdwyr yn y gangen hon o wleidiadaeth, fod cyfalaf yn golygu, bob amser, y gyfran a gynilir trwy dreuliad uniongyrchol i gael ei gysegru at ddybenion cynyrchiol: ac nid yw o bwys a gyflwynir y cyfryw gan y llafurwr ag sydd i'w ddefnyddio, neu gan ryw berson arall a'i benthycu i'r llafurwr ar lôg, neu i gyflogi y llafurwr i weithio gydag ef am gyflog penodol. Gellir galw cwch y pysgotwr yn gyfalaf yn ogystal ag un o agerlongau llinell Inman, gyda hyn o wahaniaeth: y perchnog sydd yn trafod y cwch, a'r agerlong gan bersonau na chawsant erioed adnabyddiaeth a'r perchnogion. Mae'r pysgotwr yn yr achos yna yn llafurwr ac yn gyfalafwr; ond yn achos yr agerlong, cyfrenir y cyfalaf gan un blaid, a'r llafur gan blaid arall.

Yn yr hen amser gynt, gweithiai dynion er digoni eu hangenrheidiau eu hunain—eiddynt hwy yr had a'r cynyrch; offeryn ydoedd cyfalaf yn nwyllaw llafur.

Er fod arglwyddi y canol-oesoedd yn nodedig o gyfoethog, nid oeddynt yn gyfalafwyr, nac yn usurwyr, o herwydd gwnaent bob defnydd o'u cyfoeth ond ei roddi ar usuriaeth. Drychfeddwl hollol ddyeithr i'r cyfnodau boreuol ydoedd i'r cyfalafwr ymerodraethu ar bob cynyrch a chynyrchydd. Mewn amseroedd diweddar,—wel, er pan y cyfododd trafndiaeth dramor yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, cawn fod yr hen drefniadau wedi graddol wyro i'r agwedd y gwelir pethau heddyw. Heddyw, rheolir diwydrwydd gan anturiaethwyr, y rhai a gyflwynant y defnyddiau, ac a dalant gyflog penodol i'r llafurwr, mewn trefn i fudr-elwa ar gynyrchiad y nwydd; gan hyny nid yw llafur ond offeryn yn nwyllaw cyfalaf. Y cyfalafwr ydyw yr hwn (er nad yn gynyrchydd yn bersonol) sydd yn cyflwyno arian a defnyddiau trosodd i gynyrchwyr er eu cyflenwi a nwyddau, mewn gwir ddiogel obaith y derbyniant y can' cymaint yn at-daliad. Y cyfalaf ydyw yr arian a drosglwyddir felly. Nid ydywrhesymeg ysgol Adam Smith ond twyll pan y cydglyma gyfalaf ac arian, gan hawlio mai yr un peth ydynt, yn cylchredeg mewn fyrdd gwahanol. "Arian, fel arian," meddynt, "sydd derm canolog rhwng dau nwydd. Nwydd yn cael ei droi yn arian, a'r arian drachefn yn cael eu had-ddychwelyd yn nwyddau." Cyfalaf, gan hyny, fel ei deallir gan ysgol Smith, sydd nwydd annibynol a gyflogir er ei hunan-gynydd. Ymbalfalant er ceisio darganfod y modd y daeth y cyfoeth annibynol y soniant am dano i bentru i goffrau y rhai nas cynyrchasant. Amlwg yw nas gall cynydd gwerth, ddim cyneryd lle oddieithr yn nadblygiad cynyrch; nis gall ddod o

ddefnyddiau meirwon ; rhaid iddo ddod trwy y bywyd creadigol a weithreda arno trwy lafur. Nis gall cynydd mewn gwerth gymeryd lle, meddynt, trwy gyfnewidiad, o herwydd nid ydyw cyfnewidiad yn ddim angen na thraws-osodiad pethau o gydradd werth. Mewn un wedd, y mae pob plaid yn yr ymdrafodaeth yn enillwyr, o herwydd y mae y naill a'r llall yn cael yr hyn oedd yn sefyll mewn angen am dano, am yr hyn nad oedd arno ei eisiau. Y mae defnyddioldeb y nwyddau, yn y wedd yna, yn cynyddu yn y gyfnewidfa, ond nid ydyw ei gwir werth felly. Meddylia y cyfnewidiad, yn syml, fod y naill blaid yn trosglwyddo i'r llall werth cyfartal am werth cyfartal ; ac hyd yn nod pe byddai yn bosibl i un o'r pleidiau enill mewn gwerth heddyw—i gael nwydd mwy gwerthfawr am nwydd llai o werth—eto, gan fod yr holl fyd yn brynwyr a gwerthwyr yn eu tro, gellir colli yfory fel prynwyr, yr hyn a enillwyd heddyw fel gwerthwyr, a thrwy hyny adferu cyfartaledd cynhenid gwerth. Ni effeithid yr un cyfnewidiad, pa fodd bynag, yn yr ymdrafodaeth. Efallai fod gwerth nwydd yn cael ei greu yn nghwrs cyfnewidiad, pan y mae un marchnatawr yn manteisio ar y llall—pan y mae Williams, dyweder, yn llwyddo i argyhoeddi Jones i gymeryd gwerth \$40 o lysiau, am werth \$50 o chweg-nwyddau (*groceries*). Yn yr achos yna, nid oes yr un cynydd wedi bod yn y gwerth ; y mae wedi cyfnewid dwylaw, dyna yn unig. Y mae gan Williams fwy o \$10 nag oedd ganddo yn flaenorol, a Jones \$10 yn llai. Cyfanswm gwerth y nwyddau cydrhyngddynt wedi'r cyfnewidiad, fel yr ydoedd yn flaenorol i'r cyfnewidiad, ydyw \$90.

Nis gellir peri cynydd yn y gwerth trwy newid y perchenogydd. Dadleua un o ysgrifenywyr galluocaf yr Almaen, Karl Marx, fod cyfalaf pob cynydd, ac eithrio cyflogau, yn werth hollol digynyrech, ac o ganlyniad, ddim yn hawlio'r gydnabyddiaeth a adnabyddir fel llog. Gwerth gwreiddiol pob cyfalaf o'r fath, pris pryniad y nwyddau, gyda chydabyddiaeth am ddefnyddiad a thraul offerynau, yn cael eu cario trosodd i werth y cynyrch. Nis gall hyny gymeryd lle ond yn unig trwy lafur. Noddir yr hen werth gan lafur, ac y mae gwerth pob nwydd yn rhoddedig trwy offerynoliaeth yr un gallu, ac o ganlyniad y mae llog yn ystyriaeth allan o'r cwestiwn yn gyfangwbl.

Nid ydys yn iawn-ddeall deffiniad ysgol Adam Smith o "werth," (*value*). Golyga fod gwerth y nwydd yn y gyfnewidfa i fod yn annibynol ar werth y nwydd mewn ymarferiad. Gosodir gwerth ar ddwfr mewn ymarferiad, ond dim mewn cyfnewidiad; ac y mae i'r diamwnt werth mawr ar y gyfnewidfa, ond ychydig mewn ymarferiad. A myned i'fanylwydd, gallem ddweyd nad ydyw gwerth mewn ymarferiad yn werth o gwbl—defnyddioldeb ydyw. Yn unol ag ymresymiad y Smithiaid, nid ydyw gwerth yn y gyfnewidfa ond ffug yn unig, o dan ba un, yn y cyflwr presenol ar gymdeithas, y mae gwerth yn amlygu ei hun. Nid oedd y gyfnewidfa mewn bodolaeth yn yr amseroedd pan y cynyrchai pob teulu nwyddau er cyflenwi eu hangenion eu hunain. Lle nad ydoedd cyfnewidfa yn drefniant, yn ol pob rheswm nid oedd gwerth cyfnewidiol yn bod. Er hyn i gyd, nid oes gradd o amheuaeth nad oedd gwerth yn yr "hen amser gynt," ond ei fod

yn amlygu ei hun mewn ffurf wahanol. Yr ydym ni yn nghymdeithas y cyfnewidiadau, lle y cyfansoddir pob peth gyda'r amcan o'i fwrw i'r gyfnewidfa, ac o'r gyfnewidfa yr ydym ni wedi lloffa hyny o brofiad prin sydd genym am werth.

Ni oddef gofod i ni ddilyn y gwahanol ysgolion, a gwyllt syniadau rhai o honynt ar dermau y testyn. Ond, "Beth ydyw gwerth?"—Pris sylweddol ar ddefnyddioldeb perthynasol y nwydd i'r gymdeithas a lunia y prisiad. Tyb gymdeithasol yn cael ei hamlygu ar wrthddrych mewn cydmariaeth i wrthddrychau eraill. Y mae y syniad yna wedi ei gydgasglu mewn ffordd afreolaidd, eto effeithiol, trwy gadwyn o ddichellion cyrhaeddadwy i farchnatawyr.

Yn awr, pa fodd y gellir penderfynu gwerth, a'r gwahaniaeth neu'r graddau mewn gwerth? Gwneir i fyny werth pob nwydd yn ol y swm a feddiana o'r nodweddion canlynol: (a.) Ei fod yn ddefnyddiol i gymdeithas. (b.) Fod yn gofyn llafur neu drafferth idd ei gynyrchu. Nid oes yr un nwydd yn ddiffygiol mewn gwerth ag sydd yn feddianol ar un o'r nodweddion uchod, ac nid oes gwerth i'w ddodi ar un nwydd ag sydd yn ddiffygiol yn y naill neu y llall o honynt.

Yn awr y mae genym ddau fath o nwyddau. Cynyrchir rhai i swm amhenodol trwy gyfrwng llafur, a chan bawb a'u hewyllysiant; pwrceisir hwy hefyd unrhyw amser am y draul o'u cynyrchu. Nid oes i'w defnyddioldeb cymdeithasol ddim dylanwad ar eu gwerth; saif y nwyddau hyny bob amser ar gyfartal-edd gwerth eu cynyrchiad yn unig. Cawn ddsbarth arall o nwyddau, nad ellir eu lluosogi i swm neu nifer

amhŷenodol trwy lafur ; mae y swm yn derfynedig gan achosion naturiol, neu gan ryw achosion eraill nad all y cyfryw a'u dymunant eu pwreasu am y llafur a'u cynyrchant yn unig. O ganlyniad, saif gwerth nwyddau o'r radd yna uwchlaw pris perthynasol eu cynyrchiad, a phenderfynir hyny bob amser oddiwrth eu defnyddioldeb i gymdeithas. Mewn effaith, y mae y llafur gofynol yn eu cynyrchiad, mor bell o fod yn dywysydd yn mhenderfyniad eu gwerth, fel mai y gwerth, mewn gwirionedd, sydd i benderfynu y swm o lafur a roddir yn eu cynyrchiad. Defnyddioldeb cymdeithasol nwydd ydyw ei gymwysder i gyflenwi angenion arall ; a chawn hyn yn gogwydd ar ddwy ystyriaeth o leiaf. (a.) Pwysigrwydd yr angen y mae y nwydd yn ei gyflenwi. (b.) Nifer y personau ydynt gyd-gyfranog o'r angen. Y mae pob nwydd sydd yn sugno ei werth, neu ei ragoriaeth, o brinder, yn perthyn i'r dosbarth diweddaf y cyfeiriwyd ato. Pechod parod i amgylchu yr ysgolion boreuol yn eu hymdriniaeth a'r pwnc holl-bwysig yma, ydoedd cymeryd y ddeddf ag sydd yn wirionedd am y dosbarth blaenaf o nwyddau, yn wirionedd ymarferol am bob dosbarth.

Cawn achos rhagllaw i ymyryd a'r trefniant cyflogawl, ac a'r trefniant a adnabyddir fel ol-lafur—y llafur ag y mae twyll y trefniant yn gwneyd y ffug-ymddangosiad o fod wedi ei dalu. Dyna ddirgelwch a mawredd trwyadl y gyfundrefn, ac Alpha pob anghydfod cydrhwng cyflogydd a chyflogedig, ac o'r holl hud a lledrith yn nghyleh rhyddid llafur. Y trefniant cyflogawl ydyw a, b, c, holl ymfflamychiadau y llafurwr.

Cynorthwya y gyfundrefn y cyfalafwr i gofleidio pob gwerth a gynyrcha y llafurwr.

Yn awr cymerwn gipdrem ar rai o'r brwydrau sydd wedi eu hymladd cydrhwng llafur ac awdurdod yn y lle blaenaf, ac yn y diweddaf cydrhwng llafur a chyfalaf.

Cawn fod ysbryd anfoddogrwydd yn ymsymud ar wyneb dyfroedd cymdeithas yn agos i dair canrif yn ol. Ymleddid yr ornest am dymor maith cydrhwng llafur ac awdurdod (*labor and authority*), ac yn ddiweddaf cydrhwng llafur a chyfalaf (*labor and capital*). Wrth wyllo symudiadau y pleidiau trwy ddellt hanesiaeth, cawn lafur yn carlamu yn fuddugoliaethus dros Alpau o anhawsderau. Pan y dechreuodd llafur ymwingo yn erbyn symbylau trais, gormes, a hawl, yr ydoedd nid yn unig y llafur, ond hefyd person y llafurwr yn eiddo rhyw bennaeth. Gwerthid gwyr a gwragedd gyda'r tir a lafurient, a deuent yn rhan o berchenogaeth eu harglwydd newydd, yr un ffunud a'r coed a dyfai ar y tir a bwrcesid. Mor ddiweddar a dyddiau y prif-faridd Shakespeare, cawn weddillion o'r gwaseidd-dra pechadurus yn bodoli yn Mhrydain. Nid oedd son am anghydfod yn tori allan cydrhwng cyflogydd a chyflogedig yn y dyddiau hyny, oblegid offeryn y cyfrifid y gweithiwr. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1779 yr ydoedd mwnwyr Prydain mewn ystad gaethwasiol. Gorfodid hwy trwy gyfraith i aros yn y mwnglawdd cyhyd ag yr ewyllysiai y perchenog eu cadw i weithio, a gwerthid hwy fel rhan o'r cyfalaf a roddid yn y gwaith. Pe y derbynient gyngyiad i weithio mewn man arall, gallai eu meistr blaenorol eu cyrchu

yn ol i'w fflangellu fel lladron, am geisio ei ysbeilio o lafur. Ad-drefnwyd y mesurau yna yn 1789, ond ni ddilewyd y ddeddf oddiar lyfrau y wlad hyd 1799. —“*The Trade Unions of England*,” p. 119. Mor ddiweddar ag 1806, gorfodid pob llafurwr i bwreasu trwydded (*license*) yn Ffrainc.

Mawr y cyfnewidiad, ie, y chwyldroad ddylaswn ddweyd. Heddyw y mae y llafurwr tlotaf yn America a Phrydain—yn wir trwy y byd gwareiddiedig—sydd yn gallu defnyddio caib a rhaw, ar safle gydradd a phwrcasydd ei lafur. Gall atal neu werthu ei lafur fel y gwel yn oreu. Gall ddadleu ac ymgynadleddu, a thrwy hyny esgyn i fôd yn blaid gyfrifol ac annibynol mewn amod. Pan y gorphenno y gorchwyl fyddo wedi gymeryd mewn llaw, nid ydyw yn nyled ei gyflogydd o ddim, ac nid ydyw o dan unrhyw rwyman iddo mwyaach. Nid yn unig y mae'r llafurwr wedi enill ei ryddid gwladol a phersonol, ond y mae hefyd wedi cyrhaedd rhyddid i'w ddiwydrwydd yn ogystal, a gall heddyw wynebu ei gyflogydd, gan hawlio cydraddoldeb yn ngwyneb cyfraith.

Arafaidd hynod fu symudiad cerbyd y diwygiadau pwysig ag yr ydym ni yn mwynhau eu heffeithiau. Credwn mai perthynas a chysylltiad eiddo a'r wladwriaeth ydoedd cynhyrfydd a chychwynydd cyntaf yr holl chwyldroad. Drychfeddwl mawr y diwygwyr ar y cyntaf ydoedd adferu yr hyn a alwent yn gyflwr natur, pan yr ydoedd cydraddoldeb cynhenid eto yn llywodraethu, a phryd nad ydoedd y ddaear yn eiddo neb, a'i chynyrch yn eiddo pawb. Dysgent nad oedd dim sylfaen gyfreithlon i eiddo ond angen. Yr hwn sydd ag

angen sydd a hawl, a galwent yr hwn a fyddai a mwy na'i angen yn lleidr. Dadleuai Rousseau fod i bob dyn hawl naturiol i'r hyn y mae yn sefyll mewn angen am dano. Brissot, un eto o'r un ysgol, a ddywedai mai lladrad noeth ydyw eiddo neillduol yn ngoleu natur.

Tua'r flwyddyn 1793 y corfforwyd y syniadau gwasgaredig yna yn drefniant, ac yr ymfurfiodd achleswyr y cyfryw syniadau, yn blaid—yr Egauxiaid. Ni chyfrifent yr unigolyn yn neb, ond y wladwriaeth oll yn oll. Trawsffurfio pob peth i ddwyllaw y wladwriaeth ydoedd yr unig ffordd glir yn eu golwg hwy i wella'r archoll ac i lanw'r gagendor cydrhwng llafur ac awdurdod. "Oferedd," meddynt, "ydyw breuddwydio am derfyn ar draha a gormes, hyd nes y byddo pob eiddo wedi ei drosglwyddo i ddwyllaw y wladwriaeth, i gael ei ddsbarthu i'r dinasyddion ar egwyddorion cydraddoldeb diamheuol"—y wladwriaeth yn unig berchenogydd, ac yn unig gyflogydd, i gyfranu i bob person y gorchwyl a fyddai yn cyfateb i'w ddawn a'i allu. Daeth cwynion llafur yn adran bwysig yn ngwleidyddiaeth cyfandir Ewrop gyda genedigaeth y ganrif hon. Dadleuid ac ysgrifenid, a thrwy egni a dyfal-barhad di-ildio, llwyddwyd i agor llygaid y werinos i ganfod truenusrwydd eu cyflwr. Cynhyrwyd y lluwys gan syniadau o fath yr isod, a gyhoeddwyd yn eu horganau swyddogol: "Beth a phwy ydyw y wladwriaeth?" Y Ni, y llafurwyr, ydym 97 y cant o'r holl boblogaeth. Dylai holl allu y wladwriaeth fod o honom ni, ac erom ni; ein daioni penaf ni ddylai fod nôd uwchaf y wladwriaeth; nid lles dosbarth mo hono, ond

lles cenedl. Mae ein hachos yn achos dynolryw, ac y mae ein daioni personol yn ymsymud gyda churiadau hanesiaeth; gydag egwyddorion bywiol dadblygiad moesol. Dan y trefniant yna, a'r syniad newydd am werth llafur, ni byddai dim elw neillduol, neu hawl-fraint; o ganlyniad byddai llai o hunan-les. Byddai Efa i nyddu, ac Adda i gloddio; ac yn ymwybodol neu anymwybodol, byddai i'r person unigol weithio mwy dros y lluaws, a'r lluaws dros bersonau unigol. Ys-grifenydd arall, o'r un ysgol, a ddywed: "Dyben ac amcan y wladwriaeth ddylai fod, nid yn unig warchod rhyddid, ond hefyd cynorthwyo yn nadblygiad egwyddorion yr unrhyw; gosod y person unigol yn ngafael y cyfryw gydraddoldeb o fodolaeth; y cyfryw raddau o ddiwylliad, gallu, a rhyddid ag a fyddai abl i gyrhaedd trwy ei ymdrechion personol ei hunan. Y wladwriaeth ydyw y goruchwilydd mawr i arwain a hyfforddi yr hil ddynol i ymddadblygiad sier a pharhaol. Mewn geiriau eraill, i ddwyn tynged y ddynoliaeth i ffurf a gwedd bodolaeth wirioneddol, rhaid i'r wladwriaeth trwy undeb yr oll, gynorthwyo i lanw dadblygiad y person unigol."

Dyna feddylddrych ardderchog yr ysgol foreuol—yr oes newydd—oes meibion llafur. Dyna gnewullyn holl ddiwygiadau bendithiol y ganrif. Yn ganlynol, cyhoeddodd cymdeithas na byddai i un dyn mwyach fod yn gaethwas. Yn ddiweddarach, cyhoeddodd nad oedd un dyn i fod yn anwybodus; ac yn nghynadleddau mawrion yr Almaen, yn 1848, cyhoeddwyd (ond nid yn effeithiol) nad oedd un dyn i fod heb eiddo personol. Dadleuent yr amhosibrwydd i ddyn fod yn wir-

ioneddol rydd heb eiddo, mwy nag y gall fod yn wirioneddol rydd heb wybodaeth. Y mae dyn wedi ei ryddhau o ystad o ddibyniad cyfreithiol, ac o ystad o ddibyniad deallol. "Rhaid iddo yn awr," meddai'r Egauziaid, "gael ei ryddhau o ystad o ddibyniad cyllidol." Trwy offerynoliaeth Lassable a'i bleidwyr y daeth cyfalaf a llafur wyneb yn wyneb. Yn wir, gwnaeth dilynwyr yr athronydd galluog Hegel eu rhan er gwneyd perthynas cyfalaf a llafur yn bwnc y dydd, ac yn brif ymehwil yr oes. Dangosent, gyda graddau o eglurder, fod yr hen drefniant oll yn bwdr, nad oedd man glân na chyfan arno. Eto, nid ydynt wedi llwyddo i ddadlenu ger gwydd y byd, un cynllun anffaeledig i lanw y gagedor, nac i gymwyso un moddion er enill cydymdeimlad a chydweithrediad y pleidiau. Yn wir, y mae yr hen ysgol Hegelaidd yn ei hymdrechion at ddiwygiad, yn tueddu i wneyd y drwg yn waeth. Ymgais fawr yr Hegelaidd ydoedd rhyddhau trefniant dosbarthiad i fod dan ddylanwad rhyw alluoedd neillduol, ac i gael yn ol eiddo y person unigol am y waith gyntaf, ar ei seiliau naturiol a chyfiawn—llafur. "Mae miloedd o lafurwyr," meddynt, "ddydd ar ol dydd yn trawsffurfio eu hymenyddiau, cyhyrau a gewynau yn nwydd defnyddiol, yn werth, yn gyfoeth." "Yn awr," ebai'r athronydd, "y pwnc sydd genym i'w ddadansoddi ydyw, trwy ba drefniant y gellir cael yr eiddo, y gwerth presenol, i droi mwy yn y dwylaw a'i cynyrchant?" Dylai fod yr un cysylltiad cyfranogol yn y cynyreh, ag sydd yn barod yn y gwaith. Rhaid i gyfalaf ddod yn is-wasanaethgar i lafur. Rhaid i fudr-elwa ddiflanu, ac i ddiwydrwydd gael ei lywodraethu yn fwy gan egwydd-

orion cyd-gyfranogiad, na chan ddeddf perchenogiad. Dan y trefniant amherffaith presenol, nid ydyw y llafurwyr ond adranau ac aelodau amrywiol rhyw beiriant anferth, yn cael ei weithio yn mlaen gan y cyfalafwr. Cyfansodda y llafurwr bob peth yn gyntaf oll, ac yn ddiweddf oll, at wasanaeth pobl eraill; a gwnant y cyfryw bethau wrth gyfarwyddyd, ac ar draul y cyfalafwr sydd yn masnachu am arian, yr hyn, yn absenoldeb trefniant cywir o gyfrifiadaeth, sydd yn anturio yn y tywyllwch."

Credwn mai nid hollol anghywir fyddai dweyd mai creadigaethau "meddyleg" (Hegel), ydyw "dynoliaeth" (*Humanism*) yr Almaen, Communistiaeth Ffrainc, Ffedereliaeth Awstria, a Nihilistiaeth Rwsia. A chymysgfa o'r holl gredoau chwyldroadol yna ydyw Sosialyddiaeth ac Anarchiaeth y dyddiau diweddf hyn. Llwyddodd Hegel i drawsffurfio ffrwd syniadau y byd i fod yn un cyfangorff o "reswm." Amcanodd yr Hegeliaid ysgubo ymaith dduwinyddiaeth ac uwch-anianyddiaeth (*metaphysics*), a chyfyngu pob athrawiaeth i gylch gwyllt materoliaeth. "Nid oes dim gwirioneddol," meddynt, "ond dyn—y dyn cymysgedig o gig a gwaed, ag sydd yn meddwl a theimlo. Duw ydoedd fy nrychfeddwl cyntaf, ('Dadblygiad Meddyl-iol' Hegel), rheswm yn ail, a dyn yn drydydd ac yn olaf." Dadleuent mai y synwyrâu oeddynt unig ffynonell gwybodaeth wirioneddol—fod y corff, nid yn unig yn rhan o fodolaeth dyn, ond y dyn yn ei gyfanswm; yn fyr, dyn ydyw yr hyn a fwyty. Ar y gwaelod sigladwy yna y seiliwyd Communistiaeth, mamaeth Sosialyddiaeth. Wele eu cyffes ffydd: "Dyn ei hunan ydyw

ein Duw, a'n tad, ein barnydd, ein hiachawdwr, ein gwir gartref, ein deddf a'n rheol; Alpha ac Omega ein bywyd teuluaidd a chymdeithasol, a'n gweithredoedd gwladol a moesol. Nid oes iachawdwriaeth ond trwy ddyn. Rhaid dynoli y wladwriaeth, rhaid ei gwneyd yn offeryn yn llaw pawb i lesoli pawb. Nid yw dyn mwyach i fod yn offeryn, ond achos terfynol yn mhob peth, ac yn mhob man. Ewyllys dyn a wneler, bendigedig fyddo'i enw."—*Religion of the Future, by Friedrich.*

Dyna'r egwyddorion sydd wedi ein dwyn ar riniog y frwydr fawr a ymleddir y dydd heddyw rhwng cyfalaf a llafur yn America-werinol, yn ogystal ag yn Ewrop unbenaethol.

PENOD II.

"Every age of the world has its own ruling idea."

CYFALAF A LLAFUR YN Y PRESENOL—GWIBDAITH TRWY RAI O'R TIRIOGAETHAU LLE YR YMLEDDIR BRWYDRAU RHWNG CYFALAF A LLAFUR—Y CYFRYNGAU—COMMUNISTIAETH—NIHILISTIAETH—FFEDERELIAETH—ANARCHYDDIAETH—SOSIALYDDIAETH, &c.—YR EFFEITHIAU.

Fel yr awgrymwyd eisoes, arweiniodd creadigaethau yr athronwyr Hegelaidd gyda'u haddysgiaeth gymysgryw o athroniaeth a chrefydd, gyfandir Ewrop i gyf-wng tra nodedig. Trawsffurfiwyd y wladwriaeth yn werinol, ac ystad cymdeithas yn Gommunistiaidd. Cyflwynwyd i sylw y byd amrywiol gyfundrefnau er cyf-uno y rhwyg, a llanw y gagendor, cydrhwng cyfalaf a

llafur; a charem wneyd sylw byr ar rai o'r cyfundrefnau mwyaf nodedig.

Y gyfundrefn a ddaw dan ein sylw gyntaf, fydd y "Cyngrair Communistaidd." Y mae cynwys y cyhoeddiad cyntaf a anfonwyd allan gan y "Cyngrair" yn eithafol chwyldroadol; ond efallai fod rhai awgrymiadau, pe eu gosodid allan mewn iaith ychydig yn fwy cymedrol, a llai tanlyd, y gallasai rhyw ddaioni parhaol ddeilliaw i'r pleidiau yr ymgyngreirid o'u plegid. Yn y cyfnod yma—pryd y ffurfiwyd y Cyngrair Communistaidd—y cawn weledigaeth eglur ar gymdeithas wedi ei gwasgu i lawr i ddwy, a dim ond dwy, wersyllfa elynol. Yr ydoedd dosbarthiadau pwysig wedi diflanu yn ddiweddar; ac yn awr ni cheid ond dosbarth pwysig y cyfalafwyr, gan y rhai yr ydoedd holl eiddo a gallu y wlad, a'r dosbarth gweithiol, gan y rhai nad oedd rhan na chyfran o'r naill na'r llall. Wedi gweithio y llafurwr allan o bob eiddo, llwyddodd y cyfalafwyr i'w amddifadu o bob gallu gwladwriaethol. Trinid y llafurwr fel nwydd. Pwrcasid ef yn y farchnad iselaf am y draul o'i gynyrchu, h. y., y draul o'i gadw, a chymeryd oddiwrtho holl gynyrch ei lafur, wedi cymeryd ymaith y draul o'i gadw yn fyw. Dan y trefniant o lafur cyflogawl, nis gallasai fod yn amgen. Safon cyflog yn yr ystyr yna ydyw cynaliaeth, ac nis gall byth ymddyrchafu uwchlaw cynaliaeth; a thra y parhao llafur cyflogawl i gynyrchu eiddo, y mae bob amser yn gwneyd hyny i'r cyfalafwr, ond byth i'r llafurwr. Mewn gair, er budd y dosbarth llywodraethol o gyfalafwyr y caniateid i'r dosbarth gweithiol fyw, symud, a bod.

Penderfynodd y "Cyngrair" mai trefniant anghyfiawn yn mhob ystyr ydyw llafur-gyflogiad. Eithaf da, can belled ag y mae yr ewyllysiad yn myned, ond pa feddyginiaeth a gynygid at wella'r archoll? Gosod trefniant newydd ar yr orsedd, meddynt, yr hwn mewn ystyr boliticaidd fyddai yn werinol, ac mewn ystyr gymdeithasol yn Gommunistiaidd; trwy yr hyn y gwneid rhydd-ddadblygiad y person unigol yn safon rhydd-ddadblygiad y lluaws. Yn mhenranau eu banlawr, dodent, mewn ychydig o eiriau syml, y ffordd unionaf i drawsgyweirio y syniadau yna yn ffeithiau ymarferol: (1.) Dymchwel pob eiddo tirol, a'r holl ardrethoedd i goffrau y wladwriaeth. (2.) Llwyrr-ddi ddymiad hawl etifeddol. (3.) Canoli pob ymddiriedaeth yn nwyllaw y wladwriaeth, trwy gyfrwng ariandai cenedlaethol (*national banks*). (4.) Canoli pob hawl trosglwyddiadol yn y wladwriaeth. (5.) Sefydliadau, gweithfeydd cyhoeddus, offerynau cynyrchu, a gwelliantau tirol, ar gynllun neillduol. (6.) Darpariadau effeithiol tuag at gael addysg elfenol ac uwchraddol i'r tô sydd yn codi." Dyna fanlawr y Communistiaid. Pwyswyd ef yn nghlorianau *public opinion*, a chafwyd ef yn brin i ddadansoddi *problem* fawr llafur a chyfalaf. Amddiffynid y banlawr gyda deheurwydd gan arweinwyr y symudiad, a chan filoedd o edmygwyr gwresog y symudiad a'r cynllun amryliw. Gweithreda Communistiaeth yn wrthwyneb i bob peth y mae yn geisio. Ceisia gydraddoldeb, diwedda mewn anghydraddoldeb. Ceisia lwyr-ddilead cribddeiliaeth, crea gribddeiliaeth waeth na'r hen. Ceisia ymeangu ffyrdd dedwyddwch trwy hau hadau pob anghysur. Cam-

ddealla Communistiaeth ei hegwyddorion ei hunan. Llythren farw fu yr holl drefniant. "Breuddwyd gwrach yn ol ei hewyllys" ydoedd pob penran. Yn lle cyfuno, gwneyd y rhwyg yn fwy ydoedd tuedd y fath gynllun eithafol. Torodd y Cyngrair i fyny yn fân-gyfundrefnau, a lefeiniwyd y cyfan gan hunan a chas. Ni ddaeth i ni iachawdwriaeth o Gommunistiaeth.

Cawn fod ysbryd chwyldroadol yn ymsymud ar wyneb dyfroedd cymdeithas yn Rwsia er yn foreu. Yr ysgol Hegelaidd a gydgrynhodd holl elfenau chwyldroadol yr ymerodaeth ag oeddynt hyd hyny wedi eu gwasgaru ar hyd a lled dyffryn afradlonedd, a'u gwisgo a chnawd ac esgyrn cyfundrefn, gan anadlu yn ffroenau y gyfundrefn hono anadl einioes o chwyldroadau. Breuddwydiai henafgwyr yr ysgol Hegelaidd freuddwyddion am bethau gwychi ddyfod; ac yr oedd eu gwyr ieuaine (young Hegelians), yn gweled gweledigaethau am ryw bethau mawr ac ofnadwy i garlamu i'w cyfarfod o gôl y dyfodol pell. Cyhoeddent mewn uchel sain mai term yn perthyn i'r gorphenol ydyw tra-arglwyddiaeth, heb le iddo yn ngheiriaduron yr oes oleu hon. Aderyn du y mynedol.

Nihilistiaeth (dimyddiaeth.)—Defnyddid y gair ar y cyntaf mewn ffug-hanes (*novel*), a defnyddir ef heddyw i arwyddo ffug-gyfundrefn. Nid ydyw Nihilistiaeth yn gredo, nac yn sect ag sydd yn cymeryd i mewn athrawiaethau unrhyw ysgol o athronwyr, na banlawr unrhyw blaid. Ond ymledodd ei syniadau afradlon a gwyllt tros yr Hispaen, Itali, Portugal a Denmark. Ond ni chyfunwyd y Nihilistiaid erioed.

Ffedereliaid y gelwir diwygwyr Awstria. Hawliant mai eu hegwyddorion hwy sydd yn rhwygo y wahanlen er graddoli y ddynoliaeth, a mynant eu bod ar yr iawn, a'u hwynebaw yn gywir ar natur pethau. Hawliant drefniant gwell yn nosbarthiad tiroedd, a thrawsfudiad cyfryngau cynyrchiad o ddwyllaw personau unigol i grafangau y wladwriaeth. A ganlyn sydd grynoded o greddo y Ffedereliad: "Fod Duw wedi creu dynion i fod yn bersonau, ac nid pethau; ac fod ganddynt hawl natur i'w holl reidiau. Os ydyw cymdeithas yn myned i gyfryngu yn y rhyddid yna—os gorfoda rai o'i haelodau i fod yn gaethion i eraill—y mae yn eu hysbeilio o'u hawliau gwreiddiol a berthyna iddynt fel dynion. Y mae eiddo ac adnoddau o bob math yn ddarostyngedig i ddeddf dadblygiad a rheidiau personol. Y mae Duw, creawdwr doeth, wedi gosod y ddaear a'i chyflawnder i ddyn i awdurdodi arni; nid i hyn yma, neu hyn acw, neu ddsbarth neillduol, ond y ddynoliaeth; ac, o ganlyniad, y mae gan y naill ddyn yr un hawl i gyfranogi o ffrwyth teyrnas natur, ac i fwynhau ei doniau, i'r graddau y byddo ei angenion yn galw, yn ogystal a'i gymydog. Anghyfiawnder ydyw i un person, neu ddsbarth neillduol o bersonau, gribddeilio adnoddau natur, yn mha rai y mae pob dyn yn hawl-ydd cydradd. Nis gall y naill ddsbarth gyflawni dim, os na bydd ddsbarth arall ag sydd yn traws-arglwyddiaethu, yn dymuno. Nis gallant weithio os na chânt yr offerynau angenrheidiol i hyny. Ni chânt fedi o ffrwyth eu llafur eu hunain, ond yr hyn a wel rhyw arglwydd bach ddegymu iddynt, a threngant un ac oll os

na chyflogir hwy.”—*Carl Marlo in “Contemporary Socialism,” by John Rae, M. A.*

Dyna *skeleton* eu banlawr, ond y mae yn rhy welltog i esgor ar ddim daioni. Pe buasai pob daioni, pob peth ag sydd yn digoni eisiau y ddynoliaeth, yn cael ei gyflwyno yn uniongyrchol a diamodol o law natur, fel yr awyr a anadlwn, heb nac ymdrech na llafur, buasai cyfundrefn y Ffedereliad yn un fendigedig. Y mae gan bob dyn hawl ar natur a'i miloedd bendithion, ond nid ar amodau y Ffedereliad. Pob person ag sydd yn alluog i weithio, y mae ganddo hawl ar bob peth sydd yn cynorthwyo er rhoddi iddo waith yn cyfateb i'w sefyllfa. Gall dyn elwa cymaint ag a ddymuna o'r adnoddau a gynyrchir gan ei lafur neu ei gyfalaf. Dosbarthiad cyfoeth ac eiddo i gyfateb llafur ydyw y trefniant mwyaf darbodus, o ganlyniad y mwyaf cyfiawn. Penderfynir gwerth gan ddefnyddioldeb, ac y mae defnyddioldeb ar ei uchel-fanau pan y mae adnoddau naturiol gwlad yn cael eu dosbarthu cydrhwng y deiliaid i gyfateb idd eu dawn a'u gallu i gynyrchu.

Cynulleidfaolwyr (?) y gelwir diwygwyr Belgium. Ceir eu credo a'u cynlluniau er uniawni pob camwri yn y nodiadau canlynol, a gymerwyd allan o araeth un o'u harweinwyr galluocaf (Bakunin): “Nid ydym ni yn Gommunistiaid. Yr ydym yn ffeiddio Communistiaeth, am ei bod yn sefyll ar yr ochr nacaol i ryddid, ac heb ryddid nis gallaf ddychymygu am ddim gwir ddynol yn bodoli. Yr wyf yn casâu y Communist am ei fod yn cymhlethu holl nerth cymdeithas â'r wladwriaeth, gan afradloni gwerth yn ngwasanaeth y wladwriaeth. Yr wyf yn ei gasâu am ei fod yn gosod pob

eiddo yn nwyllaw y wladwriaeth, pan mai fy holl amcan i ydyw torfynyglu y wladwriaeth ei hun. Mae arnaf eisiau i gymdeithas gael ei threfnu, a'r eiddo gael ei ddsbarthu oddi lawr i fyny, o weithredoedd rhydd cymdeithas ei hun, ac nid oddi fyny i waered trwy orchymyn awdurdod." Y mae y trefniant yn bradychu ei wendid. "Yr haul yn ngwely'r heli," eto.

Ni wnaeth Anarchiaid a Mesiayddion Holland a'r cyfandir ond ychydig welliant ar y cyfundrefnau blaenorol. Cyfrifent mai y ddylodswydd orphwysedig arnynt hwy ydoedd dinystrio, ac i'w holynwyr adeiladu ar yr adfeilion.

Gan mai Sosialyddiaeth (*Socialism*), ydyw y gyfundrefn ddiweddaraf ag sydd wedi cyflwyno ei hun i sylw y byd er cyfuno y rhwyg, a dynesu y pleidiau ag ydynt yn ysgaredig er ys tri chant o flynyddoedd, cawn ymdroi ychydig er adolygu eu hegwyddorion, ac i bwysu, mesur a barnu ei banlawr.

Y mae ysgol Sosialyddol '48 wedi huno o ddiffyg cefnogaeth, a'i chasglu at y miloedd cynhyrfiadau o'r un dosbarth a'i rhagflaenasant i gaer dinodedd. Yr hen ysgolion gyda'u hathrawiaethau a'u gobeithion wedi diflanu fel y "Cerculus of Leronx." "Yr hen bethau a aethant heibio, wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd." Yr athrawiaethau ynfyd, a'r athroniaeth un-llygeidiog, megys, fod dyn yn hollol ddibynol ar amgylchiadau, adferiad y cnawd, a hudoliaeth o bob math, ydynt wedi suddo i fôr o ebargofiant tragwyddol. Ymwrthoda Sosialyddion y dyddiau presenol yn hollol a'r posibilrwydd o effeithio unrhyw adffurfiad cymdeithasol ond yn unig trwy gyfryngau gwleidyddol. Gof-

ynant am yr hyn a alwant yn gydraddoldeb, hyny yw, safle ar ba un y gellir doddi gallu ac eiddo i ddibynu ar lafur, fel ag y gall y dinesydd rhydd ddibynu ar ei gymwysder fel cynyrchudd, ac nid cymwysder genedigaeth a gwaddoliad—safle nad all yr un dinesydd gael mwynhad ond trwy lafur, na'r un dinesydd i lafurio heb dderbyn mwynhad. Pob peth yn gyffredin, yn dir-oedd, offerynau, &c. Dyna y ffurf fwyaf cyffredin ac ymarferol a gawn ar Sosialyddiaeth y dyddiau hyn.

Y weriniaeth fawr Americanaidd ydyw blaen-fyddin gwareiddiad y byd heddyw; a diameu fod safon cysuron yr Americanwr bywiog, gweithgar, a goddefgar, yn uwch o'i gyfartalu. Mabwysiedir y gwelliantau mwyaf diweddar gan yr Americanwr, a gwna y defnydd goreu o fuddianau y cyfryw welliantau. Y mae sefydliadau politicaidd y wlad yn fwy cydnaws ac unol â syniadau diweddar—safle y deiliaid yn eu rhyddhau oddiwrth y peryglon a'r anhawsderau ag ydynt eisoes yn amgylchynu cenedloedd Ewropaidd. Hefyd y mae yr arwynebedd aruthrol o diriogaethau rhydd yn cynyg pob mantais a chyfleusdra i gynydd. Eto, er yr holl fanteision, haera anfoddogiaid fod ysbryd datganiad "tadau" ein hannibyniaeth yn marw, a'u syniadau yn cyfnewid, a'r ffurf gynenid o lywodraeth a geir yn erthyglau ein ffydd, yn toddi ymaith. Syndod, eto ffaith ydyw, fod y surni Sosialyddol yn enill tir gyda mwy o gyflymdra dan luman (*banner*) y ser a'r brithresu, nag hyd yn nod yn yr Almaen ei hunan. Y mae hyn bron yn anhygoel mewn gwlad rydd, lle y mae eiddo a meddianau yn fwy gwasgaredig nag unrhyw wlad arall.

Myn dosbarth o ddysgawdwy'r mai cangenau o'r un penrhyddid ydyw Gweriniaeth a Sosialyddiaeth; ond golyga y termau syniadau hollol wahanol y naill i'r llall. Mae Gweriniaeth yn eangu cylch annibyniaeth y person unigol, tra mae Sosialyddiaeth yn ei gyfyngu. Rhydd y Weriniaeth lawn gwerth ar y person unigol, ond gwertha y Sosialyddion hwy yn *wholesale* i goffrau y wladwriaeth. Y mae Gweriniaeth a Sosialyddiaeth yn ymgusanu mewn cymod perffaith-gwbl ar fanlawr cydraddoldeb, ac eto y maent yn gwhaniaethu yn eu syniadau am dano. Ceisia'r Weriniaeth gydraddoldeb mewn rhyddid, tra y chwilia Sosialyddion am gydraddoldeb mewn gorfodaeth.

Gwelwn fod y Sosialyddion wedi myned yn ol ar y deg erthygl namyn un, sef y banlawr y gweithient wrtho hyd eu cynadledd ddiweddaf, yn Chicago; gan fabwysiadu yn llythyrenol bum' erthygl namyn dau—cynyrch ymenydd un arall o'u harweinwyr (Held) fel eu banlawr. A ganlyn ydynt "tair careg filldir" Sosialyddion y dyddiau diweddaf hyn, ar eu ffordd freiniol i nefoedd cydraddoldeb: (a.) Fod y trefniant cymdeithasol presenol yn tueddu i osod cyflogau mor isel, fel ag i adael y llafurwr yn fyr o fara beunyddiol; ac fod agwedd pethau yn tueddu i gadw y dosbarth gweithiol yn yr iselder yna. (b.) Fod y trefniant presenol yn gosod bywyd y llafurwr yn agored i gyfnewidiadau aneirif, gan wneyd masnach yn ansicr a chyfnewidiol, ac ysparduno gorboblogiad. (c.) Fod y trefniant presenol yn rhoddi hawl i'r, ac yn gorfodi y cyfalafwr (*capitalist*) i ysbeilio y llafurwr o'r holl werth ag sydd yn ffrwyth ei lafur. Dyna swm a sylwedd eu

ewynion—cyflogau anfoddhaol, ansefydlogrwydd masnachol, gorboblogiad, a thraflwnc cyfalaf. Cyn troi at y feddyginiaeth a gynygia y Sosialyddion i'r gwahanglyyf, cawn wneyd ychydig sylwadau ar y gwahanol gwynion wrthynt eu hunain—i ba raddau y gellir eu cyfiawnhau, a pha can belled y maent i'w condemnio.

Cyfaddefwn fod y gagendor yn fawr ac annrhamwyadwy cydrhwng y llafurwr ag sydd yn gweithio allan fêr ei esgyrn mewn dygn angenoetd, lawer pryd, â'r miliynwr (*millionaire*) glwth a diog. Yn wir, y mae y gwahaniaeth ar rai prydiau y fath ag i dueddu dynion i gredu nad ydym yn perthyn i'r un dosbarth o greaduriaid. Rhaid cydnabod fod pydredd yn esgyrn cymdeithas, pan y goddefa i un dosbarth o fodau ymrolio yn nhom llaid glythineb a meddwdod, tra dosbarth arall, gyda nerth braich ac ysgwydd, am bob tragwyddoldeb, yn methu cael deupen y llinyn yn nghyd.

(a.) Can belled ag y mae dosbarthu cyfoeth yn myned, y mae yr achwyniad cyntaf yn condemnio ei hun, o herwydd un o'r diwygiadau pwysicaf ag sydd wedi cymeryd lle yn ddiweddar, ydyw, dadfeiliad hollol a llwyr y rhanau isaf o'r dosbarth canol, lleihad yn rhif y personau ag oeddynt yn mwynhau cyllid cymesurol. Dylai y Sosialyddion ystyried nad ydyw seiliau cymdeithas ddiweddar wedi eu gosod ar yr un gwaelod o ffurflwydraeth a chymdeithas yr hynafiaid. Mae yr hen gyfryngau a gysylltent ddosbarth wrth ddosbarth naill a'i wedi toddi yn ngwres darganfyddiadau, neu ynte wedi cilio o flaen pelydrau tanbeidiol haul gwariddiad. Y mae y llafurwr cyflogedig yn fwy dibynol ar ei lafur heddyw, nag erioed o'r blaen. Camgymer-

iad pechadurus ydyw haeru fod amgylchiadau bydol y gweithiwr yn druenusach, ac nad oes iddo na rhan na chyfran yn nghyfoeth y wlad, amgen rhan cardotyn. Mae cyflog y gweithiwr yn uwch ar gyfartaledd heddyw nag oedd haner can' mlynedd yn ol. Gwawd digymysg ydyw dweyd fod y cyfoethog yn myned yn gyfoethocach, a'r tlawd yn myned yn dlotach. Efallai fod cyfleusderau y llafurwr cyflogedig yn anamlach heddyw na'r hen amser gynt i gyrhaedd safle uwch na llafur gwynol, ond camgymeriad dybryd ydyw meddwl ei fod yn fwy truenus, neu ynte fod ei gyfran o gyfoeth y wlad yn llai na phan ydoedd y wlad yn llai cyfoethog. Profa ffigyrau fod cyflwr y llafurwr cyflogedig yn uwch o ddeg y cant heddyw nag ydoedd haner can' mlynedd yn ol. Awn yn ol hyd deyrnasiad Jimi Buchanan—1856. Beth ydoedd cyflwr darostyngol y gweithiwr y pryd hwnw o'i gydmaru a'r hyn ydyw heddyw? Yn y dyddiau hyny, o'r braidd y gallasai teulu o wyth—pedwar o'r wyth yn abl i weithio, a'r pedwar yn dylun gorchwylion trymion, mewn amser ac allan o amser i gael digon o gloron (*potatoes*) a halen i wneyd tri phryd y dydd. Cyfrifid teulu yn *high tone* os llwyddent i gael llonaid llwy gawl o "*apple butter*" dair gwaith yr wythnos! Tra yr ydoedd cyflogau lawer yn is, yr ydoedd bwydydd, tanwydd, a gwisgoedd yn uwch. Yn Nhalaeth New York a Pennsylvania, yr ydoedd yr apeliadau at swyddogion y gwahanol Swyddi (*Counties*), yn un o bob pump-ar-hugain o'r boblogaeth. Heddyw nid ydyw yr apeliadau ond un o bob haner cant. Yn 1856, cyfrifid fod 74 y cant o holl boblogaeth y wlad hon yn perthyn

i'r dosbarth gweithiol, a'u henillion ar gyfartaledd yn 26 y cant o holl gyfoeth y wlad. Yn 1879, perthynai 80 y cant o'r holl boblogaeth i'r dosbarth gweithiol, ac enillent ar gyfartaledd, 40 y cant o gyfoeth y wlad. Cynyddodd y dosbarth gweithiol 6 y cant yn y cyfnod yna. Deil cyflog y llafurwr Americanaidd gydmariaeth ffafriol a'r cyflogau a delir ar gyfandir Ewrop. Y mae cyflogau y Talaethau Unedig yn fwy ddwywaith nag eiddo Belgium, yn gymaint dair gwaith a Denmark, Ffrainc a'r Almaen, yn agos gymaint ddwywaith ag eiddo Prydain, ac yn fwy na chymaint dair gwaith na'r Eidal a'r Hispaen.

Ni saif penran gyntaf credo a banlawr y Sosialyddion o flaen ffeithiau a ffigyrau. Dylasai y Sosialyddion ystyried ddwywaith cyn cyhoeddi y benran yna, fod perthynas meistr a gweithiwr yn gyfansoddedig o gadwyndorch o ail-achosion. Mae cyfartaledd cyflogau yn dibynu ar y gofyn fyddo am y nwyddau a gynyrchir; y galw, am lafur yn dibynu ar swm y cyllid; swm y cyllid yn dibynu ar gyd-grynhoed cynyrchion, a swm y cynyrch eto yn dibynu ar lafur—olwyn yn troi mewn olwyn, fel *self-motion* y prophwyd Ezeziel.

Y mae pris llafur i'w benderfynu yn y cythrwfl pres-enol cydrhwng y cyflogydd a'r cyflogedig—y gwir bleidiau. Y cyflogedig i benderfynu y swm angenrheidiol i gynal bywyd yn anrhydeddus, a'r cyflogydd i benderfynu y swm angenrheidiol fel llog rhesymol ar ei arian. Bydd y gagendor cydrhwng y pleidiau yn eang neu gyfyng yn ol fel y byddo y galw am gynyrch y llafurwr yn y farchnad. Effeithia deddf cynyrchiad llafur ar raddfa cyflogau mewn dwy ffordd—yn union-

gyrchol ac anuniongyrchol. Yn uniongyrchol, o herwydd fod llafur effeithiol yn fwy gwerth i'r cyflogydd na'r aneffeithiol. Yn anuniongyrchol, am ei fod yn troi mwy o gyfoeth er cynorthwyo cynyrchiad, a thrwy hyny gynyddu y galwad cyffredinol am lafur. Y mae tonau anwadal cyflogau yn cael eu holrhain i ddibynu yn gyfangwbl ar estyniad a chwtogiad cyfalaf, ac nid ar sefyllfaoedd amrywiol poblogiad. Mewn cymdeithas ddiweddar, yn ogystal a chynenid, y mae y llafurwr nid yn unig yn derbyn gwobrwy, ond manteisia, i raddau mawr, ar allu a medr ei gymydog. Trwy ddadblygiad ac effeithiolrwydd llafur pob person unigol y deillia i'r dosbarth gweithiol y cynauaf mwyaf uniongyrchol a thoreithiog. Nid trwy ffurfio ac adffurfio cymdeithas, a bloeddio "chwyldroad" yn nghlustiau anwybodusion, y mae cyrhaedd iachawdwriaeth i'r byd llafuriol. Rywfodd, y mae pob dosbarth yn llygadu ar ei fantais uniongyrchol ei hun, ond yn ddall, mud, a byddar i'w buddianau gwirioneddol a pharhaol. Wedi y cyfan, nis gallwn gymeryd golwg mor gilwguŷ ar bethau ag a wna y Sosialyddion yn mhenod gyntaf eu cyffes ffydd.

(b.) Ansefydlogrwydd masnachol a gorboblogiad. "Mewn gwlad," ebai un Sosialydd yn Chicago, yn ddiweddar, "lle y mae gan bawb hawl pleidlais, yr ydym yn hawlio rhyddid i enill heb fod yn annibynol ar ofn a ffafr. Yr ydym yn gofyn ac yn hawlio bywyd cysurus a sefydlog i'r llafurwr." Wrth gyfeirio at orboblogiad, dywed yr un areithydd: "Y mae ton fawr ymfudiaeth yn tywallt miloedd o ddinasyddion angenus yr 'hen fyd' ar ein glanau yn flynyddol—swn traed rhai yn

ceisio gwlad well, fel swn dyfroedd lawer—Gwyddelod angenus, Allmaenwyr pwdr, Rhufeiniaid newynllyd, ac yn eu plith rai gwyr bucheddol o Frythoniaid. Un Pentecost tragwyddol ydyw tua Castle Garden. Ceir yno bob llwyth, iaith, pobl a chenedl, o wastadeddau Rwsia, corsydd lleidiog Hungary, o Wallacia fynyddig, ac ynysoedd Môr y Canoldir." Canlyniad uniongyrchol yr exodus ydyw, gorlawnder o lafurwyr; tueddiad y gorlawnder ydyw darostwng safon pris llafur, a gesyd cribddeilwyr y crogbris uwchaf sydd ddichonadwy ar angenrheidiau natur. Hulir ein dinasoedd gan y miloedd cardotwyr a ddadlwythir ar ein glanau. Dywedir fod dosbarth lluosog o breswylwyr y "ddinas ymerodrol" yn trengu ar hyd y dydd i gadw eu hunain yn fyw er mwyn cael marw! Y mae cyflogau dosbarth lluosog yn ein trefi a'n dinasoedd, yn eu gosod mewn amgylchiadau fel nad oes ganddynt i'w ddewis ond o dri pheth er cadw enaid a chorff i dystio ger bron gorsedd dyngarwch, ddyfnder eu truenusrwydd, sef cardota, lladrata, neu newynu.

Effeithia diwygiadau peirianyddol, nid yn unig ar bersonau neillduol, ond ar y dosbarth gweithiol fel cyfangorff. Mae cynydd cynyrch a briodolir i beirianwaith, yn rhadloni nwyddau neillduol a gynyrchir gan y cyfryw, a thrwy hyny yn galluogi pwrcaswyr y nwyddau hyny i dreulio mwy o'u cyllid ar bethau angenrheidiol eraill; ac felly, mewn gwedd ymarferol, achlysuero mwy o alwad am waith y llafurwr.

Gwelir oddiwrth y ffigyrau isod, a gymerwyd allan o'r "Dictionary of Statistics," fod mabwysiadu peirianau yn y gweithdai, wedi cynyddu, yn hytrach na

chwtogi, cyflogiad yn Pennsylvania, Massachusetts, a New York :

<i>Blwyddyn.</i>	<i>Gwyr.</i>	<i>Gwargedd.</i>	<i>Plant.</i>	<i>Cyfanswm.</i>
1860	82,000	167,000	104,000	353,000
1870	158,000	329,000	109,000	596,000
1880	232,000	543,300	201,000	976,000

Trwy dorfynglu cynyrchion bendithiol peirianwaith, gwregysai y Sosialyddion gymdeithas mewn cyfwng mwy difrifol na'r un addawsant ei symud. Y ffordd unionaf i wneyd gwaith ydyw cynyrchu cyfoeth, ac y mae y trawssffurfiad mewn peirianwaith, a ddygir oddi-amgylch trwy offerynoliaeth gwelliantau celfyddydol, yn geni yn y dosbarth gweithiol obeithion uwch am gysuron cydraddoldeb, na'r hen amser gynt, pan y cyfrifid "Beecher" hirglust yr oruchwyliaeth Foesenaidd, y cyfrwng cyflymaf o "Dan hyd Beerseba," ac "o'r afon hyd derfynau eithaf y ddaear." Mae genym ni ein "march tân" gorwyllt, a'n hagerlong gyflym yn lle yr asyn amyneddgar a chychod pwylllog Tarsus; ac yr ydym ni, plant *smart* yr oes oleu hon, wedi ffrwyno y trydan, gan ei dywys i oleuo ein tai a'n hys-trydoedd, yn lle y cydgyfarfyddiad pabwyrol a gwerol a gynyrchai oleuni tywyll ein cyn-dadau. Yn lle y llesg-negeseuwyr cyflym (?) gynt, a deithient o ben Caergybi i ben Caerdydd mewn llai na chwech wythnos, yr ydym ni, Asaheliaid cyflym y dyddiau hyn, trwy gyd-weithrediad celf a gwyddor, wedi llwyddo i argyhoeddi y mellt yn eu graddau i ymladd trosom. An-eirif yw y bendithion a gynyrchir trwy y darganfyddiadau, eto, ceir drygau (os priodol eu galw yn ddrygau) yn heidio i mewn yn nghadwyn ail-achosion. Gwelwn

fod y diwygwyr ag y mae eu program ger ein bron, am fynu atal pob da a ddeillia i gymdeithas trwy y dar-ganfyddiadau, a thrwy hyny ddihsbyddu fflonell daioni tra phwysig. Pe y llwyddent, byddai yn gyf-ystyr ag enhuddo awenyddiaeth gymdeithasol, a'i gos-od mewn cyflwr y gallwn ddychymygu ei bod flynydd-oedd o flaen Adda.

(c.) "Fod y trefniant cymdeithasol presenol yn cyfnerthu, ac hyd yn nod yn gorfodi cyfalaf i ysbeilio y llafurwr o bob cynydd a gwerth yn ffrwyth ei lafur." Mae y cyhuddiad yma mor ddisail a'i ddau rag-flaenydd. Cyfaddefa y diwygwyr fod cyfalaf yn dda, a'r cyfalafwr yn gynorthwywr. Hefyd caniatant i bawb gael myned mor gyfoethog ag y mynont ond iddynt beidio anrheithio eraill er casglu eu cyfoeth. Dyfynwn yma ran o bregeth y Sosialyddion er ategu yr adran yma o'u banlawr: "Rheoleiddir y werin gan y wasg, a'r wasg gan gyfalaf. Corfforiaethau sydd yn rhedeg y wlad. "Gwanaf gwaedded, trechaf treisied," sydd wireb ag y tystir i'w chywirdeb yn ddyddiol, yn ol trefniant presenol cymdeithas. Y felin fawr yn llyneu y felin fach; yr ystordy mawr yn rhewi yr ystordy bach. Nis gall y cyfalafwr gwan sefyll cystadleuaeth â'r corfforiaethau mawrion. Cwmniau anfeidrol yn rheoleiddio ac yn perchenogi holl gleddrffyrdd a gwefr-hysbysai ein gwlad o fôr i fôr, ac o geulanau yr Hudson hyd ganllawiau rhewllyd Alaska. Cymerwn wibdaith yn awr o'r Werydd i'r Tawelfor. Byddwn am y rhan gyntaf o'n taith yn croesi arglwyddiaeth eang-faith y Vanderbilts. Yn fuan croeswn i diriogaethau y Goulds. Mewn Talaethau eraill byddwn o

fewn i ymerodraeth eang y Stanfords a'r Huntingtons; a phan ar lanau toreithiog y Mor Tawel, cawn olwg ar ymerodraethau newydd-grëedig y Villiards. Dirgelweh llwyddiant y miliynwyr hyn ydyw cribddeiliaeth, difrod, ac anrhaith. Sugnir cyfoeth y wlad i mewn i gyngreiriau a chylchau a broffesant amddiffyn y llafurwr Americanaidd rhag llafur tlodion Ewrop."

Dylai y Sosialyddion, pan yn gosod edafedd yn ngwe eu hymresymiad, gymeryd i ystyriaeth nad yw gwerth wedi ei seilio ar yr amser fyddis yn dreulio er cynyrchu nwydd neillduol, ag eithrio mewn achos y cyfansoddir nwydd neillduol, ac i gael ei luosogi mewn amser penodol. Seilir amser llafur yn mhob achos arall ar ddefnyddioldeb y cynyrch i gymdeithas. Y mae pwysigrwydd y gwahaniaeth yn eglur iawn pan yr awn i ystyried y pwnc a ddygir ger ein bron dan drydedd benran credo pwdr y Sosialyddion—pris a gwerth llafur—y gwahaniaeth yn nerbyniadau un dosbarth o lafur rhagor dosbarth arall. Paham y telir mwy i'r peirianydd nag i'r llaw-weithiwr cyffredin? Paham y telir mwy i brif-athrawon ein hathrofau, nag i'r cynorthwywyr yn yr ysgolion dyddiol? A phaham y telir mwy i'r barnwyr nag i fân ysgrifenyddion ein llysoedd lleol? A wneir hyny am fod y barnydd, yr athraw a'r peirianydd yn fwy egniol, &c.? Na, o herwydd angenrhaid a osodir am lafur y *pupil teacher* yn ogystal a'r prif-athraw, yr ysgrifenydd yn ogystal a'r barnwr. Ai am eu bod wedi treulio mwy o amser er cymwysu eu hunain i'r swyddau uchel? Na, o herwydd gall fod yr ysgrifenydd yn treulio mwy o amser rhagbarotoawl na'r barnydd ag y mae ei gyflog gymaint

ugain gwaith. Nid oddiwrth swm y llafur y mae dad-ansoddi *problems* o wahaniaethau cyflogawl o'r fath a enwyd, ond oddiwrth y gwahaniaeth yn ansawdd y llafur. Mae llafur un dyn yn uwch, yn fwy rhagorol, ac yn feddianol ar fwy o ddefnyddioldeb cymdeithasol na'i gymydog. Ni chydnebydd y Sosialyddion tryst-fawr werth cymdeithasol eiddo fel magwrydd rhinweddau i'r llafurwr, ac fel goruchwylydd yn nadblygiad a chynydd cymdeithasol o genedlaeth i genedlaeth. Ni chydnabyddant werth nac eiddo y tu allan i'r wladwriaeth. Nid edrychant ar y cyfryw fel moddion cynydd, a dadblygiad moesau. Camgymeriad marwol i gymdeithas fyddai seilio eiddo ar egwyddorion o'r fath yna. Y ffordd freiniol i lwyddiant sydd trwy ryddid llafur, a chydabod fod y cyfalafwr yn hawlio llog cymedrol yn ei anturiaethau. Nis gall y llafurwr gynyrchu trwy lafur yn unig, heb ddefnyddiau ac offerynau pwrpasol i'r gwaith, mwy nag y gall y cyfalafwr gynyrchu defnyddiau ac offerynau heb lafur. Dylai perchen cyfalaf gael ei wobrwyo er ei gymell a'i ysparduno i ddodi yn mlaen ddefnyddiau ac offerynau, fel ag y mae yn angenrheidiol i'r llafurwr gael ei wobrwyo er ei gymell i lafur.

Yn eu holl wrth-ddadleuon, y mae y Sosialyddion yn seinio yn isel ar angenrheidrwydd cynydd—rhagredegydd arwyddion yr amseroedd. Edmygant hoff ddrychfeddyliau J. S. Mill ar "sefydlogrwydd." Bron nad ydynt yn ddigon hyf i fabwysiadu un o frawddegau Communistiaid Ffrainc fel eu harwyddair: "Trenned pob cynydd;" ond ni bydd y gymdeithas ddynol yn ddigon afiachus i yfed o'u meddyliau gwenwynllyd tra

march gwyn cynydd yn carlamu. Diameu mai amcan y Sosialyddion ydyw sefydlu trefniant cadarn, effeithiol, ac iachus, er dosbarthu cyfoeth, ond y maent yn methu deongli y *problem*, o herwydd nis gall yr un math o ddosbarthiad fod yn gadarn ac iachusol, ag sydd yn dinystrio pob rhagolygon am gynydd yn y dyfodol. Y mae terfyn gwirioneddol (nid un gwyddonol Arglwydd Beaconsfield) yn ganfyddadwy cydrhwng y trefniant, amcan eithaf yr hwn ydyw gwneyd i ddynion ddibynu ar eu gallu eu hunain, ac a'r trefniant sydd yn peri fod dynion yn dibynu ar drugaredd y wladwriaeth am bob gras; cydrhwng y trefniant, amcan eithaf yr hwn sydd i hyrwyddo cynydd eiddo cyfrinachol, a'r trefniant sydd yn amcanu ei ddifrodi; cydrhwng y trefniant a eilw foesau yn gynorthwyydd ei law ddeheu ac aswy, a'r trefniant ag sydd wedi gwreiddio yn rhosydd gorfodaeth.

• Dyna ni, yn frysiog, wedi adolygu cwynion y blaid sydd yn ymhoni y gallant ddadrys y *broblem* dra anhawdd, cyfalaf a llafur. Wedi dod ger bron eto y feddyginiaeth sydd ganddynt i gymwyso at yr archoll, bydd i ni adael y gyfundrefn aneffeithiol gyda "Mene, mene, tecel, upharsin," ar galchiad ei phared. "Rhaid," meddynt, "wrth chwyldroad cyffredinol, yn gymdeithasol, athronyddol, trafniadol, a gwleidyddol. Chwyldroad, ac nid diwygiad ydym yn ymofyn. Chwyldroad a olyga drawsffurfiad, a dygir hyny oddiamgylch pan y byddo egwyddorion newyddion i weithredu arnynt. Dygir diwygiad oddiamgylch trwy dywallt gwaed, ond chwyldroad yn nghanol y tawelwch mwyaf. Ymgais ydoedd y '*Peasant War*' i gyflwyno i sylw ddiwygiad

trwy rym arfau, ond dygodd darganfyddiad y *spinning jenny* oddiamgylch chwyldroad heddychol. Cyhoeddiad ydyw chwyldroad bob amser, ac nid creadigaeth. Gwaith mynach ydoedd y diwygiad mawr Protestanaidd; ond gwaith athronydd fydd chwyldroad mawr cyfalaf a llafur. Gwastraff ar amser ydyw dadleu ac ymfrostio yn y ffug-fendithion a ddeillia o'r diwygiadau ag ydynt o flaen y wlad yn bresenol. Nid ydym yn gofyn am fesurau esmwythaol, o herwydd y mae llais udgorn dyledswydd yn chwyddo yn uwch na chorn papyr cribdeiliaeth. Na adawer careg ar gareg ar nas datodir o drefniadau presenol pethau, ag ydynt wedi ei seilio ar eiddo, ar anturiaethau, ar egwyddorion perchenogaeth, pa un bynag fyddo ai graddoledig, ai arddansoddol, uchel neu isel. Dinystrier pob ffurflwydraeth, mewn trefn i gael miliynau o'r ddynoliaeth ag ydynt yn bresenol yn cael eu twyllo, eu caethiwo a'u poenydio, i anadlu mewn awyr rhyddid perffaith, wedi eu rhyddhau oddiwrth eu holl gyfarwyddwyr (? a chymwynaswyr (?) pa un bynag ai swyddogol ai answyddogol, unigol ai corfforiaethol, a thrwy hyny drawsffurfio pob peth i gyflwr o dryblith cyn cread. Y mae clust a llygad y byd ar y weriniaeth fawr Americanaidd yn y symudiad presenol. America, cryd y dyfeisiau, a mamaeth y celfyddydau; llaw-forwyn pob bendithion—America fawr dy drais a'th ormes, beth a wnei di er dwyn y llafurwr tlawd o hualau tynion a haiarnaid traïs a gormes cyfalaf?"

Wedi astudio eu cyffes, gwylio eu symudiadau, chwilio a chwalu eu cyhoeddiadau swyddogol, darllen a gwrandaw areithiau tanlyd eu harweinwyr, &c., nis

gallwn lai na chondemnio Sosialyddiaeth, wreiddyn a changen, fel cyfundrefn aneffeithiol er dwyn iachawd-wriaeth, na gwella dim ar y clwyf ag sydd erbyn hyn wedi tori yn ddwfn, ac wedi cyrhaedd yn mhell, cydrhwng cyfalaf a llafur. Nid oes dim da i ddeilliaw o Sosialyddiaeth, o herwydd y mae yn cynyg y ffurf-lywodraeth fwyaf cyflawn o bob diffygion ag a gynygiwyd i sylw y byd erioed.

Carem roddi ychydig ofod er manylu rhywfaint ar fanlawr y Chartists, ond rhaid eu gadael gyda y dyfyniad hwn yn unig: "A political party, composed chiefly of the working classes, who embodied their principles in a document called the 'People's Charter,' the six leading points of which were: (1.) Universal Suffrage. (2.) Vote by ballot. (3.) Annual Parliament. (4.) Electoral districts. (5.) Abolition of property qualification. (6.) Payment of members of Parliament."—*Zell's Encyclopaedia*.

Cyn troi dalen, dylem ddegymu teyrnged o barch i rai o'r cyfundrefnau am eu hymdrechion gyda y cynlluniau a gredent hwy oeddynt fwyaf effeithiol er dwyn cydweithrediad rhwng cyfalaf a llafur. Gwnaethant eu rhan yn anrhydeddus er dyrchafu y dosbarth llafuriol yn wleidyddol a chymdeithasol. Cyflawnasant waith mawr yn ddiameu; eto y mae lle; y mae y rhwyg heb ei gyfuno—pob cyfundrefn hyd heddyw wedi profi yn aneffeithiol i ddwyn cyfalaf a llafur i ymgusanu mewn cymed perffaith-gwbl. Yn wir, y mae grym efengyl yn y frawddeg ganlynol: "The great want of American society, to mingle class with class, is the lack of sympathy.

PENOD III.

“*Salus populi suprema est lex.*”

“The only true secret of assisting the poor is to make them agents in bettering their own conditions.”—*Archbishop Sumner.*

“Laborers will never benefit to the full from improvements in the productive arts, until, by some arrangement, they are made sharers in industrial capital.”—*John Rae.*

CYFALAF A LLAFUR YN Y DYFODOL—“CYNLLUN ER SICRHAU CYDWEITHREDIAD RHWNG CYFALAF A LLAFUR”—PENDERFYNU POB CAMDDEALLTWRIAETH TRWY GYFLAFAREDDIAD (*Arbitration*)—MABWYSIADU Y TREFNIANT CYDWEITHIOL A RHAN-ELWOL (*Co-operating and Profit-Sharing System*)—FOD I'R TREFNIANT CYFLOGAWL PRESENOL GAEL EI SYLFAENU AR FATH O RADDEG (*Sliding-Scale*)—FFURFIO STATISTICAL BUREAU YN MHOB TALAETH TRWY YR UNDEB.

Fel ag y cyfeiriwyd eisoes, nid ydyw cyfalaf a llafur yn gweithio yn esmwyth ar y seiliau y safant yn bresenol, a rhaid wrth gyfnewidiad pwysig cyn y bydd i ni fwynhau heddwch yn mynd diwydrwydd a llafur. Ar dde, ac ar aswy, canfyddwn wrthdarawiadau ac ymfflamychiadau rhwng y pleidiau, pan y dylent fod yn unol. Yn Ffrainc, cawn heolydd un o'i phrif drefi yn cael eu cochii gan waed ei phlant. Llong-adeiladwyr mewn parthau o Loegr yn llefain yn wynebaw y deddf-wneuthurwyr am ymborth. Edrychwn adref, a chanfyddwn yr un effeithiau yn ein trefi mwyaf poblog. Rhyw surni anfoddogrwydd damniol yn suro holl does cymdeithas. Llenwir colofnau ein newyddiaduron

dyddiol ac wythnosol gan fytheiriadau cribddeilwyr, a bygythiadau y dosparthiadau llafariol trwy y wlad. "Sefyll allan," neu "gload allan," sydd yn llanw yr awyrgylch pa le bynag y gwnawn droi. Yn wir y mae *strike* neu *lock-out* yn ymgymeriad dirmygedig ynddo ei hun. Ni rydd y naill na'r llall yr un prawf union gyrechol o gyfiawnder neu anghyfiawnder yr ymgymeriad. Yn hyn ymddygant yn gyffelyb i ryfel rhwng teyrnasoedd. Yn syml, nid yw ond cwestiwn o nerth a swm yr adnoddau a fyddo yn meddiant y pleidiau yn yr ymgiprys. Adar o'r un lliw ydynt y trefniadau disynwyr o benderfynu ewerylon rhwng-genedlaethol trwy rym arfau, a phenderfynu anghydfod cyfalaf a llafur trwy sefyll allan. Ynfydrwydd ydyw synied ein bod wedi cyrhaedd dim tebyg i drefniant cyfaddas a pharhaol cydrhwng cyfalaf a llafur, hyd nes y byddo "sefyll allan," a "chload allan," yn gymaint o bethau y mynedol ag ydyw ellyllon y rhyfel a'r ornest (*duel*), yn ngolwg y gwledydd mwyaf dyrchafedig eu moesau, heddyw.

Dwyrain a Gorllewin, Gogledd a Dehau, y mae yr ysbryd anfoddog yn dwyn prawfion adnewyddol nad oes cydbwysedd wedi ei gyrhaedd eto cydrhwng y cyfogydd a chyflogedig. Y gofyniad parhaus ydyw, "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" Cyrhaedda y gofyniad ni oddiwrth fechgyn gwep-lwyd ein swyddfeydd, o'r ystordy, o'r gweithdy, o'r felin, o waelodion y mwn-glawdd, o gilfachau y Rockies, oddiar lorïau eirias-boeth y ffwrnes, oddiar hwylbrenau ein llongau, o lan-au ein hafonydd, o'r ysbyty, o'r carchar, o'r benydfa, o'r crogbren! "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" ydyw

yr acenion torcalonus sydd yn esgyn i fyny oddiar geulan bedd gor-lafur miloedd genethod ein gweithdai. "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" sydd yn adsain dyrnodiau darfodedig y glowr du ag sydd yn treulio ei fywyd yn safn angeu. "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" ddywed y chwarelwr, tra yn yfed hadau afiechydion fel dwfr. "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" ydyw cri torcalonus miloedd ar ddarfod am danynt gan newyn a noethni yn ein trefi mawrion. "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" a barablir yn gymysgedig â llefain cryf a dagrau gweddwon ac amddifaid y trueiniaid a hyrddiwyd i fedd dialw-am-dano, trwy ddwylaw gwaedlyd haid o felldigedigion sydd yn aflonyddu ein gwlad. Yn ddiweddaf oll, daw y gofyniad o gyfeiriad nad oeddym yn ei ddysgwyl: "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" gofyna "Cymreigyddion" dinas Utica. Fel un o edmygwyr eu doethineb yn dewis ac yn cyflwyno y fath bwnc amserol yn brif destyn eu Heisteddfod, ddydd Calan, 1887, dymunwn ddynesu gyda gwylder a pharch i'm gwell a ddichon fod yn y gystadleuaeth hon, i gyflwyno i sylw yr ychydig awgrymiadau canlynol, fel y cynllun mwyaf tebygol, i'm golwg i, er sicrhau cydweithrediad cydrhwng cyfalaf a llafur:

1. *Y dylid penderfynu pob cwerylon a chamddealltworiaeth trwy gyflafareddiad (arbitration).* Nis gall fod "sefyll allan," neu "gload allan," yn esgusawd o gwbl hyd nes y bydd cais i derfynu yr anghydfod trwy gyflafareddiad wedi ei gynyg gan un blaid a'i wrthod gan blaid arall.

Ymddengys cyflafareddiad yn drefniant mor naturiol nes gwneyd i ddyn gredu, *a priori*, ei fod yn gydym-

aith y trefniant cyflogawl er ys llawer biwyddyn. Eto, nid dyna y ffaith, a'r rheswm dros absenoldeb y trefniant syml i derfynu pob ymrafaelion yn heddychol, ydyw anmherffeithrwydd dadblygiad moesau y genedl a'r oes. Tuedd naturiol plant Adda ydyw ymladd am bob iawnder, a tharo yn ol pan y tarewir; ac y mae y diwygiad yn y gwrthwyneb wedi bod yn gyfatebol i dderbyniad moes-ddysg Gristionogol yn rheol ymarferol bywyd; ac ni faidd na chredadyn nac anghredadyn ymsythu i wadu y ffaith. Y mae y byd yn ymsymud yn raddol i gydio gafael yn y foeseg Gristionogol, a bydd i fabwysiadu y trefniant cyflafareddol mewn materion gwleidyddol, ac ar gwestiynau gweithfaol, ddilyn.

Y mae cyfalaf a llafur yn oruchwylwyr anhebgorol mewn cynrychiad, ond a gyflenwir gan bleidiau gwahanol, buddianau y rhai ydynt yn rhedeg yn gyfochrog i bwynt neillduol. Pan ä y llarurwr i hawlio mwy o gydnabyddiaeth am lafur nag y mae y cyfalafwr yn ganiatau, y canlyniad fydd "sefyll allan." Pan y bydd i'r cyfalafwr omedd y gyfran o'r cynrych ag a fyddo llafur wedi dderbyn yn flaenorol gan werth ei gyfalaf, ar unrhyw delerau derbyniol gan y llafurwr, y canlyniad fydd "cload allan."

Commodity ydyw llafur, mae yn wir, ond gwahaniaetha yn fawr oddiwrth *commodities* eraill, megys, yd, haiarn, coed, &c. Os gwerthaf fi lestriad o wenith i fy nghymydog, nid yw o bwys i mi pa ddefnydd a wna efe o hono—ei fwrw i gafn y "mellidgedig lwdn," neu ynte i borthi "tad llo bach." Pan y llafuriwyf, y mae y defnydd a wneir o'r cyfryw yn

effeithio arnaf, o herwydd llafur yw fy mywioliaeth. Y mae yn deimlad wedi ei blanu yn y galon ddynol y dylai y cyfryw ag ydynt yn ewyllysgar i weithio ar yr hyn a gyfrifir yn amodau cymedrol a chyfiawn, fod iddynt hawl i ddoniau rhagluniaeth, ac y mae cyfiawnder y cyfryw hawliau wedi eu stampio yn mhob egwyddor mewn Cristionogaeth. Nid perthynas personau â phethau ydyw y rhyfel presenol; ond y mae perthynas personau a phersonau yn gymhlethedig, ac yn y berthynas yna y mae lle digonol i nwyf y galon ddynol i chwareu ei thannau. Cyhyd ag y parhau y rhyfel rhwng cyfalaf a llafur, bydd y golled yn fawr, y poenau a'r dyoddefiadau yn anamgyffredadwy, troseddau ar gynydd, a marwolaethau anamserol yn amlhau. Dyna fydd cyflwr ein gwlad hyd nes y mabwysiedir cyflafareddiad yn mhenderfyniad cwerylon. Nid oes genym gyfnewidfa i lafur fel ag sydd genym i *stocks*, lle y ceir newyddion yn dwyn perthynas ag ymgymeriadau masnachol trwy y byd yn dylifo i mewn, a phale, yn ngoleuni y fath wybodaeth, y mae yr ymgyrch cydrhwng prynwr a gwerthwr yn terfynu mewn pris gosodedig, seiliedig ar y cynyrch a'r galw.

Cyflawna y trefniant cyflafareddol bethau mawrion ar gyfandir Ewrop, ac yn Lloegr. Y mae cyflafareddiad yn drefniant gwladwriaethol yn Ffrainc, Belgium, a theyrnasoedd eraill, ond gwirfoddoliaeth ydyw yn Lloegr. Sefydlwyd y bwrdd cyflafareddol cyntaf yn Ffrainc, "*Consells des Prod Hommones*," yn gynar yn y ganrif, a pharhâ i ddwyn ffrwyth lawer hyd heddyw. Gwneir y cyngor i fyny o nifer penodedig o gynrychiolwyr o'r ddwy blaid, y cyflogwyr a'r cyflogedig.

Penodir llywydd ac is-lywydd y cyngor gan y llywodraeth. Ar ddymuniad cyfalaf neu lafur, y mae y byrddau hyn i ymdrin ag achosion ag y byddo y pleidiau yn methu cyduno ; ac y mae penderfyniadau y bwrdd cyflafareddol mor safadwy ag unrhyw lys barn yn y wlad. Y mae Cyngor Cyflafareddol y Cyfandir yn gyfansoddedig o ddau fwrdd, neu bwyllgorau, y "neillduol," a'r "cyffredinol." Gwneir y bwrdd "neillduol" i fyny o ddau aelod, cyfogydd a gweithiwr ; a'r "cyffredinol" o bump o aelodau. Cyferfydd y pwyllgor "neillduol" yn ddyddiol, i wrandaw cwynion, ac os metha ddwyn i mewn dangnefedd, apelir at y bwrdd "cyffredinol," penderfyniadau yr hwn sydd yn derfynol. Dodwn i lawr yma y ffigyrau diweddaraf allem gael, er dangos y gwaith pwysig ag y mae y "Cyngor Cyflafareddol" wedi ei ddwyn oddiamgylch yn mysg plant ein chwaer werinol, Ffrainc : Yn 1883, yr oedd yn Ffrainc, 135 o fyrddau cyflafareddol. O'r 35,860 o achosion a wysiwyd o flaen y llysoedd, yr ydoedd 22,358, neu 62 y cant, yn dwyn perthynas uniongyrchol a chyflogiad ; 2,238, neu 6 y cant, i waith amherffaith, neu aneffeithiol ; 4,657, neu 13 y cant, i ataliad neu ddiarddeliad gweithwyr ; 1,525, neu dros 4 y cant, yn dal perthynas ag egwyddor-weision mewn amrywiol alwedigaethau ; a 5,082, neu 14 y cant, o achosion heb un dosbarthiad o gwbl. O'r 35,860 achosion, tynwyd 10,192, neu 28 y cant, yn ol cyn i'r cyngor eistedd mewn barn arnynt. Cymodwyd 18,354, neu 51 y cant, o'r achosion o flaen y pwyllgor "neillduol," yn gadael 7,210, neu 20 y cant, i'r pwyllgor "cyffredinol ;" 38.5 y cant o'r cyfryw yn unig a ddaethant i farn.

Anhawdd yw amgyffred y daioni sydd yn deilliaw o'r byrddau hyn yn Ffrainc, a rhanau eraill o gyfandir Ewrop. Yn wir, y mae y trefniant cyflafareddol yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed yn Mhrydain. Sefydlwyd y bwrdd cyflafareddol parhaol cyntaf yn Nottingham, ryw 35 o flynyddau yn ol, ac y mae y trefniant wedi gweithio yn ogoneddus trwy yr oll o ogledd Lloegr. Mae y drefnlen gyfansoddiadol bron yr un ag ydyw yn Ffrainc, ag eithrio fod y byrddau yn Lloegr yn penodi canolwr (*umpire*), a'r llywodraeth yn Ffrainc yn penodi llywydd ac is-lywydd. Hawlir fod i'r canolwr fod yn berson hollol annibynol, a bydd ei benderfyniad yn derfynol ar bob achos. Yn rhestr y canolwyr mwyaf nodedig yr ochr arall i'r afon Benog, cawn y boneddwyr canlynol: Thomas Hughes, Syr Rupert Kettle, Joseph Chamberlain, Syr Thomas Brassey, Nashby Reed, a McDonald. Profa y byrddau parhaol gydag eisteddiadau rheolaidd, yn dra bendithiol yn Lloegr.

Yr unig engreiffitiau sydd genym o'r trefniant cyflafareddol yn troi yn fethiant, ydyw, pan y gelwir y bwrdd i ymfurfio ac i weithredu pan y byddo yr ysturm wedi eu goddiweddyd. Pan y byddo y bwrdd yn gyfansoddedig eisoes, gallant gýdio gafael yn awenau pob anghydfod cyn iddo redeg i eithafion. Tra y mae Ffrainc yn dewis cyflafareddiad gorfodol, dadleua gwreng Lloegr fod cyflafareddiad gorfodol yn anymarferol. Nid ydym yn credu y byddai trefniant y Ffrancwr yn ymarferol yn y Talaethau Unedig, ychwaith. Gallai y llywodraeth Americanaidd argymhell y trefniant cyflafareddol mewn achosion neillduol,

ond o'r braidd y gallai wneyd mwy na hyny. Gallai ein deddf-wneuthurwyr greu bwrdd cyflafareddol er gwylid buddianau a symudiadau cwmniau cledrffyrdd ag ydynt yn dwyn oddiamgylch farsiaendiaeth rhwng-Dalaethol, gan roddi hawl i'r cyfryw fwrdd i wneyd ymchwiliad i achwynion y pleidiau, cyflogydd a chyflodedig. Diffyg mawr, a rhwystr arbenig yn erbyn y trefniant yn y Talaethau Unedig, ydyw, nad oes genym ddynion o farn a synwyr, nad ydynt yn dal cysylltiad ag un o'r pleidiau yn y ddadl. Nid oes genym ein Hughes, ein Brassey, a'n Reed, o herwydd y mae ein hanfuriaethwyr ni yn America yn ymladd am y "*mighty dollar*," hyd farw. Ar bared marwolaeth y ceir rhestr o *retired merchants* f'Ewyrth Sam! Pe y buasai yn arferiad yma, fel yn Lloegr, i fasnachwyr ymneillduo o fywyd cyhoeddus wedi cydgrynhoi o honynt swm neillduol o gyfoeth, buasem yn cael dewisiad teg o foneddwyr annibynol er cyfansoddi bwrdd cyflafareddol. Y personau mwyaf cymwys i eistedd yn y cylch cyfrin o fewn y wlad heddyw, ydynt gynlywyddion yr undebau masnachol, megys Jarrett, White, Powderly, dynion dysgedig a deallgar yn mhob adran o drafnidiaeth. Rhwystr arall ar ffordd y trefniant yn y wlad hon ydyw y ffaith nad ydyw y cyfalafwyr yn deall gwir natur y cymdeithasau llafuriol, ac o ganlyniad gwysiant bob gewyn er llesteirio eu cynydd. Mae yn bryd i'r fath wrthwynebiad dialw-amdano oeri, a darfod o'r tir, o herwydd nid all na gwg na gwên, gyda mil ac un o rwystrau, byth ddifodi cymdeithasau y gweithwyr; ac nid oes y gobaith lleiaf am heddwch yn y Talaethau Unedig hyd nes y bydd-

ant wedi eu cyflawn gydnabod. Rhyw fath o fawredd anhyblyg ar ran y cyfalafwr sydd wedi cadw y trefniant yn y fath ddinodedd yn ein mysig fel deiliaid rhydd. Wedi y cyfan, credwn fod y wlad yn addfedu yn gyflym i fabwysiadu y trefniant cyflafareddol.

Gorwedda egwyddorion y trefniant yn *rituals* y cymdeithasau mwyaf dylanwadol yn y wlad, megys y "Marchogion Llafur," "Brotherhood of Carpenters and Joiners," "Typographical Union," &c. Diameu fod helbulon blinion y misoedd diweddaf wedi dod a'r pleidiau gam yn nes. Haner gydnebydd y cyflogydd fod gan y gweithiwr yntau lais yn y cwestiwn hollbwysig cyfalaf a llafur. Ymostynga cyfalaf yn awr i ddadleu cam pwysig. Mantais fawr fyddai i'r trefniant cyflafareddol gael ei fabwysiadu yn y Talaethau Unedig, gan y byddai iddo ddwyn personau o wahanol safleoedd mewn cymdeithas i'r un banlawr, canlyniad yr hyn fyddai enyn cydymdeimlad dosbarthiadau pwysig yn myd diwydrwydd. Yn wir, mae yn bryd cael rhyw ddylanwadau nerthol er gwrthweithio y cannibaleiddiwch ysgymunedig ag sydd yn ymledu mor gyflym y dyddiau hyn trwy haenau neillduol o gymdeithas. Ffaith brofadwy ydyw, fod ychydig ymgynabyddiaeth rhwng person a pherson, ac a gwir natur y naill a'r llall, wedi bod yn foddion i symud ymaith deimladau chwerwon ag a fuasent wedi bod yn darllaw yn mynwesau y pleidiau am fisoedd a blynyddoedd. Profwyd hyn yn Lloegr trwy gyflafareddiad, ac nid oes y rheswm lleiaf i ameu na ddeil y trefniant yr un prawf yn y Talaethau Unedig. Bydd raid i'r dosbarthiadau gweithiol ddysgu amryw wersi pwysig, yn ddiameu.

Rhaid iddynt ddysgu fod mwyafrif mawr o gyflogwyr yn dymuno eu llwyddiant; fod lluwys yn barod i aberthu llawer er mwyn eu daioni; fod y *syniad* am elw anferth oddiwrth eu llafur yn gyfeiliornad trylwyr; fod nid ychydig o'u huwchafiaid yn myd diwydrwyd yn cael mwy o ofid a blinder i gyfarfod a'u gofynwyr na'r gweithwyr, ac fod yr hyn ydym ni yn ei alw yn *broblem* llafur, ar amserau yn gyfystyr a *phroblem* cyfalaf. Ar y llaw arall, y mae gan gyfalaf wersi tra buddiol i'w dysgu, sef fod mwyafrif mawr o'r gweithwyr yn awyddu yn onest at weithredu cyfiawnder; na wnaent, pe y gallent, ddwyn pobpeth i lawr yn un *chaos* o gydraddoldeb (?); eu bod yn gallu gwerthfawrogi prawfion o edmygedd ac ewyllys da; y gallant gymeryd eu dysgu yn yr oes Anarchaidd hon i fyw yn deyrngarol, os bydd y cyflogydd yn hawlio y cyfryw warogaeth. Nid ydyw bywyd y gweithiwr diwyd ddim yn rhy lawn o fêl i ddosbarthiadau mwy ffodus mewn cymdeithas i aberthu ychydig o'u hadnoddau a'u hamser er dyrchafu, a doddi mwy o heulwen yn mywyd y miloedd, a'u gwneyd yn fwy diwylliedig, atdyniadol, ac iachusol.

Pe y ceid y pleidiau i ymgusanu mewn cymod, byddai diwedd ar gynlluniau y gwylliaid Anarchaidd—ysbeilwyr pob urddas, tywysogion pob drewdod, ag ydynt yn ymbesgi ar lafur a chyfafaf yn ddiwahaniaeth.

2. *Mabwysiadu y trefniant cydweithiol a rhan-ehool (co-operating and profit-sharing system)*; sef cynllun trwy yr hwn y gall y gweithiwr ddyfod yn rhanog mewn anturiaethau, ac yn gyfran-ddaliwr mewn gwaddol a chynysgaeth.

Heb gydweithrediad a chydgorfforiad, byddai ein byd ni yn domen o *chaos* cyn boreu yfory. Beth ydyw gwladwriaeth y ddinas a'r dreflan amgen corfforiaethau? Y mae pinaclau dyrchafedig eglwysi ein gwlad yn cyhoeddi corfforiaeth islaw; acenion soniarus y clychau o'r twr, a'r beroriaeth ag sydd yn ymdori trwy orielau yr adeilad, ydynt oll ffrwythau addfed corfforiaethau. Y môrfeirch mawrion, nid o dderw, ond o ddur, ag ydynt yn nofio y gwyrddli; y cledrffyrdd ag sydd yn rhychwantu y gwledydd; y trydan ag sydd yn melltenu dealltwriaeth o ddinas i ddinas,—oll yn codi i fyny i dystio mai plant corfforiaethau ydynt. Corfforiaethau sydd wedi gwthio trafndiaeth trwy dywod crasboeth yr Aipht; trwy greigiau cedyrn y Cordilleras; trwy gorsydd heintus y Panama, ac hyd anialdiroedd eangfaith y Congo, yn Affrica. A phaham nad ellir cario yr egwyddorion corfforiaethol ychydig yn mhellach, a gwneyd pont gynorthwyol o'r trefniant tros y gagendor ag sydd yn ymledu fwy-fwy yn ddyddiol, cydrhwng cyfalaf a llafur?

Cawn fod corfforiaethau wedi camddefnyddio eu hawliau o dro i dro, a thrwy hyny gynyrchu drwgdeimlad yn eu herbyn. Y mae yr elyniaeth tuag at gorfforiaethau wedi tyfu allan o'r elyniaeth at gydgylymiad cyfalaf. Paham, gan hyny, nad estynir cortynau y goruchwylwr pwysig hwn, fel y byddo yn drefniant, nid o gyfalaf yn unig, nac o lafur yn unig, ond o lafur a chyfalaf yn unol? Ni ddylai y gweithiwr eistedd yn dawel hyd nes y byddo iddo deimlo ei ffordd yn glir dan amodau newyddion trafndiaeth ddiweddar, i ddod yn gyfalafwr yn ogystal a gweith-

iwr. Ymddengys i mi mai cynyrcbiad cydweithiol yw un o'r ffyrdd mwyaf syml ac uniongyrchol i ddadan-soddi y *broblem* fawr ag sydd yn gwynebu y byd heddyw.

Mae yr egwyddor gydweithiol yn hynach na'n byd ni. "Deuwn, gwnawn ddyd," ydoedd un o ymadroddion y Duwdod yn y "cyngor boreu." Gwell ydoedd cael llywodraethu yn uffern, na gwasanaethu yn y nefoedd, ydoedd *key note monody* yr angylion "na chadwasant eu dechreuad." "Y wraig a roddest i mi," ydoedd esgusawd "ein tad ni oll." "Deuwn, gwnawn dwr," ydoedd *brand* llafur a chyfalaf y cyn-ddiluwiaid.

Gwelwn bob olion o'r trefniant ar bob ymgymeriad o'r amser boreuaf hyd yn awr. Y *co-operative system* sydd i'w gwled yn ein hymgymeriadau amrywiol bob dydd. Ymuna teuluoedd i bwrcasu eu nwyddau gan ryw oruchwyliwr arbenig, am y prisiau cyfanwerthol, a thrwy hyn arbed rhan o'r elw a wneid ar y nwyddau hyn gan y mânwerthwyr. Yr amaethwyr bychain yn cydweithio yn amser hau a thymor cynauaf. Bron na ddywedwn mai ar y trefniant cydweithiol y seilir crefydd y Crynwyr. Ar yr un egwyddor y gwneid i fyny y mordeithiau hirfaith i bysgota morfilod. A phaham, gofynaf eto, nad ellir gosod cyfalaf a llafur y Talaethau Unedig ar yr unrhyw egwyddorion heddyw?

Cyn myned i ddadleu y priodoldeb o fabwysiadu y trefniant yn y Talaethau Unedig, cymerwn wibdaith er gwled y modd y mae yn gweithredu gyda ein cymydogion. Bernir fod uwchlaw haner cant o sefydliadau yn gweithredu dan y trefniant yn Ffrainc yn unig. Cawn i un o'r enw Leclair, Ffrancwr, ymgymeryd a

sefydlu cynllun cydweithiol yn mblith ei gydweithwyr tua deugain mlynedd yn ol. Trwy lawer o wawd oddiwrth ei gymydogion a'r awdurdodau dinesig, ac hyd yn nod ei weithwyr ei hun, llwyddodd. Cymerwn sefydliad Leclair fel *model* o'r degau gweithdai o bob math ag sydd yn rhedeg ar yr un cynllun trwy y wlad. Y mae dwy aden yn perthyn i'r sefydliad, y ty lle y masnachir, a'r Gymdeithas Gynorthwyol a Darbodol. Swm y cyfalaf a saif ar y masnachdy yn unig, ydyw \$80,000. Delir haner y swm yna gan y rhan-berchenogion ag ydynt yn arolygu y sefydliad, a'r haner arall gan y Gymdeithas Ddarbodol. Yn ychwanegol, y mae i'r sefydliad drysorfa neillduol o \$20,000, y gellir syrthio yn ol arni mewn adeg o gyfyngder. Yn 1884, yr ydoedd gan y Gymdeithas Ddarbodol, yn annibynol ar y "masnachdy," y swm o \$310,017 yn derbyn llogau o wahanol ffynonellau. Nifer yr aelodau mewn safle dda ar lyfrau y Gymdeithas ar y pryd ydoedd 105, heb gymeryd i mewn y 50 aelodau ag oeddynt yn derbyn blwydd-daliadau i'r swm o \$10,015 yn flynyddol. Rhenir yr elw i bawb yn ddiwahaniaeth, o herwydd dodir yr elw ar y gyflog a enillir. Gwasanaetha y tabl canlynol er dangos y swm a dalwyd ar gyflogau o 1874 hyd 1882:

<i>Blwyddyn.</i>	<i>Rhif y Cyfranddaliwyr.</i>	<i>Cyfanswm y Cyflogau.</i>	<i>Cyfanswm y Bonus-es ar lafur.</i>	<i>Cyfartaledd y Bonuses.</i>
1874	976	£29,083	£3,530	13 y cant.
1875	633	20,327	3,160	14 "
1876	827	24,012	4,000	16 "
1877	1,052	27,862	4,500	18 "
1878	1,081	27,943	5,200	18 "
1879	826	25,820	6,400	18 "
1880	1,032	28,546	7,600	19 "
1881	1,125	38,897	8,600	20 "
1882	1,125	42,799	9,630	22 "

Mae y Gymdeithas Ddarbodol a Chynorthwyol yn caniatáu blwydd-dâl o \$240 i bob person uwchlaw 50 mlwydd, a fyddo wedi gwasanaethu ugain mlynedd yn y sefydliad ; a thelir haner y swm hwnw i'r weddw tra y bydd byw. Pe y byddai i weithiwr achlysurol, heb fod yn aelod o'r Gymdeithas, gyfarfod â damwain tra yn y gwasanaeth, darperir blwydd-dâl iddo, ac i'w weddw ar ei ol. Llywodraethir yr holl sefydliad, a'i eang drafnidiaeth, gan bwyllgor a elwir y "Noyau," etholedig bob blwyddyn, yn cynwys pump o aelodau a llywydd. Profa y trefniant yma yn *Eureka* yn myd diwydrwydd, y *missing link* ag y mae athronwyr yr oesau wedi bod mewn ymchwil am dani yn nghadwyn cyfalaf a llafur. Diflana y bytheiriadau parhaus a glywir ar y cwestiwn cyflogawl, o herwydd y mae y gweithwyr ag ydynt dan gysgod edyn y trefniant cydweithiol yn dawel, gyda gobeithion dysglaer yn llanw eu mynwesau. Bydd iddynt dderbyn, ar derfyn blwyddyn, pa bethau bynag ag y mae llwyddiant wedi ddodi i gadw yn nghoffrau y sefydliad ; ac y mae yr elw sylweddol a dderbynia y gweithiwr y tu allan i'w gyflog rheolaidd, yn symbyliad effeithiol i gynildeb, a diameu fod lluaws o honynt yn cadw eu hafraid erbyn rhaid. Yn mhellach, y mae y gweithiwr a ddarluniwyd eisoes, wedi dyfod i demlo ei fod yn rhywbeth amgen na pheiriant, a'i fod, mewn gair a gweithred, yn ogystal meistr a'i gyflogydd.

Y trefniant cydweithiol mewn amaethyddiaeth. Ceir prawfion o wahanol gyfeiriadau yn hynod ffafriol i'r trefniant ydym yn geisio ategu. Gweithia yr egwyddor yn ogoneddus yn y gangen holl-bwysig yma—am-

aethyddiaeth. Yn yr Almaen y mae amaethwyr a thirfeddianwyr wedi syrthio mewn cariad a'r trefniant er ys llawer blwyddyn. Ar etifeddiaeth un o'r enw Thunen, y cawn yr engraifft fwyaf amlwg o lwyddiant. Talai y tir-feddianwr dywededig y gyflog uchaf i'w weithwyr, yn nghyd a rhan o'r elw a ddygai gwelliantau i mewn ar yr etifeddiaeth. Os byddai yr elw clir uwchlaw \$4,120, yr oedd pob gweithiwr i dderbyn $\frac{1}{2}$ y cant o'r gweddill. Ni throsglwyddid y rhan-elw i'r gweithiwr fel ei gyflog rheolaidd, yn "arian parod," ond dodid hwy ar log hyd nes y byddai yr hawlydd yn driugain mlwydd oed. Pe y dygwyddai farw cyn cyrhaedd yr oedran, yna, trosglwyddid ei gyfran i'r weddw, gydag amodau neillduol i'r plant. Clywsom am amaethwr cyfrifol arall yn un o dalaethau canolog yr Almaen, yr hwn a gyflogodd bump o weithwyr, oll yn wyr priod. Tynwyd allan amodau cydrhwng y pleidiau. Yr ydoedd y tir-feddianydd i bwrcasu yr anifeiliaid a'r cyfalaf, ac i dalu yr holl ardrethoedd o bob math. Am ei wasanaeth yn arolygu yr etifeddiaeth, a threfnu pob cyfrifon, yr oedd i dderbyn tâl blynyddol o \$200. Yr oedd pob gweithiwr i gael bwthyn a gardd, gyda digonedd o laeth, ymenyn, llyisiau, tanwydd, &c. Derbynai y pump gweithiwr gyda eu gilydd, gyflog rheolaidd o \$15 yr wythnos am fisoedd yr haf, a \$12 am fisoedd y gauaf. Gweithiwyd ar y telerau yna, ac os byddai ychwaneg o ddwyllaw yn angenrheidiol mewn prysurdeb, yr ydoedd y gweithwyr i'w talu. Cytunodd y gweithwyr gyda eu gilydd i droi \$6 o bob elw yn flynyddol er ffurfio math o drysorfa ddiogeliadol yn nwyllaw y meistr tir, yr hwn a

dalai log arnynt yn ol 5 y cant. Arwyddwyd y cytundeb yna am bum' mlynedd, o Ebrill, 1881, ac wele y canlyniad am y tair blynedd cyntaf :

<i>Blwyddyn.</i>	<i>Cyfanswm yr eho clir.</i>	<i>Rhan y Tŷ-feddianydd.</i>	<i>Rhan-elu a chyflog y gweithiwr.</i>
	£ s d	£ s d	£ s d
1881-2	227 19 6	263 19 9	52 16 00
1882-3	488 8 5	244 4 3	48 16 10
1883-4	549 6 6	274 13 3	54 18 8

Yn ol y daflen uchod, derbyniodd pob gweithiwr £52 3s. bob blwyddyn ar gyfartaledd. Pe y dodid at y swm yna £6 15s. fel ardreth ar dy a gardd, &c., byddai y cyfanswm yn £58 18s. Safon cyflogau y gweithwyr mwyaf medrus trwy yr holl ymerodraeth, ydoedd £33 4s. Gwelwn fod yr anturiaeth am y tair blynedd allan o'r pump, yn llwyddiant trylwyr. Cyn mabwysiadu y trefniant, yr ydoedd perchenog yr etifeddiaeth yna yn foddolawn i'w gwerthu am £4,500. Wedi deunaw mis o waith dan y drefn newydd, gwrthododd £5,100 am dani. Yr amcan wrth osod i lawr y ffigyrau, ydyw, dangos y gellid gyda doethineb a phenderfyniad diysgog, gael y trefniant i weithio gyda llwyddiant ar wastadeddau eangfaith ein cyfandir ein hunain. Da y gwyr pob amaethwr ymarferol, mor anmherffaith y mae gwaith fferm yn cael ei ddwyn yn mlaen gan wyr cyflogedig, ac mor lleied o ddaioni sydd yn deilliaw o arolygiaeth fanwl er dwyn allan waith. Nid trwy ymgniad angerddol y galluoedd gwynol y ceir y gwaith perffeithiaf bob amser, ond hefyd trwy yni a grym meddwl. Nis gellir hawlio nerthoedd corff a meddwl ond oddiwrth yr hwn ag y mae ei holl fuddianau ar y gwrthddrych neu y fasnach. Agorir ffynonellau new-

yddion mewn cynyrchiad ; ac yn wir, dyna sydd yn gosod ar y trefniant ei bwysigrwydd mewn ystyr am-aethyddol.

Mewn treflan ddinod yn yr Almaen, flynyddoedd yn ol, crynhodd bagad o gryddion, gan ymffurfio yn gymdeithas gydweithiol. Tyfodd yr hedyn syml yn allu, ac ymledodd ei ddylanwad tros yr holl wlad hono, fel erbyn y flwyddyn 1883, yr ydoedd 3,500 o gymdeithasau wedi eu ffurfio gan yr hen gryddyn ffyddiog a phenderfynol, yn yr Almaen yn unig, yn nghyd a miloedd o gangenau trwy wledydd eraill, megys Awstria, Rwsia, yr Eidal, &c. Perthyna i'r 3,500 cymdeithasau hyn, 12,000,000 o aelodau, rhan-gyfalaf o £10,000,000, a chronfa ddiogeliadol o £21,000,000. Anfonwyd allan werth £100,000,000 o nwyddau yn y flwyddyn 1883.

Yn y flwyddyn 1883, yr ydoedd yn Mhrydain, 962 o gymdeithasau cydweithiol, gyda 572,610 o aelodau, rhan-gyfalaf o £6,928,772, yn nghyd a nwyddau gwerthadwy i'r swm anferth o £22,857,434. Hefyd y mae ganddynt £305,000 wedi eu soddi mewn tiroedd, adeiladau, llongau, &c. Yn nhref Oldham, Lloegr, y mae 75 o felinau o bob math, yn cynyrchu nwyddau yn awr dan y trefniant cydweithiol, gyda chyfalaf o £5,000,000 mewn cyfranau o £5 yr un. Llywodraethir y melinau yn eu pobpeth gan weithwyr, ac y maent, yn nghorff y deng mlynedd diweddf, wedi bod yn derbyn o 10 i 45 y cant ar eu cyfranau. Cyfrifir fod tua 1,000 yn gweithio yn y melinau hyn, yn werth o £1,000 i £2,000. Heblaw y melinau, y mae yn nhref Oldham fasnachdai cydweithiol, cymdeithasau adeiladu cydweithiol, &c., gyda chyfalaf o £3,000,000. Yn y trefniadau hyn oll,

y mae cylch perchenogaeth mewn eiddo yn ymeangu, a gobaith a chymelliadau yn llanw bywyd y llafurwr diwyd. Ffaith ydyw, mai nid arian i anturio, yn gymaint a chyfleusderau, ydyw angenmawr y gweithiwr.

Yn unol a threfniant presenol masnachaeth, gofynir i'r cyfalaf gael ei dalu i lawr yn arian parod, neu ryw eiddo arall a fyddo yn gyfwerth. Dyma ni yn awr wedi rhwydo ein hunain i resymeg gelynyion y trefniant, o herwydd nid oes drws gobaith i'r llafurwr ddod i fyny yma; y mae wedi ei rewi allan ar un anadliad. Rhaid, gan hyny, wrth gynllun gwahanol i'r hen drefniant cyn y gellir dyfod allan o'r dyryswch, a dyma ef, mor fyr ac mor syml ag y gallwn ei gyfleu mewn "du a gwyn": Taler y cyfalaf angenrheidiol i ddodi i fyny y weithfa, a dodrefnu y sefydliad â nwyddau, mewn arian parod, a'r cyfalaf ymddiriedol angenrheidiol, o bum' dolar yr un, tair rhan o bump o honynt i'w doddi lawr mewn arian parod, a'r gweddill, dwy ran o bump, mewn llafur—yr arian parod i'w doddi ar dir, adeiladau, peirianau, nwyddau, a phob *au* angenrheidiol er cynaliaeth y dosbarth o'r cyfranddalwyr ag a fyddant yn gweithio. Derbynier, dyweder, gant o lafurwyr yn aelodau o'r gorfforiaeth. Y cefyddydwy'r i dderbyn cyflog yn ol, wel, dyweder tair dolar y dydd, a'r gweithwyr cyffredin yn ol dolar a haner y dydd. Pob cyflawn aelod i gofrestru ei enw ar lyfrau y sefydliad am bedwar cant o gyfranau. Pe byddai yr enillion ar y cyfalaf yn cyrhaedd ond chwech y cant yn mhen deuddeng mis, dangosai llyfrau y sefydliad fod y cyfrif yn mhlaid pob gwr celfydd o \$900 mewn cyflogau, a \$120 yn elw. Tyner yn ol \$500 gogyfer a'i

gynaliaeth ef a'i deulu, a byddai yn weddill elw clir o \$520 ar derfyn y flwyddyn, yr hwn swm a dalai am 104 o gyfranau. Yn y modd yna, byddai y gweithiwr wedi cael bywioliaeth am flwyddyn, ac yn berchen ar 104 o gyfranau marchnadol. Gall bwrcasu 104 eraill y flwyddyn ddilynol, ac mewn llai na phedair blynedd byddai wedi talu am ei bedwar cant cyfranau.

Doeth fyddai i'r trefniadau amgylchiadol perthynol i'r sefydliad, megys penodiad safon cyflogau, pwrcasiad nwyddau, derbynriad a difreiniad aelodau, a dysgyblaeth yr holl sefydliad, fod yn agored i'r oll o'r aelodau, pa un bynag a fyddont yn gyfranddalwyr rhydd, neu ynte ar y ffordd i ddod. Dymunol fyddai cyfyngu yr adran gyllidol, y prynu a'r gwerthu, i ddwylaw y cyfranddalwyr gweithredol yn unig. Gwybydder mai yr amcan mawr a blaenaf ydyw dwyn cyfalaf a llafur i gymundeb nes, i wneyd iddynt ymorphwys y naill ar y llall, cryfhau y cyfalafwr, a galluogi y gweithiwr sydd heb gyfalaf i ddod yn feddianol ar elw mewn sefydliad trwy ddyfod yn weithiwr a chyfranogydd o adnoddau ei lafur ei hun. I'r amcan yma rhaid esgusodi arian parod, neu werth, fel cyfalaf, a derbyn ymrwymadau llafariol yn eu lle. Rhaid i'r gweithiwr gael moddion bywioliaeth tra yn talu am ei gyfranau. Bydd derbyn nwyddau rhad yn gynorthwy i rwyfo yn mlaen. Dylai dderbyn cyflog rhesymol, bywioliaeth rad, a rhagolygion dysglauer at wella ei amgylchiadau, o'r elw a dry ei gyfranau o gyfalaf y sefydliad, a'i lafur gewynol ei hun.

Dyna y cynllun yn syml, ac yn awr cyfyd gofyniad naturiol arall, sef, pa nifer o bersonau a fyddai yn debygol o fanteisio ar y fath gynllun?

Oddiwrth gyfrifiadaeth (*census*) 1880, cawn fod yn y Talaethau Unedig 50,000,000 o drigolion, 35,000,000 yn wrywod, a 15,000,000 yn fenywod. O'r gwrywod, yr ydoedd tua 15,000,000 dan bymtheg oed, gan adael 20,000,000 uwchlaw. Tyner ymaith o'r cyfrif yna y tlodion, drwgweithredwyr, ac analluogion o bob math, a bydd yn weddill oddeutu 19,500,000. Y mae 7,500,000 yn dal cysylltiad ag amaethyddiaeth yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, ac uwchlaw 12,000,000 yn y gweithfeydd. Byddai i'r fyddin ddirfawr yna ag sydd yn dwyn cysylltiad uniongyrchol a'r gweithdai a melinau ein gwlad, dderbyn elw uniongyrchol oddiwrth y cynllun. Pa gymelliadau, gan hyny, a fyddai i'r cyfalafwr fabwysiadu y fath ymgymeriadau? Yn annibynol ar y dylanwadau brawdol a ddylai fod yn rhedeg trwy bob aelod o'r teulu dynol, y mae tystion eraill yn llefaru y byddai i'r cynllun, os yn llwyddianus, rwymo y cyflogydd a'r cyflogedig yn fwy agos; arwain y diweddaf i ymgnio fwy-fwy dros gynydd y cynyrch cyffredin; dyrchafu hunan-barch; gŵneyd ymaith â "sefyll allan;" rhoddi ymddiriedaeth mewn cyfalaf, ac iachau yr archoll cydrhwng y pleidiau.

Gwrthwynebir trefniant o'r fath gan ddiwygwyr eithafol o Anarchiaid a Sosialyddion, am fod tuedd yn y cynllun i greu dosbarth newydd, gydag un droed iddo yn ninas y mawrion, a'r droed arall yn mhentref cyffrediniaid. Dyna sydd genym eisiau ei weled; dyna y diwygiad bendigedig yr ydym yn hiraethus edrych tros y bryniau pell am dano, lawer awr—cysylltu dosbarth wrth ddosbarth, yr uchel wrth yr isel, a thrwy hyny gydraddoli y lluaws. A phob llwybr a fabwys-

iada y dosbarth gweithiol er cyrhaedd cydraddoldeb a chysur, a enyna ar unwaith awydd ac ysa ar eraill idd ei ddilyn, yr hyn a weithreda effeithiau cydraddoldeb yn y cyfangorff. Pe ceid y ffordd yn agored i'r dosbarth gweithiol i ddechreu, wrth gwrs, trwy fod yn llafurwyr cyflogedig, a diweddu mewn cyfranogi, i ryw raddau, yn nghyfalaf cynrychiol y wlad, byddai yn rhwym o gydraddoli y lluaws—y rhai hyny a barhânt yn llafurwyr cyflogedig, yn ogystal a'r rhai a fyddo wedi llwyddo i enill gwell sefyllfaoedd. Rhoddai hyn achos i'r dosbarth gweithiol i edrych yn mlaen tra yn llafurio—rhywbeth i ymladd erddo; a byddai esiampl y cyfryw a gyfodai i dir o annibyniaeth o fod yn gyd-lafurwr, yn rhwym o effeithio er gwell ar y rhai fyddo yn dilyn eu hol. Trwy gysylltiadau o'r fath hyn y daw y syniadau o ddedwyddwch a diwylliad ag sydd yn gweithio o un dosbarth i un arall, o isradd i uwchradd, a thrwy hyny gydraddoli safon cyffredin byw, ar ba un y mae safon cyflogau yn dibynu cymaint.

Gyda y ffeithiau ydym wedi dalfyru o hanes y trefniant ar gyfandir Ewrop, ac yn Lloegr, yn nghyd a cynllun pa fodd i weithredu dan y drefn newydd, naturiol ydyw gofyn, A oes rheswm paham nad alai y trefniant weithio yn llwyddianus gyda ni yn y Talaethau Unedig?

3. *Fod i'r trefniant cyflogawol presenol gael ei sylfaenu ar raddeg (sliding-scale).* Yn awr yr ydym yn gwynebu prif bwynt yr anghydfod presenol, sef, nad ydyw y llafurwr yn derbyn y gydnabyddiaeth briodol; hyny yw, cydnabyddiaeth ag sydd yn cyfateb i elw y cyflogydd ar y prydiau a'r amserau. Dan y trefniant

trafnidiol presenol, y mae yr oll o'n llaw-weithfeydd mawrion yn cael eu cadw yn llawn o eirchion (*orders*), dyweder, chwech neu wyth mis yn mlaen. Cymerir yr eirchion hyn i fyny ar y prisoedd fydd yn ffynu yr adeg y dodir hwy i lawr ar y llyfrau. Cawn yn ymgymeriadau y llaw-weithfeydd am y flwyddyn bresenol, 1886, gymorth cyfamserol i ganfod hyd, lled, a dyfnder, twyll y gyfundrefn. Ddiwedd y flwyddyn 1885, gwerthid dur-gledrau (*steel rails*), yn ol \$29 y dunell ar fanlawr y felin, a dywedir fod y melinau yn derbyn eirchion i mewn gydag awch am y pris yna. Yn gynar yn nechreu y flwyddyn, neidiodd y prisoedd i fyny mor uchel a \$35 y dunell. Yn awr, yr ydoedd melinau dur-gledrau y wlad am y chwech neu y saith mis cyntaf o'r flwyddyn, i redeg ar eirchion nad oeddynt yn cyfartalu \$30 y dunell yn Pittsburgh, neu, dyweder, \$32 yn Chicago. Mae prisoedd allforiad, a phrisoedd pob nwyddau angenrheidiol er cynyrchu dur-gledrau, wedi codi yn y cyfamser, ac o ganlyniad, gorfodir y perchenogion, am ran fawr o'r flwyddyn bresenol, i fyw ar gyfran fechan, neu ddim elw o gwbl, ar eu cyfalaf. Darllenai y gweithwyr yn ngholofnau y newyddiaduron o ddydd i ddydd, "*Great boom in steel rails!*" ac fel yr ydoedd yn naturiol dysgwyl, daethant hwythau, y gweithwyr, yn mlaen at eu meistri i hawlio rhan o'r "*boom*," a than y trefniadau diffygiol presenol cydrhwng cyfalaf a llafur, llwyddasant i gael eu gofynion. Tuedda dygwyddiadau o'r fath i greu anfoddogrwydd yn mysg y cyflogwyr, ac nid allwn eu beio i eithafion, os cawn hwy ar brydiau yn grwgnach, am y gorfodir hwy i roddi i fyny i lafur, yr hyn, dan

gyfundrefn briodol, na byddai raid iddynt ei rod-di. Trown y ddalen, a chawn y dur-gledrau yn disgyn yn y farchnad, y melinau a'r ffwrnesi mewn *full blast*, cyflawnder o eirchion i gynyrchu am chwech neu wyth mis am brisoedd uwchlaw prisoedd y farchnad yn bres-enol; a gallant fforddio talu cyflogau uchel i'w gweithwyr, llawer uwch nag a fyddai i sefyllfa y farchnad ar y pryd ei gyfiawnhau. Wedi eu dirywio i raddau gan gyflogau uchel yn y mynedol, na ddylasant eu talu dan drefniant priodol, gwnant bob ymgais yn eu gallu i dynu cyflogau i lawr i gyfateb yr hyn y mae marchnad y cledrau yn ymddangos i'r cyffredin a'r anwybodus, ac yna creir anfodogrwydd yn mhlith y dynion.

Gweithredwyd y twyll yna yn llythyrenol y flwyddyn hon, a therfynodd yr anghyd-ddealltwriaeth poenus yn y "sefyll allan" dialw-am-dano, a thra-cholledus i'r ddwy blaid, yn nghylchoedd Pittsburgh, Pa. Pan y mae y cyfalafwr yn myned i lawr, mae y llafurwr yn ymwingo am fyned i fyny, a *vice versa*. Yn awr, yr hyn a ddywedwn, ydyw, y mae eisiau cynllun trwy ba un y gall gweithwyr dderbyn cyflogau uchel pan y mae y cyflogydd yn derbyn prisoedd uchel am y cynyrch, ac yn gwneyd elw mawr. *Per contra*, pan y byddo y cyflogydd yn cael ond pris isel am gynyrch, ac o ganlyniad elw prin, os dim, i'r llafurwr fod yn foddolawn ar gwmp angenrheidiol yn mhriis llafur.

Pe y llwyddid i sylfaenu y cynllun yna, byddai y cyflogydd a chyflogedig "yn yr un cwch," yn cydlawen-hau mewn llwyddiant, ac yn calonogi y naill y llall ar adegau tywyll adfyd ac aflwyddiant. Ni cheid lle i

gwerylon mwyach, o herwydd byddai teimladau cyfeillgar yn tyfu allan cydrhwng y pleidiau.

Mae y ffordd yn awr yn rhydd ac esmwyth i gyrhaedd yr hafan ddymunol, a dylai cyfalaf a llafur wneyd un egni terfynol tuag at gael y trefniant yn ymarferol. Dylid doddi y cyflogau ar fath o raddeg ag a fyddo yn cyfateb i'r prisoedd a dderbynid am gynyrch o fis i fis. Yn ddiweddar cawsom gyfleusdra i edrych dros ffigyrau un o'r cwmnïau mwyaf dylanwadol yn ein gwlad heddyw ag sydd wedi mabwysiadu *skeleton* o'r cynllun. Cawn fod amryw gwmnïau trwy y wlad wedi mabwysiadu y *sliding-scale* yn ddiweddar. Y canlyniad bendithiol ydyw, nad ydynt wedi sefyll yr un diwrnod yn segur yn achos un math o anghydfod trwy gynhyrfiadau y misoedd diweddar. Pob peth yn cydweithio mewn tawelwch. Y mae y cyflogydd a'r cyflogedig yn yr achosion neillduol yna yn cydfoli y trefniant. Cawn y sefydliadau pwysicaf yn Pittsburgh a Chicago, yn talu eu gweithwyr ar egwyddorion y raddeg symudol, wedi eu seilio ar y prisoedd a dderbynir am gynyrch. Nid ydyw y "raddeg" fabwysiedig gan yr haiarn-weithwyr ond cysgod megys o "y raddfa wirioneddol," er hyny y mae yn enill pwysig i lafur a chyfalaf.

Mabwysiadder y trefniant yn ei fanylrwydd, archwiler-holl erthyglau y gyfundrefn o flwyddyn i flwyddyn, a thrwy hyny torfynyglir ymfflamychiadau y "sefyll allan," &c., gan y byddis yn cael cyfleusdra adnewyddol i ddadleu cyfiawnderau y raddeg ar ben pob blwyddyn. Nid ydyw y raddeg hon, pa fodd bynag, i'w sylfaenu ar y prisoedd a dderbynir yn union-

gyrchol oddiwrth gynyrch, ond ar daflen argraffedig o'r prisoedd a gyhoeddir, yr hon a ddylai gael ei mabwysiadu yn gyffredinol.

Mewn amseroedd adfydus, fel ag a deimlodd y fasnach haiarn y blynyddoedd diweddar, y mae goddefiadau yn y prisoedd cyhoeddedig wedi bod yn angenrheidiol er effeithio gwerthiant; ond yn hyn oll nid ydyw y gweithwyr wedi bod yn gyfranog gyda y meistri.

Pe yn bosibl dodder at y raddeg yn ei sefyllfa amherffaith bresenol, amod i'r perwyl fod i bob achos o anghydwlediad, nad ellid ei ddodi o'r neilldu hyd derfyn y flwyddyn, gael ei gyflwyno trosodd i fwrdd o gyflafareddwyr. Pa fodd bynag, dylid ffurfio bwrdd cyflafareddol, o herwydd bydd hyny yn angenrheidiol pe y cyfodai anghydfod cydrhwng y gweithwyr a'u cyflogwyr, yn eu cynadleddau blynyddol, ac yna,

"Darfyddai son am bob ymryson mwy,
Lock-outs a strikes, pob rhagfarn, lawr a hwy."

4. *Ffurio Statistical Bureau yn mhob Talaeth trwy yr Undeb.*

"There is in human affairs one order which is the best. That order is not always the one which exists; but it is the order which should exist for the greatest good of humanity. God knows it, and wills it; man's duty it is to discover and establish it."—
Emile de Laveleye.

Iachawdwriaeth effeithiol ac uniongyrchol i'r dosbarth gweithiol fydd cael gan y llywodraeth sefydlu cangenau o'r *Labor Statistical Bureau* yn mhob Talaeth a Thiriogaeth trwy y wlad, fel ag a geir mewn rhai Talaethau yn bresenol. Dylid cael cyfrifon masnachol cywir a swyddogol. Diameu fod rhan fawr o'r

ansefydlogrwydd ag sydd wedi nodweddu pob cangen o fasnach trwy y wlad, i'w gyfrif, i raddau pell iawn, i ddiffyg ffigyrau trafniadol y gellid dibynu arnynt. Byddai i lyfrau masnachol pob sefydliad ffurfio seiliau safadwy, a threfniant ymddiriedol o ffigyrau trafniadol gofynol i osgoi gorlawnder neu orgynyrchiad. Fel y saif pethau yn bresenol, y mae y dosbarth gweithiol mewn anwybodaeth dybryd ar y cwestiynau holl-bwysig elw a chynyrch, llafur a chyfalaf. Byddai mwy o oleuni yn y cyfeiriad yna yn tueddu i leihau camgymeriadau sefydliadau a chorfforiaethau gonest a chywir; ac hefyd i leihau cyfleusderau i anturiaethwyr twyllodrus.

Cyfrifa un adran o ysgol y Sosialyddion y dyddiau hyn (*the extreme left*), fod pob math o rag-fasnachaeth (*speculation*) yn anghyfreithlawn, am nad allant ganfod fod rhag-fasnachaeth o'i weithredu yn gyfiawn, yn dylanwadu yn dda ar raddeg symudol prisoedd, gan luddias iddi syrthio yn rhy isel, a chyfodi yn rhy uchel, fel ag y maent yn dueddol i wneyd yn bresenol. Tueddiad naturiol *speculation* ydyw ysparduno masnach, ac nid ei pharllysu; gan hyny y mae ganddi ei gwaith cyfreithlawn a llesol i'w gyflawni yn myd diwydrwydd, a byddai yr effeithiau yn dra gwahanol i'r hyn yw yn awr pe byddai *speculation* yn onest. Rhaid deddfu er cael cyfrifon cywir o'r eiddo ar law, yn ogystal a gofynion y farchnad. Mae trefniant cyfrinachol ein dyddiau ni mewn trafniadaeth, yn tueddu, ac yn cymell *speculation* i fudr-elwa. Ymddiriedaeth ydyw anadl einioes trafniadaeth ddiweddar, ac y mae yr arwydd lleiaf o anymddiriedaeth yn parlysu ei symudiad-

au, ac yn atal ei chylehdroadau. Anhawdd, amhosibl, ydyw cael cyfleusdra i ddodi y fwyell ar wreiddyn pren pwdr rhag-fasnachaeth dwyllodrus. Ni chyrhaeddir yno trwy farn y lluaws, o herwydd ceir hwy yn carlamu ar ol llwyddiant bydol, ac yn plygu glin i gyfoeth gyda pharchedig ddefosiwn. Eto, nid ydym yn credu y byddai yn ymarferol i'r wladwriaeth ei dori i lawr trwy fesurau uniongyrchol a gorfodol. Yr unig ffordd freiniol ydyw, i'r llywodraeth gynorthwyo trwy fesurau effeithiol er cael trefniant da ar egwyddorion y *Labor Statistical Bureau*, o herwydd adar nosawl ydynt anturiaethau twyllodrus, ac yn llwyddo bob amser mewn anwybodaeth; gan hyny, byddai y trefniant mewn dadl yn rhwym o adlewyrchu gwybod-aeth ar gysylltiadau pethau, ac yn doddi y lluaws yn fwy cyfarwydd yn y "pethau." Nid yn unig byddai y trefniant yn wrth-weithydd effeithiol i anturiaethau sigladwy, ond tueddai i wastadhau y bryniau, a chyfodi y pantiau ag ydynt yn awr yn bodoli cydrhwng cyfalaf a llafur. Tra yn myned trwy farchnadfa eang St. John, Liverpool, rai blynnyddau yn ol, tynwyd ein sylw at daflen o reolau ysgrifenedig wedi eu doddi i fyny mewn manau cyfleus ar dde ac ar aswy, er rhoddi cyfrif cywir o swm a gwerth yr eiddo yn y farchnad ddydd ar ol dydd. Profa y tafleni yn fantais annrhaethol i'r lluaws, er efallai yn faen tramgwydd ac yn graig rhwystr i ryw ychydig o fân-fasnachwyr trachwantus.

Dyna ni wedi doddi i lawr yn frysiog, y cynllun mwyaf tebygol er sierhau cydweithrediad cydrhwng cyfalaf a llafur: (a.) Ffurio bwrdd cyflafareddol i bender-

fynu pob anghydfod ag y byddai pwyllgorau o weithwyr yn fethu benderfynu yn gyfrinachol yn eu plith eu hunain. (b.) Mabwysiadu y trefniant cydweithiol a rhan-elwol. (c.) I'r trefniant cyflogawl presenol gael ei sylfaenu ar fath o raddeg symudol. (d.) Ffurio *Statistical Bureau* yn mhob Talaeth trwy yr Undeb.

Pe y mabwysiedid y cynllun uchod, buan y ceid gweled cyflogydd a chyflogedig yn cydlawenhau mewn llwyddiant, ac yn cydofidio mewn adfyd. Byddai cyfalaf a llafur ysgwydd wrth ysgwydd yn cynorthwyo y naill y llall. Cyfrifid "sefyll allan," a "chload allan," yn weddillion yr oesoedd tywyll. Anfynych y ceid achos i alw estron i mewn i benderfynu cydrhwng y pleidiau; byddai eu holl drafferthion yn fath o ymgymeriadau teuluaidd. Hyn a ddywedwn, fod y trefniant a fu dan ein sylw, ac y ceisiwyd ei egluro, yn werth ymgnio erddo, er y cyfaddefwn nad oes llawer o newydd-deb yn egwyddorion y cynllun. Ond yr ydym yn sicr a diymwad mai y cam nesaf a rydd cymdeithas, fydd yn y cyfeiriad yna.

Fel un tra awyddus i wneyd ei ran er dwyn oddiamgylch berthynasau heddychol cydrhwng y galluoedd, llafur a chyfalaf, y rhai nid ydynt elynion, ond ymgyngreiriaid, mewn gwirionedd, i sefyll neu syrthio yn nghyd, dymunwn yn ostyngedig gyflwyno y cynllun syml i sylw fy nghyd-genedl.

PENOD IV.

“Those nations, and those classes of a nation, who stand highest in the scale of civilization, are those whose wants, as experience shows us, are the most numerous.”—*Prof. Hearn.*

“No remedies for low wages have the smallest chance of being efficacious which do not operate on that through the minds and habits of the people.”—*J. Stuart Mill.*

AWGRYMIADAU PELLACH—FFURFIO UNDEBAU AR GYNLLUN Y TRADE UNIONS YN MYSG POB DOSBARTH O LAFURWYR—CWTOGIAD ORIAU LLAFUR—DIWYGIAD YN Y CYFREITHIAU TIROL—SEFYDLU PENYDFA GOSBAWL MEWN RHYW DREF-EDIGAETH DRAMOR—DILEU Y CYFREITHIAU HYN Y AG SYDD YN GWARCHOD BUDDIANAU CRIBDDEILWYR YN Y CLEDREFFYRDD, LLINELLAU PELLEBROL, ARIANDAI, CYFRYNGAU TROSGLWYDDIADOL, BREINT-YSGRIFAU, ADYSGRIFAU DI-OGELIADOL (*Copyright*)—DEDDFU ER LLEIHAW RHWYSG ANGHYMEDROLDEB, &c., &c.—DIWEDD.

(a.) *Ffurio Undebau ar gynllun y "Trade Unions" yn mysg pob dosbarth o lafurwyr.*

“MEWN UNDEB Y MAE NERTH.”

Y mae rhai sefydliadau yn y wlad hon yn dra gwrthwynebol i'w dynion ymfurcio yn undebau. Ond ein cred ydyw fod gan y gweithwyr yr un hawliau i ymuno a ffurfio undebau yn eu plith eu hunain ag sydd gan y masnachwyr hwythau i ymuno yn gymdeithasau, a gorfyddir hwy, yn hwyr neu hwyrach, i gydsynio, a chaniatau yr un rhagorfraint i'w gweithwyr. Syn-dod ydyw fod y gweithiwr Americanaidd yn goddef ei amddifadu o'r cyfryw iawnderau ag y mae ei gydlafur-

wr yn eu mwynhau yn Mhrydain er ys llawer blwyddyn. Diameu fod yr undebau yn dra bendithiol i gyfalaf yn ogystal a llafur. Y mae yn ddios fod yr undebau yn addysgu y dosbarth gweithiol, gan roddi iddynt syniad mwy cywir am berthynas llafur a chyfalaf, nad allant ei ffurfio yr un ffordd arall. Fel rheol, daw y gweithwyr goreu a'r dynion mwyaf galluog i'r amlwg mewn sefydliadau o'r fath. Beth ond yr undeb a gynrychodd ddynion o'r un *type* a McDonald, Mabon, W. J. Parry, Robert Parry y Ceunant, &c.? Gallwn ddweyd yn ddibetrus, mai mwyaf goleuedig y byddo y gweithwyr, anamlaf fydd yr ymrafaelion cydrhyngddynt a'u cyflogwyr. Nid y gweithiwr deallgar ag sydd yn gwybod fod llafur, heb ei frawd cyfalaf, yn berffaith ddigymorth, ond y bloeddiwr anwybodus, nad all ei grebwyll ganfod yn uwch na bod cyfalaf yn llyw naturiol llafur, sydd yn gwneyd cymaint i chwerwi y berthynas cydrhwng y gweithiwr a'i gyflogydd. Clywir sain udgorn y cynhenus a'r anwybodus yn fwy eglur o herwydd y diffyg o gymdeithasau priodol yn mysg y dynion trwy ba rai y byddo eu llais gwirioneddol yn cael ei ddatgan. Ceir y llais hwn bob amser yn ffafriol i gynrychiolaeth gyfiawn a deallgar. Fel y daw dynion yn fwy gwybodus a deallgar, mynant fwy o sylw i'w personau a'u hawliau, i'w syniadau a'u barnau. Yna fe hawlia y gweithiwr deallgar gyfran fwy o'r elw na'r *slave tool*. Ar y llaw arall, bydd yn haws argyhoeddi y gweithiwr deallgar i dderbyn gostyngiad mewn cyfyngder masnachol. Ar y cyfan, y mae yn well i gyfalaf yn y pen draw gael ei wasanaethu gan y ddealltwriaeth uchaf, a bod yn hysbys o'r ffaith ei fod

yn gwneyd â dynion a wyddant eu hawliau mewn ym-driniaeth a chydabyddiaeth.

Y mae yr undebau wedi tynu ymaith bob cysgod o wan-obaith ag ydoedd wedi cloffi tynged y gweithiwr. Gesyd yr undebau y llafurwr mewn sefyllfa y gall sefyll am ei bris. Y mae yr undebwyr yn alluog mewn cangenau o drafnidiaeth, os na byddant yn agored i gystadleuaeth dramor, i effeithio cynydd parhaol mewn cyflogau ar draul prisoedd, a gallant, efallai, lwyddo i gadw cyfartaledd cyflogau i fyny i'w derfynau uchaf; hyny yw, i bwynt at ba un y galluogir y cyflogydd medrus i roddi mwy. Nis gall yr anfedrus wneyd hyny heb deimlo prinder yn yr elw, a chael ei redeg o'r maes yn gyfangwbl. Bydd i drefniant diffygiol lefaru mor ddrwg ar gyflogiad, a llafur aneffeithiol. Ar y llaw arall, bydd i gyflogau uchel yn ddiameu du-eddu i ddadblygu trefniant mwy medrus. Dodir y cyflogydd ar ei eithaf, a gelwir ei holl adgyfnerthoedd gweinyddiadol i weithrediad. Dylid dwyn mewn cof, pa wedd bynag, tra mae yr undebau yn abl i gadw safon cyflogau i fyny i'r terfynau eithaf, nid oes gallu ynddynt i symud y terfynau eu hunain. Dygir hyn oddiamgylch trwy gynydd yn nghynrychiad llafur yn gyffredinol. Ni buasai gweithrediadau yr undebau wedi bod mor effeithiol ag y maent wedi bod oni b'ai fod cynrych uchel y wlad yn rhoddi iddynt bod cyfleusdra i lwyddo.

Cyfoda rhan fawr o'r helbulon presenol cydrhwng cyflogydd a chyflogedig, o'r ffaith fod bron yr oll o sefydliadau mawrion y wlad, o'r rhai y cyfyd naw o bob deg o'r ymfflamychiadau presenol cydrhwng cyfalaf

a llafur, yn cael eu rheoli gan swyddogion cyflogedig, ac nid gan y perchenogion eu hunain. Nis gall fod gan swyddog cyflogedig ddim budd sefydlog yn nationi y gweithiwr. Awyddant am gael cyflwyno *balance sheet* foddhaol ar derfyn y flwyddyn, fel y gallo y cyfranddalwyr dderbyn elw sylweddol, ac fel y byddont hwythau, y swyddogion, yn fwy diogel yn eu hamrywiol sefyllfaoedd, heb i ddim gwrthdarwiad gymeryd lle cydrhyngddynt a'r cyfarwyddwyr na'r cyfranddalwyr. Anfynych y ceir engraifft o sefyll allan yn cymeryd lle mewn sefydliadau lle y ceir y perchenogion yn ymdroi gyda eu gweithwyr; deuant trwy hyny i wybod eu gallu a'u medrusrwydd, eu hymdrechion a'u huchelgais.

Y cadeirydd glwth ag sydd yn byw, symud, a bod, ganoedd o filldiroedd, efallai, oddiwrth y gweithwyr, ond sydd yn talu ymweliad brysiog a'r felin neu y mwnglawdd unwaith neu ddwy y flwyddyn, sydd fwyaf cyfrifol am bob amryfusedd a dyr allan yn achlysurol. Ychydig yw y trafferthion a ga y goruchwyliwr ag sydd yn ymwneyd a dirprwyaeth o'r dynion blaenaf yn mysg ei weithwyr. Ni ddymunwn ddweyd y byddai yn ymarferol i gadeirwyr y corfforiaethau mawrion adnabod y gweithwyr yn bersonol, ond dylai fod gan y goruchwyliwr yn y felin neu yn y mwnglawdd, bwyllgor cyfansoddedig o'r dynion goreu i ddadleu pob cwynion, ac i gyflwyno awgrymiadau buddiol, yn awr ac eilwaith, er llesoli a dyrchafu y ddwy blaid. Byddai hyn yn rhwym o dynhau y berthynas, o'r pencadlys i lawr. Dywedaf eto, y byddai sefydlu undeb yn mhob sefydliad, gyda chynrychiol-

wyr etholedig, yn rhwym o fod yn gyfrwng tra bendithiol i wella y berthynas cydrhwng cyfalaf a llafur.

[Gwrthddadleuir yn erbyn yr undebau am nad ydynt o fudd i neb ond y llafurwyr ag ydynt yn aelodau o honynt; a seilir eu llwyddiant, ebai grwgnachwyr, ar draul cauad allan a chrebachu cystadleuaeth o bob cyfeiriad arall. Mewn sefydliadau lle y mae yr undebau mewn gweithrediad, cerdda pob peth wrth reol a threfn. Derbyniir nifer neillduol o egwyddorweision ar gyfer yr angen yn y gangen hono o fasnach, a rhaid fod yr ymgeiswyr yn meddu teilyngdod neillduol cyn y gallant hawlio aelodaeth yn yr undeb. Ni ddylid chwythu bygythion o gwbl yn erbyn adran o'r fath yna. Gellir dweyd mewn un ystyr fod yr undebwyr yn enill nerth trwy gadw allan gystadleuaeth er aill. Nis gellir dweyd fod yr "eraill" hyn mewn dim gwaeth sefyllfa na phe buasai yr undebau heb erioed ddyfod i fodolaeth. Diameu y bydd i'r goruchwilydd hwn, yr undeb, fod yn offeryn, yn hwyr neu hwyrach, i benderfynu pris llafur y tu allan i gylch cyfrin yr undeb ei hun. Pa wedd bynag, nid ydyw y gwrthwynebiad a gynygir, ar seiliau digon cadarn i ddymchwel goruchwilydd diwygiad cymdeithasol. Mae yr undebau wedi profi i'r byd eu bod yn alluog i benderfynu cwestiwn cyflogiad trwy yr ymholiad, Pa can lleied a all y gweithiwr ei gymeryd, a pha faint y mae y cyflogydd yn abl i'w roddi—o'r *minimum* at y *maximum*—ag y mae sefyllfa y farchnad yn ganiatau? Diameu fod yr undebau wedi peri cyfnewidiadau pwysig, ond ni bydd eu heffeithiau daionus ond rhanol hyd nes y mabwysiedir rhyw drefniant neu gynllun trwy yr

hwn y gellir ychwanegu ato adran ddiogeliadol i'r dosbarth gweithiol (*Working-Class Insurance Society*). Rhaid i'r dosbarth gweithiol ddiogelu eu hunain rhag holl beryglon a phrofedigaethau bywyd trwy ryw fath o gymdeithas.

Un o brif angenion y dosbarth gweithiol heddyw, ydyw trefniant er cynorthwyo mewn cyfyngder ac adfyd, colli gwaith, afiechyd a hen ddyddiau. Egwyddor gadarn diogeliad fyddai i bob undeb ddyfod yn gymdeithas ddiogeliadol i'r alwedigaeth ag y mae yn taenu ei haden amddiffynol trosti eisoes, o herwydd y mae gan bob galwedigaeth ei pheryglon arbenig ei hun, ac o ganlyniad yn gofyn ei chyfraniadau arbenig i'r drysorfa. Gellid cadw y drysorfa ddiogeliadol ar wahan i drysorfeydd yr undeb, os na fernid ei bod yn fwy manteisiol i'r gweithwyr a'r aelodau yn y gwrthwyneb.

(b.) *Cwtogiad oriau llafur.*

"In view of the fact that a general reduction of the hours of labor has become an economic necessity, demanded alike by the industrial prosperity of the country, and the moral and social well-being of the laboring classes, it becomes the duty of every American citizen, not only to ask for, but to urge the adoption of this amendment, that a national eight-hour system be speedily inaugurated."—*George Gunton.*

Gan fod cwtogiad oriau llafur yn brif bwnc y dydd, ac yn enill sylw fwy-fwy yn yn y misoedd hyn, nid anffuddiol, efallai, fyddai ymdroi ychydig er ceisio deall a dysgu pa un ai ynte enill ai colled i'r pleidiau, cyfalaf a llafur, a fyddai mabwysiadu y trefniant wyth awr.

Dechreuodd Lloegr ddeddfu er cwtogi oriau llafur mor foreu ag 1802. Yn 1819, cafwyd gwelliant ar y mesur. Yn nechreu y flwyddyn 1825, tynwyd oriau

llafur i lawr o 14 i 12 awr y dydd. Mabwysiadwyd amryw welliantau dibwys o hyny hyd 1847, pryd y llwyddodd dyngarwyr Prydain, er syndod i filoedd, i gario trwodd gyfraith y deng awr. Daeth y gyfraith i weithrediad yn fuan, a chafodd y fath ddylanwad daionus ar lafur ac ar y farchnad yn gyffredinol, fel yr argyhoeddwyd dynion o safle a dylanwad Peel, Gray, Graham, Bright, ac eraill, i wneyd ymddiheurad cyhoeddus ar loriau Senedd Prydain Fawr, am eu gwaith yn gwrthwynebu y mesur.

Yn 1875, mabwysiadwyd y trefniant deng awr yn Nhalaeth Massachusetts. Felly gwelwn nad ydyw i'r wladwriaeth weithredu yn effeithiol ac uniongyrchol, yn rheoleiddiad oriau llafur, ond yr hyn sydd wedi cael deugain mlynedd o brawf yn Lloegr, ac un-mlynedd-ar-ddeg yn Massachusetts. Ceisiwn gael allan yn awr trwy ffeithiau a ffigyrau, pa un ai llwyddiant ai ynte aflwyddiant a fu y trefniant. Beth, tybed, ydoedd cyflwr llafurwyr Prydain cyn cwtogiad oriau llafur? Ceid teuluoedd yn gruglwythi gyda eu gilydd mewn cabanod clai tô gwellt; yn bwyta, cysgu, geni, a marw cydrhwng cortynau yr un ystafell, gydag un agorfa anghelfydd, *combination* o ddrws, ffenestr, a chorn simdde; budreddi ac anobaith nad all y cyffredin ffurfio yr un drychfeddwl am dano o gwbl—tywyllwch y gellid ei deimlo, a sawyr y gellid ei drafod; defnyddiau parhaus yn tentio y clai tomlyd a wasanaethai fel *carpet*, i fod yn llaid; yr haint sydd yn cael caniatad cul i rodio yn y tywyllwch yn ninas gwareiddiad a glanweithdra, yn teyrnasu yno ganol dydd. Dyna yn fyr, gyflwr truenus y ffauau hyny. Ni cheid ond un o

bymtheg yn gallu ysgrifenu ei enw. Menywod a phlant saith mlwydd oed yn gweithio 14 o oriau yn y mwngloddiau a'r melinau. Yr henafgwr crynedig a gwargam ar derfyn pymtheg awr o lafur diorphwys, yn

“Dwyn ei geiniog dan gwynaw,
A rhoi angen un rhwng naw.”

Y gwryfon tyner a glanwedd mewn caledwaith ar hyd y meusydd o “oleu i oleu,” ac ar y fath olygfa nid rhyfedd i ffrwd awen ffraeth ein hanwyl Caledfryn ddylifo allan yn y pedair llinell nodedig :

“ Rhy wael ydyw rhoi Elen—ar waith
Gyda'r wedd annyben;
Ac onid gwarth gwneyd i Gwen
Weithio dim wrth y domen ! ”

Swyddogion tlotai yn gwerthu plant amddifaid fel cynifer o adar y tô i berchenogion gweithdai a melinau, y *truck system* yn teyrnasu gyda llaw gref a braich estynedig tros holl enillion y llafurwr truan. Damwain fyddai i un llafurwr mewn ardal boblog feddu tair ceiniog o arian bathol o un Nadolig i'r llall. Dyna gyflwr gweithwyr Prydain cyn i gyfiawnder, yn nghwtogiad oriau llafur, roddi ei droed ar wddf gormes y canibalyddion, a chyn i draffwnc cribddeilwyr glwth sefyll i roddi clust o wrandawriad i wireb yr hen fardd o Eifionydd, sef mai

“ Gwell ryw awr golli'r arian,
Na chau'r gôd a nychu'r gwan.”

Beth ydyw cyflwr y dosbarth gweithiol yn Lloegr heddyw? Y ffauau afiachus a'r bythynod bawlyd wedi rhoddi lle i gartrefi cysurus; y ddarllenfa yn cymeryd lle y gwindy; eglwysdai, ysgoldai, llyfrgelloedd, am-

gueddfeydd, &c., wedi dod yn bethau cyffredin y mil-
iynau, yn lle bod megys "bara gosod" i'r ychydig.
Hawlia rhydd-fasnachwyr ysgol Manchester mai hwy
sydd wedi bod y prif offerynau i ddwyn oddiamgylch
y diwygiadau bendithiol hyn i weithwyr Prydain.
Ceir gweled.

Os hwy ydynt wir dadmaethod a mammaethod y
cyfnewidiadau, paham na buasai y canlyniadau daionus
yn effeithio ar bawb yn gyffredinol, ac nid ar ranau
neillduol o'r wlad, a'r galwedigaethau lle y mabwys-
iedir oriau llafur yn ol y trefniant cwtogawl? Y mae
y dosparthiadau gweithiol ag sydd dan aden deddf
cwtogiad llafur wedi llwyddo mwy, ac wedi ymddy-
rchafu yn uwch mewn moesau ac addysg yn y deugain
mlynedd diweddf na'r un dosbarth arall mewn unrhyw
wlad arall. Dengys adroddiadau swyddogol fod cyf-
logau mwnwyr o bob gradd wedi mwy na dyblu yn y
cyfnod yna, tra nad ydyw cyflogau y llafurwyr amaeth-
yddol wedi cynyddu ond ychydig.

Mae deddfu er cwtogi oriau llafur wedi profi yn fen-
dithiol mewn cyfeiriad arall, o herwydd y mae chwyld-
droad llwyr wedi ei achosi yn nghyflwr moesol a deallol
y lluaws. Bu i bob diwygiad pwysig, a phob deddfwr-
iaethu o du rhyddid ac iawnderau dynoliaeth yn Lloegr
am y chwarter canrif diweddf, wreiddio yn mysg, a
derbyn ei gymorth mwyaf uniongyrchol, oddiwrth y
bobl ag ydynt wedi dod i anadlu awyr iachusol cwtog-
iad oriau llafur. Amser a ballai, a gofod a brinhau i ni
gymaint a chrybwyll degwm y bendithion ag ydynt
wedi eu cofrestru ar lyfrau gleision Senedd Prydain
Fawr trwy ddylanwad y ddsbarthiadau y cyfeiriwyd

atynt. Y cyngrair diwygiadol a orfyddodd Arglwydd Derby yn 1867, i ddwyn allan fesur er rhoddi hawl pleidlais i'r gweithiwr. Yr un dylanwad a ddadsefydlodd yr Eglwys Episcopalaidd yn yr Iwerddon, addysg orfodol ac ansectyddol, &c., &c. Ni bu i'r mesurau bendithiol hyn dderbyn unrhyw gymorth o bwys y tu fewn na'r tu allan i'r Senedd, oddiwrth amaethwyr y wlad. Dywedwn eto, ychydig a wnaeth llafurwyr amaethyddol Cymru er dal i fyny freichiau y plant dewrion a fu yn ymladd brwydrau eu hiawnderau. Yr ydoedd amaethwyr Dinbych, Trefaldwyn, Aberteifi, a manau eraill, yn fud ac yn fyddar pan yr ydoedd gwladweinwyr galluocaf Prydain yn gwenu mewn edmygedd, ac yn cael eu llwyr syfrdanu dan raiadrau athrylith ac ymresymiaidau anwrthwynebadwy dewr fechgyn Cymru, "glân berlau ein gwlad," Morgan, Richards, a Roberts, pan yn dadleu hawliau eu cenedl ddewr, ond dibynol. Pwy oeddynt flaenaf i gyhoeddi rhyddid a chydraddoldeb y caethwas mewn cyfarfodydd agored yn rhifo o 100,000 i 500,000? Pwy fu yn gwrthdystio yn erbyn i'r llywodraeth Brydeinig ddangos yr un ffafr i'r Deheuwr? Mawl a gweddi pwy oeddynt yn cyfrodeddu trwy orielau hynafol Exeter Hall, pan yr ydoedd trais a gormes yn cyweirio eu gwely yn eu gwaed? Sain peroriaeth pa hen emyn sydd yn rhwygo orielau yr hen Exeter?—clywch :

“ In the beauty of the lilies,
 Christ was born across the sea,
 With a glory in his bosom
 To transfigure you and me:
 As he died to make men holy,
 Let us die to make men free ! ”

Nid oddiwrth y dosbarthiadau amaethyddol y daeth y pethau mawrion hyn, ond oddiwrth lafurwyr deallgar Manchester, Leeds, Birmingham, &c. Mae dealltwriaeth a moesau da i'w canfod yn eglur ar symudiadau ac ysgogiadau mwnwyr deallgar Cymru ar faes y Gymnafa, ac ar lwyfan yr Eisteddfod, pan yn datganu y gerddoriaeth glasurol. A hawdd y gall dyn gydag ond haner llygad ganddo, ganfod twbeiddiwch graddol-edig yn symudiadau *clumsy* a baglog, ac yn enwedig yn chwerrhiniad Dinbachyddol "gwas ffarmwr" yn y ffair a'r rhedegfa.

Deuwn yn ol, a chawn yn Nhalaeth Massachusetts, fod y deddfu yn nghwtogiad oriau llafur wedi profi yn fendithiol yno, ond nid mor dra amlwg ag yn Lloegr, o herwydd nid ydyw y ddeddf wedi bod mewn gweithrediad ond am un-mlynedd-ar-ddeg, ac nid yw ei heffethiau yn cyrhaedd ond poblogaeth fechan mewn cydmariaeth a Lloegr. Yn 1881, saith mlynedd wedi i'r trefniant ddod yn gyfraith ar lyfrau y Dalaeth, cyfodwyd gwrthwynebiad i'r ddeddf ar y tir ei bod yn niweidiol i'r llafurwr. Dadleuid fod llafurwyr Massachusetts yn llai gwerth o un ran o ddeuddeg, na llafurwyr yn dilyn yr un a'r unrhyw alwedigaeth mewn Talaethau eraill. Rhoddwyd clust o wrandawriad i'r achwynion hyn, a gorchymynodd y Ddeddfwrfa ar i'r *Labor Statistical Bureau* wneyd ymchwiliad trwyadl i'r cwestiwn yn ei wahanol agweddion, a rhoddi adroddiad cywir o oriau llafur, a'r cyflogau a delid yn Massachusetts a Thalaethau eraill Lloegr Newydd, yn ogystal a New York. Gwnawd hyn, ac wele y canlyn-

iad, yr hwn a ymddangosodd yn adroddiad swyddogol y *Bureau* am 1882 :

	<i>Cyfartaledd oriau yr wythnos.</i>	<i>Cyfartaledd cyflogau yr wythnos.</i>
Maine.....	66½.....	\$7 04
New Hampshire.....	66½.....	7 44
Connecticut.....	65½.....	7 81
Rhode Island.....	66.....	8 61
New York.....	65½.....	7 57
Massachusetts.....	60.....	8 32

Gwelwn oddiwrth yr adroddiad swyddogol yna, a ddygwyd oddiamgylch gan elynion y ddeddf, mai cyfartaledd oriau gweithio yn Nhalaethau Maine, Rhode Island, Connecticut, New York a New Hampshire, ydoedd 65½ o oriau yr wythnos, a chyfartaledd y cyflogau a delid ydoedd \$7.67 yr wythnos, tra yn Massachusetts, gydag ond tri-ugain awr yr wythnos, yr ydoedd cyfartaledd y cyflogau yn \$8.32 yr wythnos, neu dri-ugain sent yr wythnos yn fwy am bum' awr a haner llai o waith. Mae y llafurwr yn Massachusetts yn gweithio 24 o oriau, neu fwy na dau ddiwnod llawn, yn llai, ac yn derbyn \$2.52 y mis yn ychwaneg o gyflog na llafurwyr yn dilyn yr un alwedigaeth yn y Talaethau eraill y cyfeiriwyd atynt. Ni fabwysiadwyd yr un ddeddf mewn unrhyw wlad yn ein byd ni ag sydd wedi profi mor dra llwyddianus a ffrwythlawn. Dylai fod y llwyddiant ag sydd wedi coronni y deddfu ar gwtogiad oriau llafur yn y mynedol, yn gymelliadol iawn i ddeddfu i'r un perwyl yn y dyfodol.

Yn awr, y cwestiwn yw, a fyddai yn fanteisiol i'r deiliaid fabwysiadu y trefniant wyth awr yn ddeddf ar lyfrau y Talaethau Unedig?

Cawn fod poblogaeth y Talaethau Unedig, yn ol cyfrifiadaeth 1880, yn 50,155,783. O'r rhif yna, yr ydoedd 36,761,607 uwchlaw deng mlwydd oed, a thua 17,392,099 yn dilyn rhyw fath o alwedigaeth. Allan o'r 17,392,099 yr ydoedd 1,017,034 yn gyfreithwyr, meddygon, pregethwyr, dysgawdwyr, awdwyr, golygyddion, &c., &c.; 4,479,634 yn fasnachwyr, arianwyr, ysgrifenyddion, &c., yn gadael 14,895,431 yn llafurwyr yn ol ystyr briodol y gair. O'r nifer yna, pa wedd bynag, y mae 4,347,617 yn amaethwyr, hynny yw, yn dwyn cysylltiad ag amaethyddiaeth. Nid ydym yn cyfrif y dosbarth yna yn llafurwyr cyflogedig, er fod nifer mawr o honynt yn gweithio fwy na haner eu hamser am gyflog. Bydd genym yn weddill 10,547,814 yn llafurwyr cyflogedig neillduedig felly. Pe byddai i ni gau allan eto 1,075,655 o wasanaethyddion teuluaid, byddai yn weddill 9,472,159 ag ydynt llafurwyr cyflogedig yn ngwahanol gangenau diwydrwydd, yn gweithio am gyflog, a chyflog yn unig. Pe y mabwysiedid y trefniant wyth awr trwy y wlad yn gyffredinol, cymerid i mewn yr oll o'r 14,895,431, ond ni bydd a fynom ond a'r 9,472,159.

Un-awr-ar-ddeg y cyfrifir diwrnod o waith yn y wlad hon y tu allan i Massachusetts. Pe y mabwysiedid y trefniant wyth awr, dyna leihad cyffredinol o dair awr y dydd o lafur, yr hyn a achosai ac a gynyrchai effeithiau tra amlwg ar bob cangen o ddiwydrwydd trwy y wlad. Yn y lle cyntaf, byddai mabwysiadu y cyfryw fesurau yn lleihau un rhan o bedair o swm y cynyrch dyddiol. Mewn geiriau eraill, tynid ymaith o'r farchnad gynyrch 28,416,477 o oriau o lafur bob dydd, heb

wneyd ymaith ag un llafurwr. Byddai yr effeithiau ar lafur a masnach yn gyfystyr a lluosogi yr eirchion presenol un ran o bedair. hyny yw, heb i ddim cynydd yn y farchnad gartrefol na thramor gymeryd lle, ond yn syml lanw y farchnad fel y saif yn bresenol. Rhoddid gwaith i fwy na 3,300,000 o lafurwyr yn ychwanegol. I gyfarfod a'r eirchion yna, byddai yn ofynol wrth ychwaneg o felinau a gweithdai, heblaw rhoddi y peirianau presenol mewn llawn waith. Byddai mwy o alw am lafur yn y mwngloddiau, y ffwrneisiau, tân, gweithfeydd haiarn, &c., ac yn wir yn mhob cangen o ddiwydrwydd ag sydd yn cynyrchu nwyddau ac offerynau er adeiladu a dodrefnu y gweithdai a'r melinau. Rhoddai hyn waith i 4,000,000 o lafurwyr. Byddai yr eirchion adnewyddol am lafur yn peri cynydd yn nifer y treulwyr, ac yn unol a deddfau llawnder ag angen, byddai i'r cynydd yn y gofyn am lafur trwy liniaru cystadleuaeth yn myd llafur, dueddu i godi y cyflogau. Mae terfynau y farchnad yn cael eu rheoleiddio gan y draul a wneir ar gyfoeth gan y lluaws; ac y mae treulriad cyfoeth mewn unrhyw wlad yn cael ei benderfynu oddiwrth safon byw yn y wlad hono, a safon byw i'w benderfynu, yn ddieithriad, oddiwrth ddymuniadau, chwaeth, ac arferion ag ydynt wedi tyfu i fod yn angenrheidiau yn mhlith y bobl. Gan hyny, pa bethau bynag sydd yn cynyddu dymuniadau, pa bethau bynag sydd yn gwella arferion, pa bethau bynag sydd yn dyrchafu safon byw yn mysg y lluaws, rhaid eu bod yn tueddu i beri cynydd parhaol mewn traul a chynyrch, ac mewn canlyniad fod yn gymorth cyfamserol i gynydd cymdeithasol.

Hefyd, trwy fabwysiadu y trefniant, bydd gan y fyddin lafuriol trwy y wlad, dair awr y dydd o gyfleusderau newyddion; a chan y byddent yn llai blinedig, yn gorfforol a meddyliol, tueddiid hwy i ffurfio cysylltiadau! newyddion ag adranau mwy coethedig o gymdeithas, dylanwadau daionus y rhai sydd yn naturiol yn deffroi a dadblygu dymuniadau newyddion a fyddant yn sicr o ymdoddi i eisiau ac arferion sefydledig, gan wneyd safon uwch i fyw yn anocheladwy. Dyrchafu safon byw yn mysg y lluaws sydd ffordd freiniol er cynyddu treuliad cyffredinol cyfoeth. Byddai i'r cynydd yna mewn treuliad olygu cynydd cyfatebol mewn cynyrchiad, ac o ganlyniad cynydd yn y galw am lafur, ac *uwch cyflogau*.

Mae yn amlwg erbyn hyn, dybygem, yn wyneb y tystion gonestaf a feddwn, ffeithiau a ffigyrau, mai effeithiau parhaol a chyffredinol y trefniant wyth awr fyddai, cynydd treuliad a chynyrchiad cyfoeth. Yn wyneb y fath gwmwl tystion o ffeithiau ansyfladwy, dylai pob sefydliad a phob dinesydd trwy y wlad apelio yn daer a deisebu ar unwaith i ddeisyf ar i'n gwladweinwyr ddeddfu ar egwyddorion y trefniant yn ddioedi, ac yr ydym mewn gwir ddiogel obaith, yn prophwydo llwyddiant.

(c.) *Diwygiad yn y cyfreithiau tirol presenol.*

“Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder,” medd un ysgrifenydd ysbrydoledig; ac ebai “tadau annibyniaeth ein gwlad,” “Y mae dyn wedi ei waddoli gan ei Greawdwr i ddefnyddio ac elwa ar bob dawn o eiddo natur.” Pe y ceid ein gwladweinwyr i ddeddfu yn fwy uniongyrchol ar yr egwyddorion sydd yn gor-

wedd mewn "llythyrenau eglur" yn Nghyhoeddiad ein Hannibyniaeth, gan ddwyn y tiriogaethau eangfaith sydd yn gorwedd dan luman y ser a'r brithresi yn fwy o eiddo cyffredinol, ac nid cyfrinachol, byddai yn gam yn yr iown gyfeiriad yn nghydraddoldeb dosbarthiadau cymdeithas. Beth sydd yn fwy gwrthun ac annaturiol na thrafod tir fel eiddo cyfrinachol? Beth sydd yn fwy gwrthun nag i deithiwr un diwrnod ar y belen symudol yma, godi ardreth am dani ar y deiliaid sydd yn "dyfod ar ol"? Y fath ryfyg i bryfyn brau hawlio ei fod yn berchen cyfran o "degwch creadigaeth" a fu yn cymell "ser y boreu" i gyweirio eu tannau i gyd-ganu *serenade* o fawl yn yr olygfa arni. Llygredd all ogryn lludw y cyfryw, ac eto ymsythant, gan alw eu hunain yn etifeddion pethau na bydd i amser eu darnio na'u deifio, hyd y dydd y bydd

" Mon a'i thirionwch,
O wres fflam yn eirias fflwch,
Ei thorog wythi arian,
A'i phlwm a'i dur yn fflam dân."

Dylai y tiroedd cyhoeddus, treftadaeth y bobl, gael eu neillduo i ymsefydlwyr, ac i'r holl diroedd a ddelir yn bresenol gan anturiaethwyr, gael eu trethu i'w cyflawn werth. Beth yn fwy gwrthun na bod trigolion New York, yn 1887, yn gweithio i fagad o dir-arglwyddi a gawsant hawl i fyw ar eu llafur gan ryw lywodraethwyr Saesonig ag y mae llwch canrifoedd yn cysgu ar eu gweddillion yn naear gysegredig Westminster Abbey? Beth yn fwy annaturiol na'n bod ni, trigolion presenol y Talaethau Unedig, yn beiddio caniatu i'n pobl ein hunain, a chyfalafwyr tramor, hawl i ysbeilio

cededlaethau o ddinasyddion Americanaidd ag sydd yn dyfod ar ol? Mae yn ein gwlad heddyw, filoedd o erwau o'r tiroedd cyfoethocaf yn cael eu meddianu gan *land-sharks* trachwantus Wall Street, a thramoriaid o bedwar ban y byd. Canlyniad uniongyrchol y trachwant presenol am etifeddiaethau, fydd gorboblogiad. Ceidw y cyfalafwr y miloedd milltiroedd daear fras yna allan o gyrhaedd y llafurwyr a allent sugno bywioliaeth gymedrol esmwyth o honynt. Amcan eithaf y cyfalafwr ydyw, crynhoi y llafurwyr wrth y miloedd i'r ardaloedd hyn ag y mae wedi anturio ei arian, i ymladd am bob tragwyddoldeb a'r blaidd angen sydd yn bygwth croesi eu rhiniog o gryd i fedd. Mae anghyfartalwch gwrthun y cyfreithiau tirol y mae ein gwlad yn gweithredu wrthynt yn bresenol, yn gosod dosbarth bychan yn orgyfoethog, a'r lluaws mewn dygn dlodi. Carlama ein gwlad i gyfeiriad tra pheryglus dan amddiffyniad deddfau mor dra anghyfartal. "I'r hwn y mae ganddo y rhoddir iddo, ac oddiar yr hwn nid oes ganddo y dygir oddiarno, ie, yr hyn sydd ganddo." Pe y cyfrifid tiroedd fel eiddo y lluaws, byddai yr ardrethoedd a ddeilliai i'r wladwriaeth yn ddigonol i ddiwallu yr amcanion cyffredinol. Nid yw yn ofynol er sicrhau deddf cydraddoldeb tirol, i ranu y tir yn gyfartal rhwng pawb. Yr oll sydd yn angenrheidiol ei wneyd, ydyw, casglu yr ardrethoedd a'u defnyddio at amcanion cyffredinol, ac nid eu trosglwyddo trosodd fel ag y gwneir yn awr, i gribdeilwyr a chorfforiaethau. Doder prisiad cyfiawn ar y tiroedd, a threther hwy yn gyfatebol. Dan drefniant o'r fath yna ni chaniateid i neb

ddal tir na byddai yn ei ddefnyddio. Byddai i hyn ar unwaith rwyddhau marchnad llafur, a rhoddi yspardyn effeithiol i gynyrchiad a gwelliantau. Bydd i'r trefniant ddifodi pob trethoedd ag ydynt yn awr yn pwysu mor drwm ar lafur a chyfalaf, ac hefyd beri cynydd yn nghynyrchiad cyfoeth trwy symud rhwystrau, o herwydd byddai talfu yn agored gyfleusderau newyddion yn rhwym o beri cynydd mewn cyfoeth a chynyrchiad. Byddai hyn yn angeu disyfyd i gribddeiliaeth dirol, trwy wneyd daliad tir yn hollol ddi-ddenydd, ond yn unig i'r hwn a'i llafuriai. Ni themtid neb i gymeryd tir mewn gobaith y byddai iddo yn y dyfodol gynyddu yn ei werth, pan yr hawlid trethoedd yn cyfateb i werth y cynydd. Pa fantais a fyddai i neb gadw tir yn segur pan y gorfodid ef i dalu yr un swm o drethoedd a phe y gwneid y defnydd goreu o hono? Trwy symud y rhwystrau sydd yn ffordd llafur, ac agor cyfleusderau newyddion, gwneid llafur yn rhydd, ac yn hunan-gyflogydd.

Wrth fwrw golwg frysiog tros gyfrifiadaeth 1880, a'i chydmaru ag eiddo 1870, cawn fod y ffermydd bach yn cael eu llyncu i fyny gan y ffermydd mawr, a hyny yn gyflym. Ofnwn fod ein Hundeb ieuengaidd, a'i daear wryfol, yn prysur symud i fod yn America Benadurol, a'i dinasyddion i fod yn genedl o dir-arglwyddi a thenantiaid; yn fwy felly na theyrnasoedd penadurol cyfandir Ewrop. Y mae yr un afiechyd heintus ag a ysodd nerth Carthage, a fwytaodd galon Rhufain, ac a osododd Athen ddoeth yn llwch ac yn lludw, a barlysoedd gadarn fraich y dewrwyth Alexander, a dynodd

Hannibal oddiar binael mawredd i farw ar domen dinodedd, ac a ddymchwelodd gadeiriau y deuddeg Cæsar, yn prysur weithio ei ffordd at ffynonell bywyd ein “hanwyl fabwysiedig wlad.” “Na atto Duw i’w haul byth lewyrchu ar ddarnau toredig a dirmygedig, o’r hyn a gyfrifir gan filynau o’r teulu dynol yn Undeb anrhydeddus.” Bydded i garedigion yr Undeb ddyfod allan a hawlio gan ein gwladweinwyr ddeddfu ar unwaith er ein cadw rhag syrthio, fel gwlad a chenedl, i’r bedd dianrhydeddus y gorwedd llwch mawredd Athen, Rhufain, a Carthage ynddo er ys llawer canrif. Ein gweddi fyddo gyda’r enwog Daniel Webster: “Liberty and Union, now and forever, one and inseparable.”

Rhydd y ffigyrau isod awgrymiad eglur i ba gyfeiriad y mae ein hwynebaw fel gwlad a chenedl. Nifer yr erwau yn mhob dosbarth am 1870:

<i>Dosbarth.</i>	<i>rwau.</i>	<i>Rhif y Ffermydd.</i>	<i>Cyfanswm mewn Erwau.</i>
I. dan 3 erw,	2½	6,875	17,187
II. o 3 i 10 “	8¾	172,021	1,505,183
III. o 10 i 20 “	18	294,607	5,302,926
IV. o 20 i 50 “	44	847,614	37,295,016
V. o 50 i 100 “	90	754,221	67,289,890
VI. o 100 i 500 “	400	565,054	226,021,600
VII. o 500 i 1,000 “	900	15,873	14,285,700
VIII. uwchlaw 1,000 “	14,900	3,720	55,428,000
		2,659,985	407,735,502

—*Social Problem, by Henry George.*

Dodwn i lawr eto y ffigyrau er dangos nifer yr erwau yn mhob dosbarth am 1880, a cheir gweled yn eglur y cynydd sydd wedi cymeryd lle yn y ffermydd mawrion mewn deng mlynedd:

<i>Dosbarth.</i>	<i>Erwau.</i>	<i>Rhif y Ffermydd.</i>	<i>Cyfanswm mewn Erwau.</i>
I. dan 3 erw,	2½	4,352	10,880
II. o 3 i 10 "	8¾	134,889	1,180,278
III. o 10 i 20 "	18	254,749	4,585,482
IV. o 20 i 50 "	44	781,474	34,384,856
V. o 50 i 100 "	90	1,032,910	92,961,900
VI. o 100 i 500 "	400	1,695,983	678,393,200
VII. o 500 i 1,000 "	900	75,972	68,374,800
VIII. uwchlaw 1,000 "	14,900	28,578	425,812,200
		4,008,907	1,305,703,596

—*Social Problem.*

Rhydd y tabl diweddaf hwn gyfartaledd ffermydd yn y Talaethau Unedig yn 325½ o erwau, sef cynydd o 172½ o erwau. Cyn gadael y ffigyrau sychion, eto ydynt yn llefaru cyfrolau, goddefer i mi gyfleu un daflen yn ychwanegol er dangos y cyfnewidiad a gymerodd le yn nghorff y deng mlynedd, cydrhwng 1870 ac 1880, yn rhif y ffermydd fel ag ei ceir yn mhob un o'r wyth dosbarth :

<i>Dosbarth.</i>	<i>Lleihad mewn Rhif.</i>	<i>Cyfartaledd y Lleihad.</i>
I. dan 3 erw,	2,523	37 y cant.
II. o 3 i 10 "	37,132	21 "
III. o 10 i 20 "	39,858	14 "
IV. o 20 i 50 "	66,140	8 "

<i>Dosbarth.</i>	<i>Cynydd mewn Rhif.</i>	<i>Cyfartaledd y Cynydd.</i>
V. o 50 i 100 erw,	278,689	37 y cant.
VI. o 100 i 500 "	1,130,929	200 "
VII. o 500 i 1,000 "	60,099	379 "
VIII. uwchlaw 1,000 "	28,858	668 "

Llefara y ffigyrau drostynt eu hunain.

Trwy osod y tiroedd cyhoeddus yn eiddo cyfrinachol, yr ydym yn caniatu i unigolion hawl i'r drysorfa

ag y mae natur wedi ei bwriadu i bawb oll ; ac yn y modd mwyaf uniongyrchol yn “ bwrw bara eu plant i'r cwn.” Yr ydym yn hau egin anghydraddoldeb ag sydd yn rhwym o gynyrchu ei ryw yn mhob cyfeiriad, ar dde ac ar aswy. O wydroi rhoddion daionus ein Creawdwr doeth, diystyru a herio ei ddeddfau, fe gyfyd yn nghalon ein gwareiddiad bethau erchyll ac ofnadwy, ag a argoelant bydrni cymdeithasol.

Ymddengys fod y llwyth Indiaidd a elwir y Cherokees, yn y Diriogaeth Indiaidd, wedi cyrhaedd yn uchel yn nadansoddiad y cwestiwn tirol. Perthyna y tir i bawb o'r llwyth yn gyffredin, ond gall pob dinesydd ddiwyllio cymaint ag a ddewiso, ond iddo beidio myned o fewn chwarter milltir i fferm ei gymydog. Cyfrifir pob dinesydd mewn llawn feddiant o'i ffarm, a gall ei gadael i'w blant, neu ei gwerthu i ryw ddinesydd arall, ond nis gall werthu ei hawl i allanolion ; os na ddiwyllia ei dir, dychwelir y cyfan i'r drysorfa gyhoeddus. Cynllun gwir fuddiol er gwrthweithio trachwant *land-sharks*.

(d.) *Sefydli penydfa gosbarol mewn rhyw drefedigaeth dramor.*

Ni ddylai gwahanol gangenau diwydrwydd gael eu trethu er cynal a chadw dosbarth o ddrwg-weithredwyr. Dylai fod genym drefedigaethau cosbawl i'r dosbarth yna—gwlad ag y byddai i'w llafur fod o ddefnyddioldeb, heb gystadlu a llafur rhydd, fel y saif pethau yn bresenol. Ceir dosbarth o ddrwg-weithredwyr yn ein gwlad nad ellir eu diwygio. Cyhoedder cosb ar y troseddwr yn cyfateb i'w drosedd (rai prydiau), a phan y gwasanaetha y troseddwr yr amser gofynol gan y

gyfraith, bydd yn cael ei gyhoeddi yn feddianol ar holl ragorfreintiau dinesydd rhydd. Troseddu ydyw galwedigaeth barhaol y dosbarth yna. Ni chyfranant at gyfoeth y wlad trwy lafur, nac at ei moesau trwy ymddygiadau. Ni roddant at ei chysuron trwy drethoedd, na thrwy gymorth personol pan y gelwir arnynt i'w hamddiffyn yn y "dydd drwg." Gwenyn gormes ydynt yn myd diwydrwydd.

Yn ei anerchiad i ddosbarth o efrydwyr yn un o golegau Boston, Mass., ychydig amser yn ol, dywedai y Prof. Seelye fod "can' mil o ddynion yn y Talaethau Unedig heddyw, ag sydd yn cyfrif math o rwymau arnynt i gasâu, a chas cyflawn, bob math o sefydliad cymdeithasol." Buckle a ddywed yn ei "History of Civilization": "Crime among men is a fixed quantity, varying only with population." Diameu fod gwirionedd yn y dywediad yna, ond ofnwn fod rheswm arall dros gynydd troseddau yn y Talaethau Unedig, sef, aneffeithiolrwydd a thynerwch ei deddfau cosbawl. Hyd nes y bydd i'r tueddiad at ffug-ddyngarwch, a wisgir gan yr oes hon, gael amser i weithio allan o fod yn dybiau noeth, i fod yn drefniadau ymarferol o ddiwygiad gwirioneddol, nid oes dim i'w ddysgwyl ond cynydd troseddau, fel cydymdeimlad â drwg-weithredwyr. Y mae lluwys yn ein gwlad, heddyw, a geir o fewn rhwymyn y *sugar-coated vice*, a chymorth cyfamserol y *criminal lawyer*, wedi enill nodedigrwydd cenedlaethol trwy drosedd cyhoeddus. Haner esgusodir y troseddwr ei hun os bydd yn *smart* tra yn cyflawni y trosedd; tra y gweinyddir cosbau trymion ar bersonau diamddiffyn, er i'w troseddau fod ond dibwys (os

cyfreithlawn galw trosedd yn ddibwys). Rhoddwn engraifft o'r hyn a olygwn yma wrth drosedd pwysig, a throedd llai pwysig: Yn 1883, diangodd Iuddew di-enwaededig (o galon) o'r enw DeWalt, yn dal swydd bwysig mewn ariandy yn Leadville, Colo., gyda \$75,000 o enillion y dinasyddion. Wedi diogelu yr arian, daeth yr Hebrewr i'r ddalfa, ac wedi prawf byr, ac ymehwiliad arwynebol i'w achos, dedfrydwyd ef i'r benydfa am ddeng mlynedd. Wedi treulio ychydig fisoedd yn y *pen*, canfyddodd cyfreithwyr y carcharor ryw ddiffyg yn "llythyren" y gyfraith, neu ynte yn null ei gweinyddiad. Apeliwyd at yr awdurdodau yn Washington, a rhyddhawyd y *Jew*!! Tua yr un adeg, yn yr un gymydogeath, cafwyd mwnwr tlawd yn euog o gymeryd benthyc, wel, nid oedd yn ddigon *respectable* i ni ei alw yn asyn, ac yr oedd ei berchen yn rhy *proud* i'w alw yn ful; er mwyn byrdra, galwn yr eiddo benthyciol yn *skeleton* march, ac yr oedd ei holl agweddion a'i symudiadau yn profi yn eglur ei fod yn rhodio glan y môr a elwir marwolaeth, i chwilio am le beddrod. Am dosturio wrth y pedwar carnol, ei fentyca er cael cyfleusdra i'w borthi am amser amhenodol, anfonwyd y mwnwr i'r benydfa am bum' mlynedd!! Os ar egwyddor yr hen ddiareb, "a ddygo wy, a ddwg a fo mwy," yr ydoedd y barnwr yn cyhoeddi dedfryd mor dra llym ar y naill, ac mor ysgafn ar y llall, y mae i raddau i'w gyfiawnhau, os ydyw esgyrn ceffyl yn ngolwg y gyfraith yn dentasiwn ac yn gymellydd i'r mwnwr fyned rhagddo hyd berffeithrwydd yn ei alwedigaeth. Gwyddom y gallasai y mwnwr y cyfeiriwyd ato gael cyfleusderau godidog i fentyca nwyddau

gwerthfawrocach, a llawer mwy defnyddiol, na gwrth-ddrych breuddwyd sych y prophwyd Ezeziel. Yn achos y mwnwr a'r ceffyl (?) nid ydoedd y golled rhwng dau frawd ond ychydig *odd cents*. Pwy all ddirnad nifer yr amgylchiadau ddyryswyd, faint o drueni achosodd lladrad beiddgar yr Hebrewr di-gredo a di-Grist, sydd heddyw yn rhydd yn wyneb deddfau ei wlad, i fwynhau ei ysbail?

Y mae troseddau anfad ar gynydd yn ein gwlad. Llofrudiaethau wedi cynyddu o 1,266, yn 1882, i 3,377 yn 1884. O'r nifer yna, ni ddyoddefodd ond 583 eithaf cosb y gyfraith, a 462 trwy ddwylaw y "Barnydd Lynch," gan adael y fyddin ddu o 2,332 i lanw ein carcharau am gyfnod, yn feichiau trymion ar dreth-dalwyr gonest, yna fe'i rhyddheir i greu braw a therfysg, hau hadau llygredigaeth, i chwythu pob math o fell-digedigaeth i rigolau cymdeithas. Trwy ollwng y cyfryw yn rhydd, yr ydym yn eu trwyddedu i ysbeilio dinasyddion diwyd a gonest. Os caniateir rhyddid y "Scilla" llygredd cymdeithasol presenol, bydd genym "Charybdis" o ddemagogiaid annosbarthus i'w gochel. Dylid cyfrif drwg-weithredwyr o'r *first water*, megys tai-dorwyr, lladron penffordd, a llofruddion, yn wrthryfelwyr cymdeithasol, ac yn elynion anghymodlawn i bob rhyddid, ac yn deilwng wrthddrychau tynged y ffigysbren gerllaw Jericho—byth i ddwyn ffrwyth an-nibyniaeth, nac i ganiatau iddynt ragorfreintiau dinasyddion rhydd, pa fodd bynag. Bydded diwedd pob Jereboam o lofrudd, o leidr, o dwyllwr, megys Dathan, ac fel Abiram.

Er mwyn diogelwch dinasyddion gonest, ac ymeang-

iad llafur rhydd, myner penydfa dramor i ddrwgweithredwyr anfeddyginiaethol.

(e.) *Dileu y cyfreithiau hyny ag ydynt yn gwarchod buddianau cribddeilwyr yn y cledrffyrdd, llinellau pellebrol, ariandai cenedlaethol, cyfryngau trosglwyddiadol, &c., &c.*

Trwy hyn bydd i'r wladwriaeth sicrhau, er lles y llaws, y buddianau ag sydd yn deilliaw oddiwrth ddiogeliadau, cylchrediad arian cynrychioliadol (*representative money*), ac a marsiandiaeth y cledrffyrdd. Hedyw y mae holl gyfoeth ein gwlad wedi ei drosglwyddo trosodd i goffrau ychydig bersonau, megys y "Standard Oil Company," "Bessemer Steel Ring," "Whiskey Tax Ring," "Lucifer Tax Ring," "Pan Telephone Ring," ac amrywiol gylchau ag sydd yn prysur ddwyn ein gwlad i gyfwng y bu "Amasis" yr Aipht ynddo filoedd o flynyddoedd yn ol. Ni oddef y duwiau lawer yn hwy i'r werin-bobl gael eu llethu hyd farw gan yr af-rifed gylchoedd o gribddeilwyr o bob gradd a chredo i hau hadau llygredd, pydrni a darfodedigaeth i goluddion ein cyfansoddiad ieuengaidd. Hwy sydd yn llywodraethu ar elfenau natur, mwneu y ddaear, a choedydd y maes. Nid oes genym y dychymyg lleiaf am y miloedd lladradau a'r lleng melldithion sydd yn byw, symud, a bod, yn ein mysg dan wahanol enwau swynol, a lliwiau atdyniadol, megys "*special rates*," "*pools*," "*combinations*" "*corners*," "*stock-watering*," "*stock-gambling*," &c., &c.

Mae un peth arall yn angenrheidiol; yn wir, ni byddai mabwysiadu yr holl awgrymiadau y cyfeiriwyd

atynt o un budd hyd nes y mabwysiedir rhyw drefniant er

(f.) *Lleihau rhwysg anghymedroldeb.*

“Wine is a mocker, and strong drink is raging, and whosoever is deceived thereby is not wise.”—*Solomon.*

Anghymedroldeb ydyw arch-elynn diwydrwydd, erlid-iwr pob rhinwedd, torfynyglwr cysuron teuluaid, mamaeth epilgar Anarchyddiaeth, terfysg ac annhrefn cymdeithasol, ffynonell pob pydrni gwladwriaethol; mewn gwirionedd, anghymedroldeb ydyw pechod y pechodau. Y mae yn fwy o wir elynn y gweithiwr na'r holl ddrygau eraill yn nghyd. Deallwn fod gweithwyr y Talaethau Unedig yn tafu \$600,000,000 o flaen *Juggernaut* anghymedroldeb yn flynyddol. Byddai hyn yn ddigonol i bwrcasu 600,000 o gartrefi, ar y draul o \$1,000 yr un. Mae gweithwyr ein gwlad heddyw yn chwythu bygythion, celanedd, a *dynamite* yn erbyn trais ac anghyfiawnderau cyfalaf, ac eto y mae y dynion hyn wedi bwrw i goffrau tafarnwyr ddigon o arian i bwrcasu cartref cysurus i bob aelod o'i deulu, o'r baban ar y fron, hyd y tadau methedig. Gwariwyd \$900,000,000 am ddiodydd meddwl yn ein gwlad y flwyddyn ddiweddaf. Ar y cyntaf o Fai, 1886, cyfanswm dyled y Talaethau Unedig ydoedd \$1,178,654,210. Talai arian y ddiod ein dyled genedlaethol mewn dwy flynedd, gan arbed \$50,000,000 y flwyddyn o logau arian. Mae mwy o arian yn myned i goffrau tafarnwyr a gwirod-werthwyr yn flynyddol nag a delir mewn cyflogau i'r dosbarth gweithiol trwy y wlad. Yr ydym yn gwario \$900,000,000 yn flynydd-

ol am sican y feildith, a dim ond \$505,000,000 am y bara a fwyd am yr un cyfnod. Yr ydym yn talu gymaint dair gwaith am whiskey ag a wnawn am giffwyd, o herwydd nid ydyw ein cigoedd yn cyrhaedd yn uwch na \$303,000,000 yn flynyddol. Cyfanswm gwerth cynyreh ein melinau haiarn a dur am y flwyddyn ddiweddar ydoedd \$290,000,000, oddeutu un ran o dair o arian ein melltigedig whiskey. Yr ydym yn gwario yn flynyddol \$237,000,000 am nwyddau gwlan, a \$210,000,000 am nwyddau cotwm, cyfanswm o \$447,000,000, neu haner yr arian a wastreffir ar rum a'i gymdeithion flamboeth. Clywsom lawer o gwyno yn erbyn y trethoedd sydd yn myned at gadw drysau ein hysgolion cyhoeddus yn agored, ac eto nid ydynt yn costio mwy nag un ran o un-ar-ddeg o'r hyn y mae y ddiod yn ei hawlio o arian. Treuliau ein hysgolion cyhoeddus am y flwyddyn 1886, ydoedd \$85,000,000. Grwgnacha rhieni plant rhag rhoddi arian idd eu haddysgu, gwell ganddynt gyfranu yn ewyllysgar er adeiladu penydfeydd i'w cosbi!

Pan y daw corff mawr poblogaeth y Talaethau Unedig i ganfod a sylweddoli y gwastraff annyoddefol, y beichiau mawrion, y gwaeau a'r truenusrwydd, y damweiniau erchyll a'r marwolaethau anamserol, ag sydd yn deilliau trwy y ddiod, eir ati ar unwaith i fabwysiadu trefniadau effeithiol er lleihau rhwysg anghymedroldeb. Os gan y blaid Waharddol y mae y trefniant perffeithiaf i ddodi lawr ben y gelyn, ymunwn, ymladdwn, gorchfygwn. Cefnogwn Demlyddiaeth, Murphy-yddiaeth, J. B. Goughyddiaeth, a phob *aeth* arall sydd a'u

hwynebau yn deg yn erbyn y dinystrydd. Pan y dymchwelir caerau Jericho, pan y chwilfriwir yn gandryll "*branch establishment*" y fall, yna bydd dechreu y diwedd, ac

" O na wawriai
Boreu hyfryd Jiwbili"—DIM DIOD GADARN.

Diwedd.

" There is a gentle element, and man may breathe it with calm unruffled soul, and drink its livibg waters till his heart is pure; and this is human happiness."—*N. P. Willis.*

" A man who only eats, drinks and sleeps, is not a man."—*Mencius.*

Heb astudio a gwylied tueddiadau a chymeriad yr oes yr ydym yn byw ynnddi, nis gallwn fod yn ddynion yr oes, ac yn ddynion i'r oes. Dylem graffu ar hynod-rwydd yr oes, ar y gwahanol gymdeithasau a chyfundrefnau, ar y cyfleusderau i gymeryd gafael ynddynt idd eu defnyddio er ein lles ein hunain ac eraill; ar ei diffygion i'w diwygio, ac ar ei rhagoriaethau er eu cyflawni. Trwy wylid gyda manylrwydd symudiadau yr oes, dilyn camrau ein deddf-wneuthurwyr a'n llywodraethwyr, byddem bob amser yn abl ac ewyllysgar i ateb a chyfarwyddo y dosbarthiadau lluosog ag ydynt yn llefain yn barhaus, "Pwy a ddengys i ni ddaioni?" ar gwestiwn mawr yr oes, llafur a chyfalaf.

Nid oes dim cyfnewidiad trwyadl i gymeryd lle ond trwy ddylanwad meddwl ar feddwl. Mae dylanwad meddwl yn fwy nerthol na'r corwynt, ac na'r trydan.

Llwyddodd Rosseau a Voltaire i ddodi syniadau yn meddyliau y lluaws yn Ffrainc, a derfynodd yn nym-

chweliad brenin, cyfraith, a threfn. Nerthoedd-dystau meddyliad gynyrchasant ystormydd a siglasant deyrngadeiriau Ewrop. Bywiog ydyw cymeriad naturiol yr Americanwr; llygra cyn bod yn addfed. Cymer ddrychfeddwl i fyny gydag awch, a gweithia bob peth y gesyd ddwyllaw arno hyd bared. Mabwysiadodd yr Americanaid syniadau gwylltion ac eithafol yr Anarchiaid a'r Sosialyddion, ond (i Dduw y byddo y diolch, ac hefyd i reithwyr gonest Chicago) y mae eu syniadau wedi colli gafael yn meddwl y wlad er pan y dedfrydwyd y "seithwyr da eu gair," (?) ond drwg eu gweithredoedd, i neidio trwy gwllwm y crogwr, i ymuno a'r Anarchiaid na "chadwasant eu dechreuad." Ymaith a'r tramoriaid terfysglyd a gwaed-sychedig, o herwydd y mae genym ddynion pwylllog a synwrol, megys Jarrett, Powderly ac eraill i osod traed y gweithwyr ar yr iawn, gan eu harwain ar hyd llwybr esmwythach i afael eu hiawnderau. Dysger y werin mai peth graddol ydyw dadblygiad cymdeithasol, ac y rhaid ei weithio oddiamgylch trwy wellâu cymdeithas yn foesol a deallol, ac nid trwy ladd a llosgi. Ein tadau ni a dderbyniasant eu cydraddoldeb o law natur. Enillwyd rhyddid trwy aberth. Y tadau pererinol a'i derbyniasant trwy alltudiaeth; prynwyd ef gan sylfaenwyr y Weriniaeth fawr Americanaidd trwy waed, a hawlir mil flwyddiant meis llafur trwy nerthoedd-dystau meddyliad, a rheol euraidd ymresymiad.

Gwnawn ein goreu i hau yn meddyliau ein cymydogion syniadau o hunan-barch; mai dynion ydym, wedi ein creu ond "ychydig yn is na'r angylion—gwerth a

rhin yr aberth mawr fu ar y groes, a'r Iawn a roes yr Iesu trosom ; y galluoedd meddyliol ag sydd wedi eu gosod i ni, galluoedd mawrion natur, a threfniadau doeth rhagluniaeth wedi eu harfaethu i ni, a cheir gweled y bydd, syniadau isel, dirmygus, a thrahaus, yn marw gyda yr oes chwyldroadol hon. Dysger i'r oes sydd yn codi mai llafur ydyw y cyfrwng mwyaf anrhydeddus i enwogrwydd ac annibyniaeth. Y mae llafur gonest, ar yr un pryd, yn faich ac yn gosbedigaeth, yn anrhydedd ac yn fwynhad. Mae llafur yn anrhydeddus, er y cawn ef yn fynych fraich yn mraich a thlodi. Dysga i ni ein diffygion naturiol a'n hamrywiol angenion. Beth fuasai dyn, beth fuasai bywyd, beth fuasai gwareiddiad, heb lafur? Mae pob peth ag sydd yn fawr mewn dyn yn dyfod trwy lafur—mawredd llenyddol, mawredd yn y gwyddorau a'r celfyddydau, a mawredd gwybodaeth, â'r hon yr "ehedwn i'r nefoedd," a geir yn unig trwy lafur. Os fel cosbedigaeth y gosodwyd llafur ar "deulu'r codwm," cosbedigaeth ogoneddus ydyw ! I'r cyfryw ag ydynt yn llafurio i'r amcanion uchaf, a chyda y dybenion puraf, y mae llafur yn ddyledswydd, yn addoliad, yn fawl, yn anfarwoldeb. Dirmyger, ie gwawdier y *term* gwagsaw Ffawd. Llafur, ac nid ffawd, ydyw tad y dyn llwyddianus. Cawn blentyn ffawd bob amser yn dysgwyl am rywbeth i "droi fyny," ond y mae Ap Llafur gyda llygaid treiddgar ac ewyllys gref, yn troi y "rhywbeth" i fyny. Ap Llafur yn troi allan am chwech, a chyda phin yr ysgrifenydd buan, neu glochdar cyflym y morphwyl, yn gosod i lawr sylfaeni ei lwyddiant ; *pet* ffawd

wedi gorwedd yn ei wely hyd naw, er hyny a deimla yn

“Gan' casach, trymach tro,
Gwedi hyn godi o hono.”

Ffawd yn cwynfan am gymynrodd—gwerth gwaed corff marwolaeth cyfnither i chwaer modryb ei hen nain; llafur yn chwibanu gorthrymderau i ffoi. Ffawd yn ymorphwys ar ddamwain, llafur ar gymeriad. Ffawd yn llithrio i lawr, lawr, yn ngherbyd twyllodrus hunan-fwynhad; llafur yn carlamu tuag i fyny, gan dremio a'r gopâu gwyrdd-leision bryniau nefolryw, cartref gwynfydedigrwydd ac annibyniaeth.

Yr ydym ni, plant yr 80's, wedi ein geni i fod yn llygaid dystion, ni a hyderwn, o ymheddychiad y pleidiau gelymol ag ydynt wedi ymladd gornestau celyd er's tri chant o flynyddoedd, rhyfel cyfalaf a llafur. Na atto Duw i gynhyrfwyr anwybodus, trwy eu dichellion gwrthryfelgar, osod ein gwlad anwyl fel Tyrus, ac megys Sidon, yn gartref dylluanod, ac yn daenfa rhwydau. Na atto Duw i ni byth gael agor ein llygaid ar y fath olygfa. Gallem ddweyd o waelod enaid, gyda yr enwocaf o blant y Weriniaeth fawr American-aidd, Daniel Webster: “When my eyes shall be turned to behold for the last time the sun in heaven, may I not see him shining on the broken and dishonored fragments of a once glorious Union—our land rent with civil broils, or drenched, it may be, in fraternal blood. Let my last feeble and lingering glance, rather, behold the gorgeous ensign of the Republic, now known and honored throughout the earth, still full high advanced, its arms and trophies streaming in their original lustre; not a stripe erased or polluted, not a

single star obscured, bearing for its motto, 'Liberty first, and Union afterwards,' but everywhere spread all over, in characters of living light, blazing in all its ample folds, as they float all over the sea, and over the land, and on every wind, and under the whole heavens, the other sentiment, dear to every true American heart: 'Liberty and Union, now and forever, one and inseparable.'"

Cadwn yn agored glorian Gair y Bywyd, yr hen Feibl Cysegrlan, dôrai ein heglwysdai, a'n hysgoldai; llocheswn syniadau uchel am eu hordinhadau cysegr-edig; edmygwn nerthoedd dylanwadol y wasg; cyfranwn yn haelionus er llanw coffrau ein cymdeithasau elusenol a chrefyddol, y tyrau, y gwarchgloddiau, a'r palasau ag ydynt wedi ein bendithio â nerthoedd, gogonianau, a dylanwad na roddwyd i'r un genedl arall dan yr holl nefoedd. Gwnawn y pethau hyn, a cha ein gwlad gyfreithiau cyfiawn, addysgiaeth drwyadl, deddfau uniawn, a threfniant trafniadol cywir a diogel. Gyda person unigol, yn y teulu, y gwladwr cyffredin, y cylch cymdeithasol, y wladwriaeth, a'r genedl, teyrnasa gwirionedd a geirwiredd yn lle celwydd a chyfeil-iornadau; heddwch yn lle dialedd, rhyfel, a thywallt gwaed; cariad yn cymeryd lle ymrysonau personol a gwladwriaethol; sancteiddrwydd yn lle pechod; cyfiawnder yn lle gorthrwm. Y grasusau Cristionogol, ffydd, gobaith, a chariad, ag ydynt fil prydferthach na grasusau ffugiol dameg-ddysg glasuroly y paganiaid, yn llawer mwy swynol nag awenyddiaeth fodeuog y "cerddi Groegaidd," yn harddu pob wyneb, yn pelydru o bob llygad.

Planer gwynfydedigrwydd yn y galon, a bydded crefydd, y gwyddorau, a'r celfau cain, yn is-wasanaethgar i ddadblygiad a chynydd; a chariad, "the greatest gift which God hath given to man," yn ganolbwynt y cysawd :

"AC O GARU, CARU POB HANFOD, AC YN MHOB HANFOD
CARU DUW. DUW A PHOB DAIONI."

the fact that the model is not a perfect fit for the data. The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.

The model is a simplification of the real world and it is not possible to capture all the details of the system. The model is a representation of the system and it is not the system itself. The model is a tool to help us understand the system and it is not a substitute for the system.



the 1990s, the number of people in the UK who are aged 65 and over has increased from 10.5 million to 13.5 million (15.5% of the population).

There is a growing awareness of the need to address the needs of older people, and the Government has set out a strategy for the 21st century in the White Paper on *Ageing Better: The Government's Strategy for Older People* (Department of Health 1999). This strategy is based on the following principles:

- Older people should be able to live independently and actively in their own homes.
- Older people should be able to live in their own communities.
- Older people should be able to live in their own homes and communities for as long as possible.

These principles are reflected in the following objectives of the strategy:

- To ensure that older people are able to live independently and actively in their own homes.
- To ensure that older people are able to live in their own communities.
- To ensure that older people are able to live in their own homes and communities for as long as possible.

The strategy also sets out a number of key actions to be taken to achieve these objectives:

- To ensure that older people are able to live independently and actively in their own homes.
- To ensure that older people are able to live in their own communities.
- To ensure that older people are able to live in their own homes and communities for as long as possible.


The strategy also sets out a number of key actions to be taken to achieve these objectives:

- To ensure that older people are able to live independently and actively in their own homes.
- To ensure that older people are able to live in their own communities.
- To ensure that older people are able to live in their own homes and communities for as long as possible.

The strategy also sets out a number of key actions to be taken to achieve these objectives:

- To ensure that older people are able to live independently and actively in their own homes.
- To ensure that older people are able to live in their own communities.
- To ensure that older people are able to live in their own homes and communities for as long as possible.





3 2044 018 978 932

This book should be

THE BORROWER WILL BE CHARGED AN OVERDUE FEE IF THIS BOOK IS NOT RETURNED TO THE LIBRARY ON OR BEFORE THE LAST DATE STAMPED BELOW. NON-RECEIPT OF OVERDUE NOTICES DOES NOT EXEMPT THE BORROWER FROM OVERDUE FEES.

**Harvard College Widener Library
Cambridge, MA 02138 (617) 495-2413**

